Y DRYSORFA.

Rhif. 705.] GORPHENAF, 1889. [Llyfr LIX.

ANERCHIAD YMADAWOL.*

(Wrth roddi i fyny y Gadair yn Nghymdeithasfa ddiweddar Porthaethwy.)

GAN Y PARCH. W. JAMES, B.A., MANCHESTER.

Anwyl Frodyr a Thadau:—"Gwell yw diweddiad peth na'i ddechreuad," ebe'r Pregethwr; ac oni b'ai am yr anerchiad ymadawol ynglŷn â hi, yn debyg, mae yn ddiau, y dywedai llawer un am lywyddiaeth y Gymdeithasfa am flwyddyn hefyd. O'r hyn lleiaf, felly y dywedai yr un sydd yn awr yn ymneillduo o'r swydd, a'r hwn y mae y ddefod arferol wrth wneyd hyny, yn ei olwg, yn benyd llawn ddigonol am ba bechodau bynag a allai un fod wedi eu cyflawni yn ystod ei dymmor.

Tua blwyddyn i'r adeg hon yr oeddym yn gynnulledig mewn tref yn Nhrefaldwyn, Uchaf. Ni fyddai yn beth o'i le i mi gyfeirio at yr amgylchiadau o dan ba rai y bu yn rhaid i mi fyned yno, ond yn unig er mwyn talu diolch cynhes i'r Gymdeithasfa am ei chydymdeimlad â mi ar y pryd, a'i charedigrwydd tuag ataf o hyny hyd yn awr; ac hefyd er mwyn datgan y gofid dwys yr ydym bawb yn ei deimlo am nad yw y parchedig dad, yr hwn, mewn geiriau mor hynaws, a amlygodd deimlad y cyfarfod yn Machynlleth, ddim gyda ni heddyw, ac na chawn weled ei wyneb ef mwy. Mae yn chwith meddwl, yn wir, fod tafod yr hybarch a'r poblogaidd Joseph Thomas, yr hwn a swynodd gymaint ar Gymru am gynifer o flynyddoedd, yn y cyfamser wedi dystewi, ïe, dystewi yn yr angeu; a'i fod ef ei hun, yr hwn y bu yn dda genym mor aml ei anrhydeddu â'r lleoedd uchaf yn ein Cymdeithasfaoedd, erbyn hyn wedi ei symud "i gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd;" yno i fod mwyach "fel seren byth ac yn dragywydd:" canys efe a "drodd lawer i gyfiawnder:" yr hyn iddo ef, yn wir, sydd yn newidiad er gwell o lawer iawn, ond i'r Gymdeithasfa hon, a'r Cyfundeb a'r wlad oll, sydd yn achos o alar dwys ac o golled fawr.

Wrth roi i fyny y gadair heddyw, mae yn dda genyf allu dyweyd nad oes un gronyn o ofid yn codi ynof ar gyfrif dim anhyfryd a gymerodd le rhyngof a neb o'r aelodau, tra fum yn eistedd ynddi. Tra yn gorfod arfer hyny o lywyddiaeth oedd yn anghenrheidiol, yr wyf yn gobeithio ac yn credu i mi, o drugaredd, ddianc rhag rhoddi clwyf i'r un o'm brodyr. Y sail sydd genyf i gredu hyny yw, na roddodd neb o honynt hwy yr un clwyf i mi; ac yr ydys yn cael yn gyffredin lle y dygwyddodd y naill, fod y llall wedi dygwydd hefyd.

Yr oedd un peth, ac nid oedd ond un, ag yr oeddwn yn fwy awyddus i'w wneyd nag hyd yn nod peidio rhoddi tramgwydd i frawd, neu rwystr; a

* Parotowyd i'r Drysorfa, gyda rhai cyfnewidiadau yn y geiriad, gan yr Awdwr.

hyny oedd, sicrhau i'r Gymdeithasfa y fantais oreu oedd yn bosibl oddiwrth yr holl weithrediadau. Nid wyf yn bwrw ddarfod i mi ddwyn y dymuniad hwn i ben ond yn anmherffaith iawn; ond ni allai lai na byddai i'r profiad sydd yn anwahanol oddiwrth y swydd ddysgu i un lawer ynghylch yr amcan ei hun, a rhywbeth hefyd ynghylch y ffordd i'w gyrhaedd.

Yr wyf, gan hyny, yn teimlo yn fwy rgyhoeddedig nag erioed mai budd o'r mwyaf i'r Gymdeithasfa a fyddai fod y Llywydd, pwy bynag fyddo, yn llywyddu mewn gwirionedd, yn hytrach nag i'r gweithrediadau gael eu gadael i redeg ymlaen mewn ffordd ddamweiniol a dibwrpas. Un ammod am lwyddiant ynglŷn âg ymresymiad agored ynghylch unrhyw bwnc dyrys yw, fod yr ymddyddan yn cael ei gyfyngu yn ofalus o fewn erfynau priodol. Mewn geiriau eraill, cyn y gall dadl gyhoeddus ar unrhyw gwestiwn fod yn llwyddiannus, mae yn rhaid iddi gael ei dwyn ymlaen wrth drefn, neu yn unol â rheolau manwl. Ond, fel y mae gwaetha'r modd, y mae rheolau o'r fath yn bethau na feddwn ninnau mo honynt, ond i raddau anmherffaith iawn. Y canlyniad yw fod y Llywydd yn ei gael ei hun yn aml heb un rheol addefedig i fyned wrthi, ac, am hyny, yn gorfod bod, goreu y gallo, yn rheol iddo ei hun; sefyllfa na all fod yn un hyfryd i neb fod ynddi, ac nad yw ein gwaith ninnau yn gosod rhai ynddi yn un caredigrwydd, os yn hollol deg ychwaith, tuag atynt. Mae yr hyn a elwir yn rheolau sefydlog yn awr wedi eu darparu gan y Gymanfa Gyffredinol at ei gwasanaeth ei hun; a goreu po gyntaf, mae yn ymddangos i mi, i'r rhai hyny, neu rai tebyg iddynt, gael eu derbyn a'u rhoi mewn grym gan y Cymdeithasfaoedd hefyd.

Peth arall a dueddai yn ddiamheuol i ychwanegu at werth a dylanwad y trafodaethau yw, fod nifer mor liosog ag y byddo modd yn cymeryd rhan ynddynt. Os yw y farn derfynol i feddu awdurdod cyfatebol i gyfansoddiad y cynnulliad, mae yn ofynol iddi fod yn ffrwyth cydymgynghoriad yn yr hwn y cymerodd, nid yr holl aelodau, fe allai, ond yn sicr pob ‡dosbarth o honynt, eu rhan yn rhydd ac yn ddiofn. Mae cael clywed llais y brodyr hynach a'r tadau mwy profiadol ar bob cwestiwn pwysig yn beth llwyr anghenrheidiol. Ond ai tybed nad yw hi yn bryd i'r syniad gael ei roi heibio bellach, fod dyn yn rhy ieuanc i agor ei enau mewn Cymdeithasfa, nac i ddysgwyl cael edrych arno fel yn deilwng o sylw ynddi, gan nad beth fyddo ei le yn ei gartref ac yn ei Gyfarfod Misol, hyd nes y cyrhaeddo ei hanner cant neu ei driugain oed?

Un peth arall eto teilwng o ystyriaeth yn y cysylltiad presennol yw, pa un a ydyw y defnydd goreu a mwyaf manteisiol yn cael ei wneyd genym o'r amser sydd at ein gwasanaeth yn y cynnulliadau hyn neu beidio? Mae y rhai sydd wedi sylwi yn gwybod mai ein harfer yn gyffredin yw, dechreu ar y gwaith yn dymmoraidd, pan ellir, prydnawn y dydd cyntaf, prysuro ein camrau yn raddol tua'r hwyr, cymeryd seibiant o rai oriau wedi'r pryd i ddyn fyned allan i'w waith bore drannoeth, rhuthro yn ddireswm ar ol ciniaw, a dybenu allan o wynt yn blygeiniol iawn y trydydd dydd, gan adael, ysgatfydd, swrn da o'r gwaith heb gyffwrdd âg ef wedi'r cwbl. Un canlyniad o hyny yw, fod y "*society* wyth o'r gloch,"—ac yn achos hono yn benodol yr wyf yn siarad—yn fynych yn cael ei dileu yn llwyr, o ran ei chymeriad priodol, allan o lyfr ein coffadwriaeth. O ran hyny y mae yr adeg pryd y ceisir cynnal y cyfarfod hwn yn ddigon ynddi ei hun erbyn hyn i'w andwyo. Gydag un oedfa heb fod ond yn brin drosodd pan y dylid ei ddechreu, ac un arall yn dechreu bron cyn ei fod

drosodd, ni ellir yn rhesymol ddysgwyl llawer o lewyrch ar gynnulliad yn yr hwn, fel ei amcan priodol yn ol cyfansoddiad y Gymdeithasfa, y dysgwylir i ryw fater dwfn a dyrys o athrawiaeth gael ei drafod. Ac os yw y cyfarfod i gael ei barhau yn y cymeriad hwn—yr hyn sydd, fe allai, yn gwestiwn teilwng o'i ystyried—mae yn ymddangos yn bur amlwg y rhaid gwneyd rhyw ddarpariaeth well ar ei gyfer; yr hyn, yr wyf gyda phob parch yn dymuno awgrymu, a fyddai yn bosibl ac yn hawdd ei wneyd trwy fod rhyw awr yn ystod un o'r ddau ddydd blaenorol yn cael ei neilldio at ei gynnal. Ni raid dyweyd y byddai hyny yn ymwared ac yn gyfleusdra mawr i'r lleoedd y byddys yn ymgynnull ynddynt, gan y byddai iddo wneyd i ffordd â'r anghen am bentyru'r cyfarfodydd ar eu gilydd foreu y dydd olaf, fel yr ydys yn gwneyd yn awr. Ac os oes oedfa i fod cyn deg o'r gloch, fe ellid yn hawdd ei chael, gyda'r cyfnewidiad hwn, dyweder am 7, neu pan fynid rhwng hyny ag 8 o'r gloch.

Nid oedd y flwyddyn ddiweddaf yn un hynod iawn yn ein hanes, nac yn un hollol ddinod ychwaith. Bu un neu ddau o bethau tra phwysig ger bron yn y gwahanol gyfarfodydd. Un oedd achos addysg ein pregethwyr ieuainc, ac yn enwedig y cynnygiad ynglŷn â hyny am gael un Athrofa Dduwinyddol i'r holl Gyfundeb. Yr wyf yn teimlo yn dra siomedig am nad wyf yn cael y pleser o longyfarch y Gymdeithasfa yn wyneb canlyniadau mwy ffafriol nag a fu i'r cydymgynghoriad â'n brodyr yn y De ar yr achos pwysig hwn. Y cwbl a allwn ei wneyd yn bresennol, fe allai, yw gadael y peth i amser ac i Raglunaeth; nid heb obaith y dygir ef i sylw drachefn cyn bo hir iawn, ac y bydd iddo y pryd hyny derfyniad mwy boddhaol.

Yn y cyfamser y mae wedi ei adael i'r Gymdeithasfa hon fod iddi arfer pob moddion o fewn ei gallu tuag at gadw i fyny effeithiolrwydd ei Hathrofa ei hun, ac er ychwanegu ato ymhob modd sydd yn ddichonadwy. Mae yn hysbys i bawb sydd yma ei bod yn amcan genym er ys tro bellach, yn niffyg bod un Coleg yn cael ei ffurfio i'r De a'r Gogledd, i droi y sefydliad yn y Bala yn un Duwinyddol hollol mor fuan ag y gellir; ac nid yw yn ddiarwybod i'r rhan fwyaf o'r Cyfeisteddfod, ychydig amser yn ol, gyda'r amcan hwnw mewn golwg, roddi gwahoddiad taer i Dr. Charles Edwards i ddyfod yn llywydd i'r sefydliad hwnw, ac yn brif athraw duwinyddol ynddo. Mae yn wir ofidus genyf ddeall nad yw Dr. Edwards wedi gallu gweled ei ffordd yn glir i gydsynio â'r gwahoddiad: ond mi wn fy mod yn dadgan teimlad y cyfarfod wrth ddyweyd nad ydym mewn un modd yn foddlawn i edrych ar hyny fel yn derfyniad hollol ar y mater; gan ein bod yn argyhoeddedig mai y lle mwyaf naturiol i'r Principal Edwards i lafurio ynddo, a'r maes lle y gallai wneyd mwyaf o wasanaeth i Fethodistiaeth yr hon y mae mor hoff o honi, ac i achos yr Arglwydd Iesu, yr hwn y mae yn ei garu mor fawr, ydyw mewn coleg hollol dduwinyddol, a hwnw hefyd yn unol â theimlad digyfnewid y Gymdeithasfa hon, yn goleg i'r holl Gyfundeb; a chan deimlo yn ddwys hefyd y byddai i'w gysylltiad ef â'n haddysg athrofaol ar hyn o bryd droi allan yn gaffaeliad o'r mwyaf gwerthfawr i dduwinyddiaeth yn ein gwlad. Gyda sefydliad o fath yr un a enwyd, a'r dynion iawn yn athrawon ynddo, ni a allwn edrych ymlaen yn hyderus at ganlyniadau mawrion a gwerthfawr o lawer math. Yn arbenig fe ellid dysgwyl gweled yn cael ei gychwyn a'i sefydlu yn ein mysg rywbeth a ellid yn briodol ei alw yn ysgol wir Gymreig o dduwinyddiaeth.

Fod y defnyddiau at hyny o fewn ein cyrhaedd, sydd, mi dybiwyf, yn ddiammheuol. Canys onid yw yn rhesymol i ni gredu am y brwdfrydedd ysbryd a'r dwysder teimlad hyny ag y mae y Pulpud Cymreig mor ddyledus iddynt am yr hyn ydyw, y byddai iddynt o'u harfer a'u cymhwyso yn briodol, ddylanwadu yn gyffelyb ar ein duwinyddiaeth hefyd, gyda'r canlyniad o roddi iddi hithau gymeriad gwahaniaethol a gwir genedlaethol? Oblegid lle byddo meddwl yn meddu ar y treiddgarwch a'r beiddgarwch anghenrheidiol, a chalon wedi ei llenwi â'r duwiolfrydedd cyfaddas, y mae y cymhwysderau hyn, yn ddiau, ymysg y rhai mwyaf effeithiol at ddwyn dyn i gyffyrddiad uniongyrchol â'r gwirioneddau am gariad Duw, ac i gydymdeimlad bywiol â "rhagorol olud ei ras ef, trwy ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu."

Peth arall o bwys a dyddordeb a gymerodd le y flwyddyn ddiweddaf oedd, y cam dechreuol at sefydlu yr hyn a elwir yn Gronfa Fenthyciol. Mae yn ymddangos fel pe byddai y Cyfarfodydd Misol yn lled gyffredinol yn cytuno, a hyny er ys tro, fod gwir anghen arnom am rywbeth o'r natur yma; ond y mae ein hanes gydag ef hyd yn hyn yn peri i un feddwl am eiriau Paul yn fwy na dim arall: "Yr ewyllysio sydd barod genyf; eithr cwblhau yr hyn sydd dda, nid wyf yn medru arno." Gobeithio, pa fodd bynag, y bydd i'r cais presennol droi allan yn fwy llwyddiannus na dim a fu o'i flaen.

Nid oes dim i'w ddymuno yn fwy, a hyny yn wastadol, na bod i'r Gymdeithasfa, fel un o brif lysoedd y Cyfundeb, arfer y dylanwad goreu sydd yn bosibl ar yr holl eglwysi; ei bod yn gwneyd hyny, nid yn unig trwy anfon allan benderfyniadau doeth, ond hefyd, yn fwy fyth, trwy gael ei llywodraethu yn ei holl weithrediadau gan yr ysbryd mwyaf eang, mwyaf goleuedig, a mwyaf dyrchafedig. Yr ydym yn llawenhau yn fawr ac yn diolch o'r galon i Dduw am fod y Corff crefyddol yr ydym yn perthyn iddo wedi bod yn abl o'r dechreu i wneuthur gwasanaeth mor ddaionus a rhagorol i'r wlad hon, a hyny hefyd o fewn y ddau gylch y dylai gwasanaeth o'r fath bob amser fod yn ymestyn drostynt, sef y meddyliol a'r moesol. Nid oes un ammheuaeth am wirionedd hyn. Ac eto fe ellir gofyn y cwestiwn heb roi achos tramgwydd i neb, pa un a yw ein dylanwad wedi bod yn gyfartal, neu mor agos i hyny ag y byddai yn ddymunol, yn y naill gylch a'r llall, neu beidio? a pha un a ydyw Cymru heddyw, mor bell ag yr oedd ar ein llaw ni i sicrhau hyny, yn sefyll mor uchel mewn rhinwedd personol ag mewn gwybodaeth Ysgrythyrol?

Mae cyhuddiadau cryfion a phoenus, chwi a wyddoch, yn cael eu hyrddio atom o leoedd uchel yn awr ac eilwaith. Gan estroniaid y teflir hwynt allan, a'r rhai hyny hefyd yn ddynion nad yw yn bosibl eu bod yn meddu ond y nesaf peth i ddim gwybodaeth uniongyrchol am wir gymeriad y genedl. O ran dim awdurdod sydd yn eu haeriadau hwynt, gan hyny, yr ydym yn gallu eistedd yn ddigon didaraw odditanynt. Oblegid ni fyddai ond yr annhegwch mwyaf i genedl gyfan gael ei barnu oddiwrth yr ychydig o'i gwehilion, sydd yn dyfod ar ddamwain o flaen y barnwyr yn eu cylchdeithiau, a'r rhai hyny ydynt, yn ddiau, yn eithaf parod i dyngu unrhyw beth a dybiant sydd er eu mantais. Nid ydym ychwaith yn petruso dyweyd wrth ein cyhuddwyr am iddynt gymeryd eu cyhuddiadau gyda hwynt adref i'w gwlad eu hunain, lle, yn ol pob cyfrifon, y mae llawer mwy o sail iddynt nag sydd yn Nghymru. Ond wedi'r cwbl, y cwestiwn ydyw, A yw y pethau hyn felly? Ai gwir yw fod y Cymry, o'u cymharu â chenedloedd eraill, yn pallu i raddau

neillduol yn mhrif elfenau cymeriad da, yn enwedig wrth ystyried eu manteision uchel a'r enw sydd iddynt eu bod ymhob peth yn dra chrefyddol? Ac os felly, ein cwestiwn pellach a ddylai fod, I ba raddau y mae Methodistiaeth yn gyfrifol am hyny? Mae un gŵr, ac yntau hefyd yn Gristion ac yn dduwinydd, wedi dyweyd yn ddiweddar fod y Cristionogion ar hyd yr oesoedd wedi bod yn euog o osod Cristionogaeth allan ger bron y byd mewn golwg mor gamarweiniol ag i beri i ddynion edrych arni fel cyfundraeth o athrawiaethau anneallus ac afresymol, y rhai y mae yn rhaid eu derbyn yn ddifarn, neu ynte golli pob mantais oddiwrthi, yn hytrach nag fel darpariaeth at wellhau dynion yn bersonol ac yn foesol; a'u bod trwy hyny wedi rhoi i'w gelynion achlysur, a hwnw nid yn un hollol anghyfreithlawn ychwaith, i'w gwawdio ac i'w chablu. Ni ellir gwadu, fe allai, nad oes rhyw gymaint o wir yn hyn, yn gyffredinol, ac yr wyf yn ofni na allwn ninnau ei wadu yn hollol am danom ein hunain ychwaith.

Nid nad yw y Methodistiaid wedi arfer talu sylw mawr i ymddygiadau eu haelodau. O ydym: yr ydym yn myned i fanylder mawr gyda hyny weithiau! Ond ni fyddai yn ddim niwed pe byddai i ni ystyried am foment pa fath a pha rai yw y pechodau yr ydym yn arfer eu gwrthwynebu yn fwyaf cryf a phenderfynol. A yw cybydd-dod yn un o honynt? Digon prin; ac eto y mae hwn yn eilunaddoliaeth, ac yn cau dynion allan o deyrnas nefoedd. A oes tân llosgawl yn cael ei gadw i fyny yn gyson yn ein heglwysi yn erbyn twyll, pa un ai ar air, ai ar fesur, neu ar bwys; ac yn erbyn cenfigen, a dygasedd, a bwriad drwg, a phob annghariadoldeb? Nid i'r graddau a ddylai, ai ŵe? Ac eto dyma'r pethau sydd yn halogi dyn, a'r rhinweddau cyferbyniol iddynt yw y ai hyny sydd yn ei sancteiddio yn benaf oll, ac yn addurno ei natur â'i hurddas a'i gogoniant uchaf. "Y pethau trymach o'r gyfraith, barn, a thrugaredd, a ffydd: rhaid oedd gwneuthur y pethau hyn, ac na adewid y lleill heibio."

Fe aeth dyn o Sais, sydd wedi bod yn byw yn Nghymru am rai blynyddau, i un o drefi Lloegr yn ddiweddar i ddysgu i'r Cymry sydd yn byw yno eu dyledswyddau tuag at eu cydgenedl yn y Dywysogaeth; ac yn ystod ei anerchiad fe wnaeth y sylw fod llawer, os nid bron bawb—nid wyf yn hollol sicr o'r gair—o'r blaenoriaid sydd yn arfer myned i Lundain ar fasnach o'r rhan o'r wlad lle mae ef yn byw, yn gwneyd yno yn gyson yr hyn y buasent hwy eu hunain yn eu cartrefi yn galw i gyfrif ac yn gosod dan gerydd unrhyw rai o'r aelodau perthynol i'w heglwysi a geid yn euog o'i wneyd. Nid wyf yn gwybod pa faint o wir sydd yn hyn, os oes dim gwir ynddo: ond yr wyf yn argyhoeddedig am ein swyddogion fel dosbarth mai enllib ac athrod arnynt a fyddai dyweyd eu bod yn abl i wneyd yn Llundain, nac yn un lle arall, ddim ag y mae eu cydwybodau yn ei gondemnio fel drwg neu bechod ynddo ei hun. Mi a awn yn feichiau drostynt mai nid eu harfer yw mynychu tai anllad, neu ymlusgo i ffauau lladron, neu eistedd mewn cyfeddach gyda'r rhai sydd yn meddwi, na dim o'r cyfryw. Ac eto os oes rhyw wir yn y cyhuddiad a enwyd, mae yn rhaid fod rhywbeth ymhell o fod yn iawn yn rhywle.

Peth annoeth, peryglus, a niweidiol, mewn llywodraeth eglwysig yn ogystal ag un wladol, ydyw gosod i fyny ddeddfau a'r na byddo calon a chydwybod y rhai y dysgwylir iddynt eu cadw yn eu cymeradwyo ac yn eu cadarnhau. Mae ein brodyr da y Wesleyaid yn dechreu dyfod i deimlo oddiwrth wirionedd hyn, yn ngweinyddiad eu rheol hwynt gyda golwg ar y *class meeting;* rheol, gan nad pa

mor dda bynag yn ei hamcan, a pha mor gymhwys bynag ydoedd ar un adeg yn hanes y Cyfundeb, nad yw mewn gwirionedd yn ddim ond peth o gerfiad celfyddyd a dychymyg dyn yn unig. A'r gwir am bob ammod mympwyol a chelfyddydol o'r fath am dderbyniad i aelodaeth eglwysig a pharhad ynddi yw, os ceisir rhoi iddo rym cyfraith, ei fod yn rhwym, yn fuan neu yn hwyr, o arwain i ofid, i gymysgedd, ac i lygredigaeth: "Eithr yn ofer y'm hanrhydeddant i, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth."

Yr ydys yn cael fod agos i bob Cyfundeb crefyddol, wedi iddo ei sefydlu ei hun mewn ysbaid go faith, ac ennill meddiant lled sicr ar y trigolion, yn dueddol i orphwys yn foddlonol ar yr hyn ydyw a'r hyn sydd ganddo, gan edrych gydag ammheuaeth ac anghymeradwyaeth ar bob peth a fyddo o natur i aflonyddu ar bethau fel y maent. Am yr amrywiol ganghenau, o'r brif eglwys i lawr hyd at rai o'r sectau digon dinod, yn y dwyrain a'r gorllewin, ar Gyfandir Ewrop, ac yn yr Ynysoedd Prydeinig, dyna fu yr hanes i raddau helaeth ar hyd yr oesoedd; ac o hyny yn ddiau y tarddodd un o'r prif achosion o'r malldod a'r dadfeiliad a ymdaenodd mor gyffredinol drostynt un ar ol y llall. Mae yr adeg wedi dyfod pryd y gweddai i Fethodistiaeth Galfinaidd fod ar ei gwyliadwriaeth rhag y pla dinystriol hwn. A ni bellach nghylch deng mlynedd a deugain a chant oed, yr ydym yn dechreu myned i ymdeimlo â'n henaint ac i ymfalchïo yn ein traddodiadau; yr hyn, yn wir, ar gyfrif rhagoroldeb yr hyn sydd genym i edrych yn ol ato, y mae genym y rhesymau goreu dros ei wneyd hefyd. Ac heblaw hyny, os yw ein hunoliaeth fel Cyfundeb i barhâu, a'n cymeriad yn yr ystyr hyny i gael ei gadw i fyny, mae mor amlwg a dim fod parch i'r hen ac ymlyniad wrtho, o fewn terfynau priodol, yn beth llwyr anghenrheidiol i ni ei feddu. Cystal ymron a fyddai dysgwyl i'r pren fyw a blaguro er ei wahanu oddiwrth ei wreiddiau, neu i'r ffrwd bara i redeg wedi i'w chysylltiad â'r ffynnon gael ei dori, ag a fyddai dysgwyl i Fethodistiaeth fyw a llwyddo wedi iddi unwaith droi ei chefn ar ei dechreuad, ac ymwrthod â'r ysbrydiaeth sydd yn deilliaw o hono. Yr un pryd, ni a ddylem gofio nad yw henaint o hono ei hun ddim yn ddigon o reswm am i bethau fyw byth, ond ei fod yn hytrach yn rheswm digonol weithiau dros iddynt farw yn ebrwydd. Ac yn y pen draw y cwestiwn terfynol ynghylch cynlluniau a threfniadau eglwysig a chyfundebol yw, nid a ydynt yn hen, ond a ydynt yn fuddiol; ac nid a fuant yn fuddiol ryw amser yn ol ychwaith, ond a ydynt felly yn awr. Iechyd i'r pren yw cael gwared o'i ganghenau meirwon, gan nad faint bynag o ffrwyth a fu arnynt flynyddoedd yn ol; ac iechyd i Fethodistiaeth Gymreig a Seisonig hefyd a fyddai cael gwared o'u canghenau diffrwyth hwythau, os oes arnynt rai, gan nad pa wasanaeth bynag a wnaethant iddynt mewn amser a aeth heibio. "Tor ef i lawr; paham y mae efe yn diffrwytho y tir?" Ar bob cyfrif bydded genym barch i'r hen, ond na adawn i'r parch fyned yn ofergoeledd; os amgen, ni all dim ond niwed ddyfod o hono.

Ond beth bynag a ddywedir am yr hen, mae yn rhaid i ni gofio fod a wnelom â'r newydd hefyd, â'r hyn sydd y tu blaen yn gystal a'r hyn sydd y tu cefn. Fe ddywedir am bob corff symudol mewn lle, ei fod yn cael gweithredu arno gan ddau allu croes i'w gilydd, un yn ei ddal yn ol a'r llall yn ei dynu ymlaen, a'i fod yntau yn gallu diogelu ei gydbwysedd a chadw ymlaen yr un pryd ar ei gwrs priodol ei hun yn yr eangder, trwy ufuddhau i'r ddau, y naill yn gystal a'r llall.

Mae cyfundebau crefyddol, y rhai ydynt yn fath o gyrff symudol mewn amser, yn ddarostyngedig i'r ammodau, neu rai pur debyg iddynt; ac os yw Methodistiaeth Galfinaidd, fel un o honynt, i gadw ei lle wrth weithio ei ffordd ymlaen trwy hanes, mae yn ofynol iddi hithau ildio, nid yn unig i'r cadwynau sydd yn dal yn ol wrth yr hyn a fu, ond hefyd i'r galluoedd sydd yn tynu rhagddynt at yr hyn a fydd. Ein cwestiwn mawr yw, tra yn dal gafael ar yr hen, pa fodd i ennill y newydd. A'n pryder a ddylai fod, heblaw glynu mewn cymundeb a chydymdeimlad gwastadol â hynafiaeth a'i thrysorau, pa fodd i gadw i fyny â'r newydd-deb a'r ieuenctyd tragywyddol sydd yn perthyn i amser ei hun ar bob pwynt yn ei dreigliadau chwyrn a'i gyfnewidiadau aneirif. Ac o bawb i ddibrisio'r newydd, heb son am ei wrthwynebu, Methodistiaid Cymru, bid sicr, a ddylai fod yr olaf, oblegid beth ydynt hwy eu hunain ond un o'r pethau mwyaf newydd a diweddar yn hanes crefydd yn y byd? Ah! hi fyddai yn chwith gan yr hen dadau, pe codent oddiwrth y meirw, gael fod eu plant, oddiar y broffes o barch iddynt hwy hefyd, yn myntumiaw fod newydd-deb mewn pethau crefyddol yn fath fawrddrwg ag y mynai rhai o honynt ei wneyd. Beth, onid hwy eu hunain oedd agos y pechaduriaid mwyaf yn yr ystyr yma a welwyd erioed? Onid am y peth hwn ei hun y cawsant eu melldithio mor dda ymhob plwyf, ac y dyoddefasant eu herlid mor greulawn ar hyd a lled yr holl wlad? Ië, yn wir; ac am danom ein hunain hefyd, onid am y "pechod marwol" o fod yn blant teilwng o'n tadau, a chadw i fyny y "sism" a wnaed ganddynt hwy; am ymwrthod â thraddodiadau "yr Eglwys lân Gatholig," a throi allan o'r olyniaeth apostolaidd; onid am y pethau hyn y mae pob curedyn balch a phob eithawr uchelfryd, pe b'ai waeth genym, yn ei theimlo yn ddyledswydd arnynt ein melldithio ninnau heddyw mor uchel a chroew ag y meiddiant? "Yn wir, meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr." Yr oedd ordeinio gweinidogion heb esgob i gyflawni'r ddefod yn newydd-beth beiddgar y dydd o'r blaen; ac felly yr oedd yr Ysgol Sul, dirwest, addysg y weinidogaeth, a llawer o bethau eraill. Ac nid oes ammheuaeth am y brodyr da hyny sydd yn awr yn condemnio gyda chymaint o ddefosiwn a duwiolfrydedd, symudiadau fel Bugeiliaeth Eglwysig, yr Achosion Seisonig, a'r Gronfa Gynnorthwyol, os nad yr un Fenthyciol hefyd—nid oes ammheuaeth am danynt, meddaf, na fuasent hwy yn condemnio yn hollol yn yr un modd y pethau a enwyd o'r blaen, pe ganesid hwy mewn pryd.

O ran hyny, y gwir yw mai yr hen yw y newydd, a'r newydd yw yr hen, yn mywyd a hanes Methodistiaeth Galfinaidd o'r dechreu; a'r ffordd oreu i ni allu dangos ein parch i'r tadau a'n hymlyniad wrth y traddodiadau a dderbyniasom ganddynt, ydyw trwy i ni gadw ar y blaen yn dda, o ran ein hysbryd, ein cydymdeimlad, a'n cynlluniau, gyda phob cynnydd mewn gwareiddiad a phob gwellhâd dynol arall, moesol, meddyliol, neu gymdeithasol, a gymero le yn y wlad yr ydym yn perthyn iddi, a'r oes yr ydym yn cyd-deithio megys â hi. Os yw y pren Methodistaidd i fyw, mae yn rhaid iddo dyfu, a thyfu fel pob pren arall, sef trwy fwrw canghenau fel planhigyn, eu saethu allan yn barhaus, un ar ol y llall, a phob un yn uweh ac ymhellach na'r un o'i blaen.

Ni a allwn gymeryd gwers yn hyn hefyd oddiwrth yr enwad parchus y cyfeiriwyd ato o'r blaen. Yr oedd yn dyfod yn fwy-fwy amlwg er ys tipyn am y Methodistiaid Wesleyaidd fod oedran a llwyddiant yn dechreu effeithio yn niweidiol arnynt. Ond yn ffortunus iawn y mae wedi codi yn ddi-

weddar yn eu mysg nifer o ddynion sydd yn troi y byd o'u hamgylch wyneb i waered, ac yn gwneuthur pob peth yn newydd ynddo; yn eu gwneuthur yn newydd, hyny yw, trwy ddwyn bywyd newydd i bob peth hen, a gweithio cynlluniau oedranus i addasrwydd gwell ar gyfer amgylchiadau newyddion. Dynion lled ieuainc ydynt ar y cyfan; ac y mae y mesurau y maent yn eu harfer a'r pranciau y maent yn eu chwareu yn naturiol yn taraw rhai o'u brodyr hynach â dychryn mawr. Ond y mae yn amlwg fod Duw gyda hwynt, a'i fod yn eu llwyddo.

Oni ddarllenasoch chwi yr hyn a adroddir am un o honynt, sef y Cymro hyawdl a brwdfrydig yna o Sir Gaerfyrddin, fod ganddo y beiddgarwch i ddyweyd y dydd o'r blaen yn mhresennoldeb cynnrychiolwyr o'r oll o'r prif enwadau efengylaidd yn Llundain, na ddylai fod ond dau o'r cyfryw enwadau yn awr yn y wlad hon, ac y dylai y Bedyddwyr ymuno ar unwaith â'r Annibynwyr, a'r Presbyteriaid â'r Wesleyaid. Wel, os na cheir clywed fod aml i hen gadeirydd Talaeth, ac ambell i hen gymedrolwr Cymanfa hefyd, wedi gwneyd eu meddyliau i fyny fod diwedd pob peth wedi nesâu gyda hyn, hi fydd yn rhyfedd. Fe ddywedai llawer fod y dyn o'i gof, fod llawer o ddysg neu rywbeth yn ei yru yn ynfyd. Ond nid felly. O na, y mae y gŵr yn nghanol ei bwyll; neu o leiaf y mae mor bwyllog ag y gellir dysgwyl i ddyn fod sydd ddydd ar ol dydd, a nos ar ol nos, yn llygad-dyst o'r trueni personol a'r pydredd moesol y mae miloedd ar filoedd yn gorwedd ac yn marw ynddynt yn barhaus yn mharthau dwyreiniol Llundain, a lleoedd poblog eraill. Ond beth bynag am hyny, y mae y syniad ynddo ei hun yn un gwych a godidog. Yr unig anffawd yw, ei fod ysywaeth yn rhy dda, ac nad yw y rhai y bwriadwyd ef ar eu cyfer ddim eto yn deilwng o hono. Y meddwl am uno Presbyteriaeth â Wesleyaeth yn un felly? Ië. Beth, ebe'r dyn, nid yw hyny, o'i gyfieithu, yn ddim amgen na'n huno ni y Methodistiaid â'r Wesleyaid, Calfiniaeth âg Arminiaeth; gyda'r canlyniad o ddwyn gallu dyn i mewn a throi rhad ras allan! Wel, ar y cyfan, fe allai pethau gwaeth na hyna ddygwydd, hwyrach, os nad ydynt yn dygwydd hefyd bob dydd. Ond deued a ddêl, y mae Cristionogaeth yn aros byth, ac y mae hi ei hun yn annhraethol well nag Arminiaeth na Chalfiniaeth chwaith, ac yn anfeidrol fwy na'r ddwy hefo'u gilydd. Ac am allu dyn, faint bynag sydd o hono, ar bob cyfrif gadewch iddo ddyfod i mewn. O ran hyny, yr anhawsder yr wyf fi yn ei weled yn gyffredin yw, cael gan bobl wneyd un defnydd dyladwy o'u galluoedd, heb i chwi fod wrthi byth a hefyd yn gwasgu arnynt nad oes ganddynt ddim. Ond beth am rad ras? Wel, nid peth hawdd, mi goeliaf, fydd ei droi ef allan. O na, na; ni raid i chwi bryderu yn ei gylch; canys mi warantaf y medr hwnw ofalu am dano ei hun. Pa lyfr tônau bynag fydd mewn arferiad, fe genir y gân hon hefyd,

"Y newydd gân bereiddia' i blas,
Fu 'rioed ar wyneb daear lâs:
Hi ddeil ei blas pan losgo 'r byd,"

Pan losgo Calfiniaeth ac Arminiaeth a berwi o Annibyniaeth ac Esgobyddiaeth,

"Berwi o'r môr a'i dònau 'n dân,
Y nefol gân fydd gras i gyd."

Ac nid wyf yn petruso dyweyd mai bendith o'r mwyaf i grefydd ac i gymdeithas yn ein gwlad a fyddai i rywbeth ddyfod a wnelai i ffordd, a hyny ar unrhyw draul o'r bron, â'r culni a'r cenfigen sectol yma sydd yn hau cymaint o wenwyn yn ein mysg; neu, dyweder, i'w tori i lawr i'w hanner i ddechreu. Mae yn ymddangos i mi, fel un peth at ddwyn hyn oddi-

amgylch, y byddai yn dda iawn pe gwelai rhai gŵr o sefyllfaoedd amlwg yn ein cymydogaethau eu ffordd yn glir i roi heibio bellach, pe na byddai ond er eu mwyn eu hunain, y ffug-urddasolrwydd salw y maent mor hoff o'i wisgo, ac yn yr hwn, gan ddiystyru eraill, y maent yn arfer o'u sefyll weddio rhyngddynt â hwy eu hunain fel hyn: "Yr ydym yn diolch nad ydym ni fel y mae dynion eraill, yn ddi-urddau, yn annghanonaidd, ac yn sismaticaidd; neu fel y Methodist hwn ychwaith;" a'i bod yn hen bryd hefyd erbyn hyn i Gristionogion o bob sect yn ein gwlad ddyfod i weled y dylai fod ganddynt rywbeth gwell i'w wneyd na chnoi a thraflyncu eu gilydd, a hollti blew am y meinaf â'u gilydd uwch ben cwestiynau anorphen, ac i deimlo fod ennill eneidiau i Grist yn fwy peth na sicrhau ysglyfaeth lawer i'r enwad, pa un bynag fyddo.

Mae Mr. Price Hughes, mi welaf, yn awyddus am dori y pedwar enwad y sonia ef am danynt i lawr i ddau, fel y byddont o hyny yn gryfach i wrthsefyll Pabyddiaeth, pa un ai yn Eglwys Rhufain ai ynte yn Eglwys Loegr y byddo. Purion: ond fe fydd arnom eisieu olynydd iddo yntau cyn hir, i wneyd y ddau a adawyd, eu hunain yn eu tro, yn un—yn un mewn ysbryd, os nad yn un mewn ffurf,—er mwyn iddynt hwythau fod yn gryfach i wrthwynebu, nid y Pab, ond y diafol; nid y dyn pechod, ond pechod ei hun.

Ac yn awr, gan ddymuno i'r Cyfundeb parchus yr ydym ni yma yn ei gynnrychioli, estyniad dyddiau a blynyddoedd lawer, ac adnewyddiad nerth ac ieuenctyd yn barhaus, i ddal i fyny o dan yr ymddiriedaeth drom a ddygwyd arno gan y rhai a osodasant ei sylfaen, ac eraill a fu yn ei oruwchadeiladu, yn gystal ag i gyfarfod yn wyol bob rhwymedigaethau newyddion a deflir yn ei ffordd gan Raglunaeth, wrth weithio allan gynghor a bwriadau Duw tuag at ein gwlad a'n cenedl; a chan ddiolch i chwi am i chwi fy ngwrandaw mor amyneddgar, yr wyf yn cilio o'r gadair gyda pharodrwydd, ac yn ei chyflwyno gyda phleser mawr i'r brawd etholedig a chymhwys iawn i'w llenwi,—gŵr ag y mae ei glod yn yr holl eglwysi, a'i ddawn yn gymeradwy yn yr holl gynnulleidfaoedd — y Parch. JOHN PRITCHARD, o'r sir hon.

ARFER DUWIOLDEB GARTREF.

Gan y Parch. THOMAS HUGHES, *Kenchester.*

1 TIMOTHEUS v. 4: "Dysgant yn gyntaf arfer duwioldeb gartref."

GARTREF ydyw y lle goreu i adnabod dyn. Yr hyn ydyw efe gartref yw efe mewn gwirionedd. Oddicartref y mae yn wyliadwrus, yn ochelgar, yn ceisio ymddangos yn y wedd oreu, ac weithiau hwyrach yn chwareu rhan y rhagrithiwr; ond gartref y mae yn anwyliadwrus, yn anochelgar, yn ddiorchudd, yn naturiol, yn gywir fel efe ei hun. Mae yn rhaid byw gyda'r dyn er gwybod yn iawn ei wir gymeriad.

Duwioldeb a ddywedir yn y testun, nid crefydd. Mae amryw fathau o grefyddau yn y byd, ond nid oes ond un math o dduwioldeb yn y byd. Mae y Pagan yn grefyddol, ac y mae yn grefyddol gartref, canys y mae ganddo ei dduwiau teuluaidd, y rhai y mae yn eu haddoli, ond nid ydyw yn dduwiol. Mae duwioldeb yn cynnwys mwy o lawer na chrefydd. Bywyd yw duwioldeb. Bywyd Duw yn enaid dyn. Cyfranogiad o'r dduwiol anian. Puredd o'n mewn. Crist ynom. Egwyddorion sanctaidd yn llywodraethu yr oll o'r dyn yn fewnol ac yn allanol.

"*Arfer duwioldeb.*" Byw yn dduwiol yw hyny. Dilyn rhinwedd. Ymroi i sancteiddrwydd. Ymarweddu yn ol Duw. Gwneyd pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau

bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy. Arfer amynedd, gostyngeiddrwydd, addfwynder, cymwynasgarwch, ymaros, maddeugarwch, a chariad. Byw i Grist, a byw yn ol Crist, a hyny gartref.

"*Yn gyntaf.*" Y peth penaf. Y peth pwysicaf o bob peth. Nis gall dim fod yn bwysicach i ni yn bersonol, ac hefyd i'n teuluoedd, nag arfer duwioldeb gartref. Os arferwn dduwioldeb gartref, yr ydym yn dra sicr o arfer duwioldeb ymhob man arall. Cymerwn fawr ofal o'n hysbryd, o'n geiriau, a'n hymarweddiad gartref.

"*Dysgant.*" Mae genym lawer iawn i'w ddysgu mewn perthynas i ymarweddu yn dduwiol. Rhyw blantos ydyw y goreu o honom yn y wers hon. Dylem ymhob modd ymdrechu i ymberffeithio yn y ddysgeidiaeth hon. Dysgu ymddwyn yn foneddigaidd, yn anrhydeddus, yn dduwiol, fel y byddo prydferthwch yr Arglwydd ein Duw i'w weled arnom. Dysgu trwy ymarfer. Ymarfer ein hunain i dduwioldeb. Ymgynnefino â dyledswyddau crefyddol trwy eu mynych arfer, fel y bydd eu cyflawni yn beth hawdd ac yn hyfrydwch i ni. Arfer a wna yn hawdd y peth mwyaf anhawdd.

Y mater ag y mae y testun yn ei gyfleu i'n sylw ydyw—Y PWYSIGRWYDD O ARFER DUWIOLDEB GARTREF.

Mae arfer duwioldeb gartref yn cynnwys y pethau canlynol:—Cadw addoliad teuluaidd. Cyfranu addysg grefyddol i'r teulu. Gosod esiampl deilwng ger bron y teulu, ac arfer awdurdod a gweinyddu llywodraeth briodol ar y teulu.

Mae pen y teulu i fod yn offeiriad, yn brophwyd, yn esiampl, ac yn frenin yn ei deulu.

I. OFFEIRIADAETH *y teulu.*

Fel offeiriad ei deulu dylai godi allor i Dduw yn ei deulu, a chyflwyno ger bron yr allor hono addoliad teuluaidd i'r Arglwydd.

Ceisiwn wneyd ychydig nodiadau ar addoliad teuluaidd, y modd y dylai gael ei gyflawni, a'r manteision sydd ynglŷn â'i gyflawniad.

(1.) *Y ddyledswydd ei hun.* Mae addoliad teuluaidd yn un o'r dyledswyddau hyny sydd yn codi, nid oddiar orchymyn pendant, ond oddiar natur crefydd Crist. Nid oes un gorchymyn penodol wedi ei roddi i gadw addoliad teuluaidd fore a hwyr yn ein cartrefleoedd, ond y mae crefydd Crist yn ddiammheuol yn dysgu hyn, yn cynnyrchu hyn, ac yn rhoddi meithrinfa i hyn. Planhigyn yn sicr ydyw sydd yn tyfu o'r had anllygredig sydd wedi ei hau yn nghalon y dyn duwiol gan Ysbryd yr Arglwydd.

Mae y ddyledswydd yn cael ei chymhell a'i chyfnerthu gan y berthynas agos sydd rhwng pob aelod o'r teulu â'u gilydd; ac hefyd gan y berthynas agos sydd rhwng yr holl deulu â Duw. Mae y teulu yn gyfansoddedig o aelodau sydd yn dal perthynas neilltuol ac agos â'u gilydd. Maent yn cyfranogi o lawenydd a thristwch eu gilydd. Pan y mae un o'r aelodau yn dyoddef, y mae'r holl aelodau yn cyddyoddef; a phan y mae un o'r aelodau yn llawenhau, y mae'r holl aelodau yn cyd-lawenhau. Yr ydym yn llawen gyda'r hwn sydd lawen, ac yn wylo gyda'r hwn sydd yn wylo. Yr ydym o anghenrheidrwydd natur yn cydymdeimlo â hwy yn eu llawenydd ac yn eu tristwch. Pan y mae un o'r teulu yn derbyn ffafr arbenig, y mae llawenydd yn ymledu trwy y teulu; a phan y mae rhyw anffawd wedi goddiweddyd un o'r teulu, y mae gofid yn treiddio trwy y teulu. Ac o herwydd yr undeb agos hwn y mae yn naturiol iddynt fel teulu nesâu at orseddfainc y gras, a chydweddio Duw. Maent yn cyfranogi o anghenion, teimladau, a dymuniadau eu gilydd.

Hefyd y mae yma berthynas agos iawn rhyngom fel teuluoedd â Duw. Oddiar ei law ef yr ydym yn barhaus yn derbyn aneirif fendithion teuluaidd, amddiffyniad teuluaidd, iechyd teuluaidd, heddwch teuluaidd, cysuron, llawenydd a llwyddiant teuluaidd. Mae ein rhwymedigaeth teuluaidd i Dduw yn anamgyffredadwy. Ac o herwydd ein hymddibyniad hollol arno ef am bob bendith, beth all fod yn fwy naturiol a rhesymol nag i ni godi allor iddo ef yn ein tai, a chyflwyno iddo ef aberth o ddiolchgarwch a mawl am ei holl ddoniau i ni?

Mae esiampl duwiolion y Bibl yn ein hargymhell i wneyd hyn. Pe byddai anghen gellid yn rhwydd ddwyn adnodau i brofi fod y ddyledswydd hon mewn bri ganddynt. Yn wir, y

mae pobl yr Arglwydd ymhob oes o'r byd, ac ymhlith pob enwad o Gristionogion, yn ystyried addoliad teuluaidd yn ddyledswydd bwysig iawn, ac yn fraint werthfawr ryfeddol. Pa faint bynag y maent yn gwahaniaethu ar faterion eraill, y maent yn unfarn ynghylch eu rhwymedigaethau i gyflawni hon; ac ystyriant y dyn sydd yn ei hesgeuluso yn ddiffygiol iawn mewn duwioldeb, ymhell yn ol o'r hyn a ddylai fod.

(2.) *Ymofynwn yn nesaf pa fodd y dylai y ddyledswydd hon gael ei chyflawni?*

Y prif elfenau mewn addoliad teuluaidd ydynt, Mawl, Darlleniad yr Ysgrythyrau, a Gweddi.

Mawl. Dylai gweddi deuluaidd gael ei huno â mawl i Dduw os bydd hyn yn bosibl. Os bydd aelodau y teulu yn gallu canu, dylid ymhob modd gydganu mawl i Dduw. "Molwch yr Arglwydd, canys da yw canu i'n Duw, o herwydd hyfryd yw, ïe, gweddus yw mawl." Ni a wyddom fod canu Salmau a hymnau ac odlau ysbrydol yn hynod gyfaddas i gynnyrchu ac i feithrin teimladau crefyddol, yn enwedig yn y bobl ieuainc, a chreu ynddynt archwaeth at ymarferiadau crefyddol fydd yn debyg o aros ynddynt am byth. Mae gan ganu Salmau a hymnau ddylanwad rhyfeddol ar y galon. Y mae yn adfywio, yn sirioli, yn lloni yr enaid, ac yn gwneyd y gwasanaeth addoliadol yn fwy dyddorol, adeiladol, ac argraffiadol.

Dylai y weddi deuluaidd bob amser gael ei huno â darlleniad pwyllog ac ystyriol o'r Ysgrythyrau. Ni ddylai Gair Duw a gweddi gael eu gwahanu oddiwrth eu gilydd yn yr addoliad teuluaidd. Mae y naill yn gynnorthwy i'r llall. Mae darlleniad ystyriol o ran o'r Bibl yn darparu yr enaid i gyfarch Duw mewn gweddi, mae yn cynnyrchu ac yn meithrin ysbryd gweddi, ac y mae yn awgrymu materion gweddi. Fe oera, fe wanycha, ac fe eiddila ein teimladau crefyddol, heb iddynt gael eu porthi gan Air Duw. Gair y Bywyd ydyw prif foddion yr Arglwydd i gynnal bywyd ysbrydol yn yr enaid. "Bywhâ fi yn ol dy air."

Dylai yr addoliad teuluaidd gael ei gadw mewn modd *difrifol.* "Ysbryd yw Duw, a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef addoli mewn ysbryd a gwirionedd." Mae gwasanaeth ffurfiol, brysiog, rhagrithiol, yn anghymeradwy iawn gan yr Arglwydd, ac yn niweidiol i'r teulu. Mae yr Arglwydd yn dyweyd wrthym ni fel y dywedodd wrth y bobl gynt, "Mi a sancteiddir yn y rhai a nesânt ataf." Peth ofnadwy yw difaterwch, ysgafnder, ffurfioldeb a rhagrith ynglŷn âg ordinhadau Dwyfol. Cywirdeb, parchedig ofn, gostyngeiddrwydd, a difrifoldeb, a ddylai nodweddu ein haddoliad teuluaidd. Dylem ar bob cyfrif adael argraff ar bob aelod o'r teulu ein bod o ddifrif. Gofalwn beidio rhoddi lle i neb dybied yn wahanol am danom.

Dylai yr addoliad teuluaidd gael ei gynnal *yn ofalus a meddylgar.* Gofalus a meddylgar mewn perthynas i *natur yr erfyniadau yr ydym yn eu cyflwyno.* Mae amgylchiadau ein teuluoedd yn amrywiol ac yn gyfnewidiol. Yn aml, o drugaredd, y mae rhyw fendith neilltuol wedi ei chael sydd yn gofyn am ddiolchgarwch neilltuol am dani. Weithiau y mae rhyw brofedigaeth benodol wedi ein cyfarfod sydd yn gofyn am nerth penodol i'w dal. Weithiau rhyw ddyledswydd arbenig i'w chyflawni sydd yn gofyn am gymhorth arbenig i'w chyflawni. Dylem, gan hyny, geisio deall anghenion, profedigaethau, a thrallodion gwahanol aelodau ein teuluoedd, fel y byddo i ni allu dwyn eu hachosion ger bron Duw, ceisio deall pa ddeisyfiadau i'w gofyn ar eu rhan, fel y byddo yr holl deulu yn gallu cydaddoli Duw.

Gofalus a meddylgar mewn perthynas *i'r iaith a ddefnyddir genym mewn gweddi.* Nid pob math o eiriau a brawddegau sydd yn briodol i'w defnyddio wrth weddio, yn enwedig yn y teulu. Nid iaith uchel, na iaith isel, nid brawddegau ffraethlym, sydd yn briodol wrth orsedd gras; ond iaith eglur, syml, a dealladwy i bob un yn y teulu. Ymadroddion cymeradwy, y rhai nis gellir achwyn arnynt, sydd yn gyfaddas i bwysigrwydd a difrifoldeb y gwasanaeth yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Mae ymdrech i wneyd arddangosiad o ddawn a ffraethineb, a phethau o'r fath, mewn gweddi, yn wrthun iawn i bob meddwl gwir grefyddol; pa faint mwy gwrthun ydyw hyn i Dduw?

Symlrwydd sydd yn weddus wrth orsedd gras.

Gofalus a meddylgar mewn perthynas i *hyd y gwasanaeth.* Ni ddylai gwasanaeth yr addoliad teuluaidd byth fod yn faith, onidê y mae perygl iddo fyned yn feichus ac yn anadeiladol. Gall gwasanaeth hir greu diflasdod o'r gwasanaeth, a pheri annhueddgarwch, ac hwyrach gasineb, tuag ato yn meddyliau aelodau ieuengaf ein teuluoedd, yr hyn fyddai yn ganlyniad athrist iawn.

Gofalus a meddylgar fel ag i sicrhâu *amrywiaeth yn y gwasanaeth.* Yr ydym yn hoff o amrywiaeth, yn enwedig y plant. Ni ddylem ddarllen yr un rhanau o'r Bibl yn fynych, na chwaith yr un fath ranau. Mae cyflawnder o amrywiaeth yn y Bibl. Trwy ddewis gwahanol ranau o'r Ysgrythyrau i'w darllen, bydd y dyddordeb yn fwy tebyg o gael ei gadw i fyny, bydd y teulu yn dyfod yn fwy hyddysg yn y gwirionedd, a bydd gwersi newyddion yn cael eu dwyn o flaen sylw y teulu. Dylem hefyd amcanu cael amrywiaeth yn ein hymadroddion wrth weddïo. Peidio defnyddio yr un brawddegau yn barhaus. Gydag ychydig o feddylgarwch gallwn ddwyn llawer iawn o amrywiaeth yn ein hymadroddion wrth weddïo, a thrwy hyny beri i'n gweddïau fod yn fwy ffres a gafaelgar yn y meddwl.

Gofalus a meddylgar, unwaith eto, mewn perthynas i'r *amser y cynnelir gwasanaeth addoliadol.* Da fyddai pe byddai genym oriau penodol i gadw y gwasanaeth; oriau gweddi. Os na allwn neilldio amser penodol at hyn, gofalwn gadw yr addoliad teuluaidd ar yr amser mwyaf manteisiol i'r teulu i *addoli.* Ni ddylai yr addoliad yn yr hwyr gael ei adael i amser diweddar iawn ar un cyfrif, pan y mae y teulu yn llawer mwy cymhwys i fyned i orphwys nag ydynt i addoli.

(3). *Dylai yr addoliad teuluaidd gael ei gadw yn rheolaidd.* Dylai hyn fod yn arferiad cyson. Pob aelod o'r teulu yn gwybod yn dda, o herwydd ein cysondeb yn nghyflawniad y gwasanaeth, pa beth bynag sydd i'w adael heibio, na ellir hebgor yr addoliad teuluaidd, na chaiff presennoldeb cyfeillion, na dim arall, beri i ni esgeuluso y ddyledswydd hon.

(4). *Manteision cyflawniad y ddyledswydd hon. Manteision personol.* Bydd i ben y teulu, arweinydd y gwasanaeth, fanteisio oddiwrth y ddyledswydd. Bydd yn sicr o fod yn foddion gras iddo, yn foddion i hyrwyddo ei lwyddiant ysbrydol. Gweithreda fel attalfa arno pan y mae yn agored i lithro. Pan yn cael ei demtio i siarad yn chwerw, neu i ymddwyn yn angharedig tuag at rai yn y teulu, bydd yr ystyriaeth eu bod yn fuan i gydgyfarfod wrth yr allor deuluaidd i gydaddoli Duw yn sicr o osod attalfa arno, ac yn sicr o effeithio yn dda ar ei ymddygiad yn gyffredinol.

Bydd yn sicr hefyd o fod yn symbyliad iddo i ymdrech cynnyddol i fyw i fyny i'w broffes. Trwy weinyddiad yr addoliad teuluaidd y mae yn ymddangos ger bron y teulu fel dyn duwiol, ac y mae yr ystyriaeth o hyn yn tueddu i'w gymhell i ymdrechiadau parhaol i *fyw* yn dduwiol—i ymarfer ei hun i dduwioldeb.

Manteision teuluaidd. Mae yr addoliad teuluaidd yn gwneyd yr awyrgylch deuluaidd yn awyrgylch iachus, yn foddion i gadw afiechyd ysbrydol yn y ffurfiau o ysbryd, ac ymadroddion, ac ymddygiadau anweddus, allan o'r teulu. Mae llawer iawn yn gallu olrhain eu hargraffiadau crefyddol cyntaf i'r gwasanaeth addoliadol oedd yn cael ei gynnal yn rheolaidd yn y teuluoedd y codwyd hwy ynddynt. Gall lliaws o rieni fendithio Duw am effeithiau bendigedig yr addoliad teuluaidd ar feddyliau eu plant. Cofgolofn ydyw yr allor deuluaidd o drugareddau Duw, arwydd weledig o'u hymlyniad wrth, a'u hymgysegriad i Dduw; tystiolaeth eglur mai eiddo yr Arglwydd ydym. Mae yr addoliad yma yn help rhyfeddol i gadw yn fyw ynom ni, a'n plant, deimlad dwfn o ddrwg pechod, o gariad Duw tuag atom, o werthfawrogrwydd Crist, ac o'n hanghen parhaus o faddeuant, heddwch, nerth ysbrydol, arweiniad a chysur. Anhawdd, feddyliwn, ydyw dychymygu golygfa fwy tlws na theulu wrth yr allor deuluaidd yn cydaddoli Duw. Amlhaed y cyfryw deuluoedd yn fawr iawn yn ein gwlad!

II. Prophwyd *y teulu.*

Mae y tad i fod, nid yn unig yn offeiriad, ond hefyd yn brophwyd i'w deulu, ac fel prophwyd y mae i gyfranu addysg grefyddol i'r teulu. Dy-

wedodd Duw am Abraham, "Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant ac i'w dylwyth ar ei ol gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn, fel y dygo yr Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano." "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi." Pan y mae plentyn yn cael ei eni i'r teulu, mae yr Arglwydd yn gorchymyn ei rieni i'w fagu iddo Ef. Os gwnawn ni ein dyledswydd, fe ofala Duw na chaiff ein gwaith ddim myned yn ofer.

Y mae y prenau sydd yn cyfoethogi ac yn prydferthu ein gerddi, a'n perllanoedd, a'n coedwigoedd, wedi eu magu yn ofalus iawn yn gyntaf yn ein planigfeydd. Oddieithr i'r planigion gael eu meithrin yn briodol yn y planigfeydd, ni fydd genym brenau hardd a ffrwythlawn yn ein gerddi a'n perllanoedd, na phrenau cryfion ac union yn ein coedwigoedd. Mae y dynion sydd wedi dyfod yn enwog mewn duwioldeb a defnyddioldeb wedi cael eu dwyn i fyny, fel rheol, yn ofalus gan eu rhieni. Gartref pan yn ieuanc y mae elfenau cymeriad dyfodol yn dechreu ymagor ac ymddadblygu. Dyma yr adeg i ofalu i osod i lawr sylfaen gadarn i adeiladu cymeriad da arni. Dyna yr adeg i faethu y plant a roddodd yr Arglwydd i ni yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a thrwy hyny roddi cyfeiriad priodol i'w bywyd yn y byd. Nwydau drwg, os gadewir hwynt yn anattaliedig, tyfant gyda thyfiant ein plant, a chryfhânt gyda eu cryfder hwynt. A'r un modd tymher hawddgar, addfwyn, serchog, dduwiolfrydig, tyf gyda thyfiant ein plant os meithrinir hi, a chryfhâ gyda eu cryfder hwynt. Trwy ddarparu ein hunain a'n plant ar gyfer y byd a ddaw, yr ydym yn eu darparu hwy a ninnau ar gyfer defnyddioldeb yn y byd hwn. A phan y bydd i'r planigion hyn, wedi eu magu a'u meithrin yn briodol, gael eu trawsblanu gan y Llafurwr Dwyfol i'r lleoedd y mae Efe wedi eu bwriadu iddynt, gallwn obeithio yn gryf y bydd iddynt dyfu yn brenau cyfiawnder, yn dwyn ffrwyth i Dduw, a chyfnewid i ryw raddau anialwch y byd yma yn ardd yr Arglwydd. Mae ein cartrefleoedd yn blanigfeydd. Gofalwn am y planigion!

III. Esiampl *i'r teulu.*

Nid oes dim yn fwy eglur na'r anghenrheidrwydd o roddi esiampl dda i'n plant o'r hyn y dymunem iddynt hwy fod, yn gystal a gorchymyn iddynt fod felly. Os ydym am i'n plant fod yn eirwir, gonest, caredig, haelionus, gweddigar, a duwiol, rhoddwn esiampl o hyny iddynt. Rhaid i ni, nid yn unig ddangos y ffordd dda iddynt, ond hefyd rhodio ynddi ein hunain—eu harwain hwy yn y ffordd. Dylem ymdrechu byw fel y byddai ein bywyd yn cydgordio â'n gweddiau a'n dysgeidiaeth. Os bydd i'n plant ein gweled yn byw yn anghyson â'n cynghorion a'n gweddiau, bydd ein haddoliad teuluaidd, a'r addysg a gyfranwn, yn debyg iawn o fod yn ddieffaith, yn anhyfryd, os nad yn wrthwynebus iddynt. Bydd perygl i'n hanghysondeb greu rhagfarn yn eu meddyliau at grefydd, a chaledu eu calonau. Dylem fod yn Fiblau byw yn ein teuluoedd, ein bywyd yn llefaru yn groew dros Grist. Anffyddiwr, wrth ganfod cyfnewidiad amlwg iawn yn ei gyfnither, a ofynodd iddi beth oedd wedi ei achosi. Dywedodd wrtho mai gras Duw oedd wedi ei gwneyd yn Gristion, ac wedi cyfnewid ei chalon. Ar y cyntaf nis gallai gredu fod dim a fynasai Duw â'r peth, ond teimlodd awydd i fyw fel yr oedd hi yn byw. Penderfynodd ddiwygio, ond yr oedd yn methu yn barhaus. Sylwodd yn graffus ar esiampl ei berthynas. Darllenodd y Bibl byw yma, a dywedodd wrtho ei hun—"Beth yw yr achos ei bod hi, sydd yn llai galluog, ac yn llai gwybodus na mi, yn gallu gwneyd yr hyn ni fedraf fi ei wneyd? Mae yn rhaid ei bod yn cael cymhorth nad wyf fi yn gwybod dim am dano. Mae yn rhaid fod y peth fel y mae hi wedi dyweyd, a'i bod yn cael help gan Dduw. Minnau a geisiaf ei gymhorth Ef." Aeth i'w ystafell, dechreuodd weddïo ar Dduw, a gwrandawyd ei weddi. Cafodd help gan Dduw, a daeth yn Gristion gwirioneddol. Dros bwy y mae ein *bywyd* yn llefaru? Ai dros Grist? Dysgwn yn gyntaf arfer duwioldeb gartref.

IV. Brenin *yn y teulu.*

Mae y tad yn frenin yn y teulu, ac fel brenin y mae i lywodraethu ei deulu yn dda. Mae llywodraeth i fod yn y teulu; rheolaeth priodol. Mae

y tad i lywodraethu nid yn ormesol a thrahaus, ond yn ddoeth, yn dirion a charedig; llywodraethu mewn cariad.

Gwnawn ein goreu i arfer ac i feithrin duwioldeb gartref. Bydded ein teuluoedd yn eglwysi bychain. Parhawn i weddïo gyda a thros ein teuluoedd. Eu haddysgu yn ngwirioneddau yr efengyl; rhoddi esiampl dda o'u blaen; a'u llywodraethu yn ofn Duw.

Ysbryd yr Arglwydd a wnelo deuluoedd ein gwlad yn deuluoedd duwiol; ac a'n dysgo yn barhaus i arfer duwioldeb gartref!

Y PRIF FFEITHIAU YN HANES CRIST.

Gan y Parch T. JAMES, M.A., *Llanelli.*

VII.—EI ADGYFODIAD.

RHAGFYNEGWYD adgyfodiad Crist yn gystal a'i farwolaeth yn mhrophwydoliaethau yr Hen Destament. Gwir nad oes genym lawer o gyfeiriadau uniongyrchol at ei adgyfodiad, dim tebyg ag a geir at ei farwolaeth, eto y mae genym ddigon i ddangos fod hyn i gymeryd lle, ac nad oedd saint y dyddiau gynt yn gwbl ddyeithr iddo. Wrth ddyfynu geiriau y Salmydd dywed Pedr: "Ac efe yn rhagweled, a lefarodd am adgyfodiad Crist, na adawyd ei enaid Ef yn uffern, ac nas gwelodd ei gnawd ef lygredigaeth." Cawn lawer o ymadroddion yn ysgrifeniadau y prophwydi a gyfeiriant at ei deyrnasiad llwyddiannus ar ol gorphen ei waith.

Wrth farw y gorphenai ei waith; ac os oedd i deyrnasu ar ol hyn, rhaid codi oddiwrth y meirw. Wedi codi y bydd yn alluog i lywodraethu ei bobl a gorchfygu eu gelynion. Llefara yr Iesu ei hun am ei adgyfodiad yn agos mor aml ag y cyfeiria at ei farw. Cysylltir y ddau â'u gilydd yn ei ddysgeidiaeth; dangosir fod y naill mor sicr a'r llall, a'r adgyfodiad o anghenrheidrwydd i ganlyn y marw. Ymgymerai â marw yn yr ymwybyddiaeth y buasai yn codi.

Wrth y ddau ddysgybl dywedai: 'Onid oedd raid i Grist ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?" Ni allasai fyned i mewn i'w ogoniant wrth aros yn marwolaeth; rhaid codi o farw. Diau y gallasai fyned i ogoniant heb ddyfod yn weledig i eraill ar ol codi o'r bedd. Ond nid yw ail uniad y corff a'r enaid yn bosibl, ond yn rhinwedd nerth anadl bywyd oddiwrth Dduw. Nid yn unig dywedir y byddai iddo godi, ond hefyd yr adeg y cymerai hyny le: "Mab y dyn a draddodir i ddwylaw yr henuriaid, a hwy a'i lladdant ef, a'r trydydd dydd efe a adgyfodir." "Dinystrwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi."

Nid oes dim mewn hanesiaeth y profir ei wirionedd gyda mwy o sicrwydd nag adgyfodiad yr Iesu. Gwelwyd ef lawer gwaith, mewn gwahanol amgylchiadau, gan rai oedd gwbl ad nabyddus o hono yn ei farwolaeth —rhai oeddynt argyhoeddedig mai efe ei hun ydoedd. Tystiai y rhai hyn drwy eu hoes i wirionedd ei adgyfodiad. Yr oedd hyn yn ffaith, neu yr oedd y dynion yma yn gau dystion o'r fath waethaf, yn "gau dystion i Dduw," gan yr honent fod Duw wedi gwneyd yr hyn ni wnaeth, os na chodwyd Crist oddiwrth y meirw. Yr oedd y dysgyblion y ffolaf yn gystal a'r gwaethaf o bawb dynion, os nad oedd yr Iesu yn fyw, canys ni ennillent ddim trwy eu honiadau; yn hytrach collent barch, anrhydedd, cysuron a hapusrwydd, ie, dyoddefent rwymau, carcharau, ac angeu, am hòni yr hyn a wyddent oedd anwiredd, os na chododd eu Hathraw. Prawf cryf o'u crediniaeth hwy yn ei adgyfodiad oedd y cyfnewidiad disymwth gymerodd le yn eu teimladau a'u hymddygiadau ar ol bore y trydydd dydd. Yn y cyfwng rhwng y croeshoeliad â'r adeg hon, cawn hwy yn llwfr a digalon, yn ofni ymddangos ymysg yr Iuddewon, ac yn barod i ddychwelyd at eu gorchwylion arferol mewn siomedigaeth, os nad mewn cywilydd. Eithr yn awr y maent yn hyf a gwrol, yn foddlawn dyoddef erlidiau ac angeu er mwyn ei enw Ef. Ni ellir cyfrif am y cyfnewidiad hwn ar wahan oddiwrth eu crediniaeth ddiysgog yn ei adgyfodiad ef: "Yr Arglwydd a gyfododd yn wir."

Gan y credwn fod ein darllenwyr yn derbyn tystiolaeth yr Ysgrythyrau am hyn, afreidiol yw ceisio ei brofi.

I. Edrychwn arno FEL PRAWF O WIRIONEDD HONIADAU YR IESU AM DANO EI HUN.

Dygai hyn berthynas neillduol â'r Arglwydd Iesu yn ei fywyd hanesyddol, er ei gyfiawnhau neu ei gondemnio. Os gau brophwyd, twyllwr, cablwr ydoedd, ac yn dyoddef marwolaeth yn herwydd ei dwyll, sicr yw na chodir ef o'r bedd hyd yr adgyfodiad cyffredinol, pryd y codir pawb wrth floedd yr archangel. Ni allai neb fywhau y marw ond Duw; ac os cyfodwyd Iesu o Nazareth yn ol tystiolaeth yr apostolion, ac yntau yn dwyllwr, rhaid fod Duw yn cymeradwyo twyll, yr hyn sydd anmhosibl. O'r tu arall, a derbyn yr adgyfodiad yn ffaith, yr hyn ni ellir peidio yn ngwyneb tystiolaethau mor eglur a phendant, yr ydym o dan anghenrheidrwydd i dderbyn yr oll a ddywedodd yr Iesu am dano ei hun yn ei wahanol gysylltiadau fel gwirionedd hollol. Cadarnheir y cwbl gan Dduw wrth ei gyfodi o feirw.

Cydnabyddai yr henuriaid bwysigrwydd yr adgyfodiad yn y cysylltiad hwn, pan yn rhoddi arian i'r milwyr am ddyweyd mai ei ddysgyblion a'i lladratasant pan oeddent hwy yn cysgu. Gwyddai pawb fod peth anarferol wedi cymeryd lle. Er yr holl drafferth yr aed iddo i ddiogelu corff yr Hwn a groeshoeliwyd mewn gwawd, yr oedd wedi dianc o'u dwylaw, a'r lle y dodasid ef yn wag. Rhaid egluro y dirgelwch i'r lliaws. Yn ol tystiolaeth yr henuriaid, dywedai ef ei hun, pan yn eu plith, y cyfodai mewn tridiau; ac ar foreu'r trydydd dydd, wele'r bedd yn wag, er gwyliadwriaeth fanwl y milwyr. Pwy all gyfrif am dano? Ai nid camsyniad wnaeth yr henuriaid pan yn ei osod i farwolaeth fel twyllwr? Ai nid Brenin Israel a laddwyd gan yr archoffeiriaid? Onid yw y ffaith fod y bedd yn wag, fel y dywedai, yn profi gwirionedd ei honiadau? Atebai y milwyr, 'Na, syrthiasom i drwmgwsg; ac yn yr adeg hono, lladratawyd y corff gan ei ddysgyblion.' Ffodus iawn iddynt ddygwydd dyfod, pan oedd y milwyr yn cysgu! Ac os cysgu, ni allent wybod mai ei ladrata a gafodd, ac mai y dysgyblion oedd y lladron.

Yn ol yr hanesydd ysbrydoledig, hysbysodd y milwyr i'r archoffeiriaid yr hyn oll a gymerodd le, yr holl ffeithiau cysylltiedig â'r amgylchiad—ymddangosiad yr angylion, y ddaeargryn, y braw a ddisgynodd arnynt; ni chadwyd dim yn guddiedig oddiwrth y swyddogion Iuddewig. Yn meddwl yr archoffeiriaid y tarddodd y syniad o ladrata y corff gan y dysgyblion, er mwyn dallu y werin a chyfiawnhau y croeshoeliad. Gwyddent y buasai crediniaeth yn ei adgyfodiad yn dwyn y bobl i'w dderbyn fel Brenin Israel—y Messïah addawedig; yr effeithiau arnynt i adgofio ei hòniadau, ei ddysgeidiaeth, ei weithredoedd a'i fywyd sanctaidd; ac wrth ddal y cyfryw yn ngwyneb ffaith yr adgyfodiad, cydnabyddid fod yr oll yn wirionedd, nad oedd y person yn neb llai na Christ Duw; ac felly byddai yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf. Gwel pawb cydnabyddus â hanes yr Iesu fod amgylchiadau y trydydd dydd yn penderfynu ei dynged, ac yn sicrhau ei le mewn hanesiaeth.

Apeliai efe ei hun at ei adgyfodiad fel prawf o'i Ddwyfol anfoniad; canys pan y gofynent arwydd ganddo, dywedai mai "arwydd y prophwyd Jonas" a roddid iddynt: "Fel y bu Jonas dridiau a theirnos yn mol y morfil, felly y bydd Mab y dyn yn nghalon y ddaear." Os na chyfodai o'r bedd yr adeg hono, profid mai twyllwr ydoedd, ac nid un wedi ei anfon gan Dduw yn oleuni i'r byd. O'r tu arall, yr oedd ei adgyfodiad y pryd hwn, fel y rhagfynegai, yn cadarnhau gwirionedd ei honiadau am dano ei hun.

Yn ngoleuni ffaith yr adgyfodiad dysgleiria cymeriad yr Iesu yn ogoneddus—ymddengys yn ei ddillad goreu. Eglura hyn wirioneddolrwydd y llef o'r nef yn y bedydd, cadarnhâ Ddwyfoldeb ei ymddangosiad ar Fynydd y Gweddnewidiad, gwiria ei honiadau o flaen Pilat a'r archoffeiriaid Iuddewig, prawf gywirdeb lleferydd y canwriad Rhufeinig wrth y groes, a thystiolaetha i wirfoddolrwydd ei farwolaeth rhwng y lladron. Synai y doctoriaid pan yn ddeuddeg oed; dyrysai yr ysgrifenyddion, y Phariseaid, a'r cyfreithwyr mewn undeb â'u gilydd; tafiai y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml â gair o'i enau; llywodraethai ddeddfau natur fel y gwelai yn dda; bwriai allan gythreuliaid, codai'r marw,

a heriai ei wrthwynebwyr i'w argyhoeddi o bechod. Gofynent, "Pwy yw hwn? Trwy ba awdurdod y gwna y pethau hyn? Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ac yntau heb ddysgu? Ai mwy wyt ti na'n tad Abraham? pwy wyt ti yn dy wneuthur dy hun?" Atebai, "Oddiwrth Dduw y deilliais ac y daethum I. Y Tad a'm hanfonodd I. Mab Duw ydwyf, yr hwn a sancteiddiodd y Tad ac a'i danfonodd i'r byd." Meddai'r henuriaid: "Nage, cablwr yw; trwy Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, y mae yn bwrw allan gythreuliaid; twyllo y bobl y mae, ac felly yn haeddu marw."

Bu farw yn wirioneddol, croeshoeliwyd ef ar y groes hyd nes yr ehedodd ei enaid allan o'r corff, rhoddodd i fyny yr ysbryd, a chladdwyd ef yn ddiogel mewn bedd. 'Dyna ddiwedd ar ei hanes! Yr archoffeiriaid sydd yn iawn, blaenoriaid y bobl oedd yn dyweyd y gwir, yr henuriaid oedd yn eu lle. Dylai farw am iddo wneuthur ei hun yn Fab Duw. Gan mai twyllwr ydyw, efe a erys yn y bedd; gan ei fod yn gwyrdroi y bobl ac yn hôni yr hyn na pherthyn iddo, cedwir ef yn ddiogel o fewn llywodraeth angeu!'

Ond os Mab Duw a Brenin Israel ydyw, daw i fyny o'r bedd "er gwaethaf maen a milwyr." Ni fydd yn bosibl ei gadw o fewn pyrth marwolaeth. Ewch at y bedd, gwrandewch eiriau'r angylion: "Nid yw efe yma, canys cyfododd megys y dywedodd." Gwelwyd ef yn fyw gan ei ddysgyblion ar wahanol amserau, gan fwy na phum' can' brodyr ar unwaith. Y mae ei gymeriad yn uniawn. Anfonedig y Tad ydyw. Dwyfol yw ei ddysgeidiaeth: "Mab Duw yn wir yw y dyn hwn."

II. SICRHA EI ADGYFODIAD DDERBYNIAD EI FARWOLAETH YN ABERTH DROS BECHOD.

Fel y sylwyd yn y bennod ddiweddaf, o herwydd pechod y daeth ef i'n byd ni. Tystiolaeth yr holl Ysgrythyrau yw ei fod yn marw dros bechod. Dyma yr ystyr a rydd efe ei hun i'w farw, ac â hyn y cytuna ei Apostolion. Ei neges oedd boddloni Duw ar ran dynion, rhoddi ei enaid yn aberth dros bechod, gwneyd heddwch rhwng daear a nefoedd trwy gyflwyno i Dduw yr hyn a ofynai oddiwrth ddyn, er codi dyn i ffafr Duw.

Ffaith a gydnabyddir yn gyffredinol yw pellder dyn oddiwrth Dduw, ei annhebygolrwydd iddo, ynghyd a'i analluogrwydd i edrych yn ei wyneb mewn cyfiawnder. Er fod tueddfryd dyfnaf yr enaid tuag ato, teimla anmhosiblrwydd i sefyll ger ei fron; gorfodir ef i gadw ymhell, ymguddio o'i wŷdd o herwydd ei anfoddlonrwydd am bechod. Y mae yn ymwybodol o anallu i agosâu, ac eto dymuniad i wneyd; awydd am gyfanu y rhwyg: ac oddiar y dymuniad hwn y cyfododd y ddefod o aberthu. Eglurhâd yw offrwm ac aberth ar deimlad mewnol dynolryw wrth wasanaethu eu duwiau.

Yn ngoruchwyliaeth Moses gwelir hyn yn amlwg; ac yno daw yr egwyddor ddirprwyol i'r golwg—yr aberth yn cynnrychioli yr aberthwr, a marwolaeth y cyntaf yn dangos yr hyn a haeddai yr olaf. Offrymiad yr aberth oedd foddion cymmod a chymundeb rhwng yr aberthwr â Duw. Gwneid hyn yn aml, gan fod yr holl aberthau, o ba natur bynag y byddent, yn aneffeithiol i ddwyn oddiamgylch gymmod gwirioneddol—y pellder yn aros yr un fath. Ac nid oedd yr oll o drefniadau Moses ond cysgodol ac arwyddluniol, yn cyfeirio at Un oedd i sylweddoli y cyfan yn ei berson ei hun.

Dywed Iesu o Nazareth mai efe yw yr un hwnw, yr hwn y tystiolaethai Moses a'r prophwydi am dano; yr un oedd yn dyfod "i ddybenu camwedd, i selio pechodau ac i wneuthur cymmod dros anwiredd." Dywedai y Bedyddiwr mai yr Iesu oedd "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." I bob meddwl diragfarn ymddangosai hyn yn wirioneedd, oblegid yr oedd mor wahanol i bawb fu yn y byd erioed. Prawf ei enedigaeth oruwchnaturiol ei annhebygolrwydd i eraill, ac amcan neilltuol i'w ymddangosiad yn y byd. Yr oedd ei ewyllys yn gwbl ddarostyngedig i ewyllys Duw, a'i fywyd yn hollol sanctaidd a dwyfol; amlygai Duw yn fynych ei foddlonrwydd ynddo fel ei Fab ei hun; ac yn y diwedd wele yr Un sanctaidd hwn yn rhoddi ei hun yn wirfoddol i farwolaeth. Gan mai Mab y dyn ydoedd—dyn cyffredinol, yr oedd y cwbl a wnaeth âg amcan cyffredinol iddo.

Bu farw fel eraill; cyfarfu â thyng-

ed holl ddynolryw. Claddwyd ef mewn bedd, a gwnaed hwnw mor ddiogel ag oedd bosibl. Os yn y bedd yr erys, dyna ddiwedd ar ei berthynas gyffredinol â'r byd a phrawf nad oedd ei farw yn aberth dros bechod. Tra byddo y Meichiau mewn carchar, profir fod y ddyled heb ei thalu, gan fod y gofynion yn ei gadw mewn dalfa. Mae yr hwn a alwai Duw yn "Anwyl Fab" yn gorwedd yn farw mewn bedd, ac felly gwaredigaeth y byd yn aneffeithiol.

Parodd ei farw siomedigaeth i'w ganlynwyr, canys yr oeddynt wedi credu ynddo fel y Messïah addawedig, ei fod wedi dyfod i geisio a chadw defaid cyfrgolledig tŷ Israel. Ymgysegrai i wasanaethu eraill, i wneyd daioni i bawb; cydymdeimlai, cynnorthwyai, gweddïai; anghofiai ei hun yn ei ofal am y tlawd, y trallodedig a'r helbulus. Diau mai hwn yw Iachawdwr y byd!

Ond er yr holl ddysgwyliadau uchel hyn, llabyddiwyd ef gan yr henuriaid, bu farw yn warthus ar y groes, a chladdwyd ef yn medd Joseph; ac os yno y mae eto, nid efe oedd y Messïah. Marw o'i achos ei hun a wnaeth, ac nid yn lle eraill.

Os erys yn y bedd i weled llygredigaeth, os malurir ei gorff yn y pridd, profir ei fod yn rhy dlawd i dalu dyled dynolryw, yn rhy wan i ddyoddef pwys euogrwydd y byd. Methodd o dan y baich, bu farw o wendid, a ehedwir ef yn garcharor hyd oni thelir y ffyrling eithaf. Beth ddywed yr angel? "Nid yw efe yma, canys cyfododd megys y dywedodd." Dywedai Petr: 'Eithaf gwir; myfi a'i gwelais â'm dau lygad—y mae yn fyw! Duw a'i cyfododd ef oddiwrth y meirw, yn brawf o dderbyniad ei aberth yn iawn dros bechod.' Mae'r ddyled wedi ei thalu, a'r Gofynwr yn berffaith foddlawn; oblegid gollyngwyd y Meichiau yn rhydd, tafliwyd drysau y carchar yn agored, a gwaeddwyd: "Gollwng ef yn rhydd, mi a gefais iawn." Hawlia cyfiawnder ei ollyngdod, gan iddo roddi boddlonrwydd i'r Brenin ar ran y dyledwyr a chyfarfod â'r holl ofynion. "Unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd Efe, i ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun." "Ag un aberth y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio," fel nad oes eisieu aberth arall. Mae y ffaith fod yr Iesu yn fyw yn profi fod ei farw yn iawn digonol i Dduw ar ran pechaduriaid, a bod y ffordd yn rhydd i agoshau ato yn hyderus: "Buddiol yw i ŵn dyn farw dros y bobl" fel na ddyfethid holl ddynolryw; ac mor fuddiol â hyny, ïe, mor anghenrheidiol, yw iddo fyw drachefn, ac ymddangos yn fyw, er argyhoeddi y byd fod Duw yn cymeradwyo ei farwolaeth, ac yn ei dderbyn fel boddlonrwydd ar ran eraill.

Tra yr arosodd yn y bedd afionyddai a chynhyrfai y greadigaeth, chwalai'r creigiau, rhwygai'r beddau, ac yn y diwedd bu daeargryn mawr, nes yr ysgydwyd ef allan o'i chalon yn gynnrychiolydd byw, yn Fachnïydd rhydd, a gollyngdod yn ei law i bechaduriaid euog.

Fel y dywedasom, o herwydd pechod y ddaeth yr Iesu i'r byd—i ddileu pechod; i ddattod gweithredoedd y diafol. Prif rwystr gwaredigaeth dynolryw oedd pechod a Satan. Diafol oedd tywysog awyr foesol y greadigaeth; wedi buddugoliaethu ar ddyn, penderfynai gadw meddiant ynddo, ei ddefnyddio yn gaethwas iddo ei hun. Daeth yr Iesu i'r byd i frwydro â'r gelyn, i ymladd âg ef am y llywodraeth, a chael dyn yn eiddo iddo ei hun. Dechreuwyd yr ymdrech yn niffaethwch Judea, lle y trodd y frwydr yn ffafriol i'r Iesu. Gadawodd y diafol ef dros amser, eithr i ddychwelyd ar ol adnewyddu ei nerth.

Cymerodd y Gorchfygwr fantais ar yr oruchafiaeth gyntaf; a heriai y gelyn i'w argyhoeddi o ddiffyg a gwendid, ac atebid ef yn ddychrynedig gan gythreuliaid: "Ni a'th adwaenom pwy ydwyt, Sanct Duw!" Gwylltiai y penaeth wrth glywed tystiolaethau fel hyn am dano, a gweled y bobl yn tyru o'i amgylch; penderfynodd wneyd un ymosodiad grymus arno er gosod terfyn ar ei ddylanwad. Temtiodd y bradwr i'w werthu am arian; eithr yn union deg dychwelwyd yr arian gan waeddi, "Gwaed gwirion ydyw—un diniwed!" Llwyddwyd gan Pilat i'w gondemnio, eithr ar yr un pryd dywedai: "Nid wyf fi yn cael dim bai yn y dyn hwn." Ammheus yw y frwydr hyd yma; anhawdd gwybod y modd y try allan. Eithr ni fydd

uffern yn dawel hyd nes iddo farw. Anhawdd gwybod beth gymerodd le o'r llys i Golgotha. Gwelir rhai yn wylo mewn cydymdeimlad â'r Iesu, eraill yn cablu mewn gelyniaeth; rhai yn gweddïo, eraill yn gwatwar. Dichon y llwydda ei gyfeillion i'w waredu, ac felly gosodir pen ar lywodraeth Satan. Ymgynhyrfai uffern, a llenwid y lle âg anesmwythder tra yr arosai yr Iesu yn hoeliedig ar y groes, rhag iddo ddisgyn a chymeryd meddiant o'r llywodraeth. "Cyflog pechod yw marwolaeth;" ac os dygir ef o dan awdurdod angeu, Satan fydd y buddugoliaethwr—pechod fydd wedi ennill y dydd, a byddai ei orsedd yn ddiogel. "A'r Iesu, wedi llefain â llef uchel, a ymadawodd â'r ysbryd;" ac er cael sicrwydd o'i farw, trywanwyd ei ystlys â gwaewffon, a "daeth allan waed a dwfr." Colynwyd ef i farwolaeth gan yr hen sarph; darostyngwyd ei nerth ar y ffordd; disgynodd i lwch angeu; profodd y gelyn yn orchfygwr, a cha' lonydd i fwynhau ei fuddugoliaeth. Y mae condemniwr pechod yn dyoddef cosbedigaeth pechod; yr hwn a ddaeth i ddinystrio marwolaeth wedi marw ei hun—yn dawel yn y dystaw fedd!

Peidiwch rhoddi barn fyrbwyll; aroswch ddeuddydd mewn dystawrwydd. Ewch i ymyl y bedd foreu'r trydydd dydd; gosodwch eich clust wrth y ddaear i glywed trwst anarferol o amgylch y lle; ymddettyd o rwymau angeu, ymryddhâ o lyffetheiriau marwolaeth; "nid yw yn bosibl ei attal ef" gan frenin y dychryniadau; ni ellir ei gadw o fewn terfynau marwolaeth. Perthyn iddo nerth bywyd annherfynol, ac yn amlder ei rym rhwyga ymherodraeth angeu, buddugoliaetha ar elyn y ddynoliaeth, a daw i fyny yn fwy nerthol nag erioed: "Trwy farwolaeth yn dinystrio yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol."

"Nis gall'sai un creadur
Mewn cadwen gadw 'm Duw."

"Diddymodd angeu, a dygodd fywyd ac anllygredigaeth i oleuni." "Mae yr Iesu yn fyw, adnabuais i dôn ei lais," meddai Mair; "Bum I yn ymddyddan âg ef," medd Petr; "Gwelais innau ôl yr hoelion," meddai Thomas; —"y mae yn fyw!" Prawf hyn wirionedd ei honiadau, ei fuddugoliaeth ar bechod a Satan, ynghyd a derbyniad ei farwolaeth yn aberth dros bechod.

Eglurhâdaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af, 1888, i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

Y DOSBARTH CANOL.

SABBOTH, GORPHENAF 7FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* TACHWEDD 25AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

ADN. 33: *Yr Iesu gan hyny, pan welodd hi yn wylo, a'r Iuddewon y rhai a ddaethai gyda hi yn wylo, a riddfanodd yn yr ysbryd.* Ni roddes yr Iesu un gair o atebiad i eiriau Mair, adn. 32. Yr oedd galar naturiol wedi cyrhaedd ei eithaf yn Mair, ac yn galw am weithredoedd yn hytrach na geiriau. "Pan welodd *hi* yn wylo"—sef Mair. Yr oedd teimladau Mair yn ddrylliog, yn angerddol. Ni fuasai o un dyben ymresymu â hi yn awr. Cymeriadau prydferth oedd y ddwy chwaer, ond gwahanol. Gellid meddwl mai natur Mair oedd y fwyaf fenywaidd. Y mae Martha yn fwy hunan-feddiannol. Y mae hi yn dawel, yn ymddiried rywfodd yn yr addewid o adferiad, er nad oedd yn ei deall. *A riddfanodd yn yr ysbryd.* Y mae gwahanol olygiadau ar y "griddfan" hwn. A yw yn golygu galar ynte digofaint? Golyga ddigofaint yn y tri lle arall lle y dygwydd y gair yn y Testament Newydd, Mat. ix. 30; Marc i. 43; xiv. 5. Ac felly yma, medd rhai o'r prif esbonwyr. Paham yr oedd yn ddig? Wrth weled wylo rhagrithiol yr Iuddewon, medd rhai—y dynion a dröent yn fuan yn fradychwyr. Neu, yn fwy tebyg, wrth weled goruchafiaeth pechod ar y pryd, a marwolaeth, a'r diafol. Dywed Lange fod y gair yn cyfuno teimladau mwyaf amrywiol yr enaid, megys mewn "dwyfol dymhestl o daranau yr ysbryd." *Yn yr ysbryd*—yn nyfnderoedd ei hunan-ymwybyddiaeth moesol, medd Meyer.

Ac a gynhyrfwyd. Y mae y ffurf sydd ar y geiriau hyn yn dangos na ddylid eu cyfieithu yn yr ystyr oddefol, fel y gwneir yma. Golygant "a ymgynhyrfodd," neu a "gynhyrfodd ei hunan." Golyga, medd Meyer, ac eraill—crynfa neu ysgydwad, amlygiad allanol cryf o'r teimlad mewnol.

Sylwa Westcott nad oedd ein Harglwydd yn cyflawni ei wyrthiau â gair ei nerth yn unig, ond fod yr elfen o gydymdeimlad mewn rhyw fodd dirgeledig yn myned i mewn iddynt. Cymerai ymaith ddyoddefiadau a chlefydau dynion trwy eu cymeryd mewn rhyw fodd arno ei hunan: "Diau *efe a gymerodd* ein gwendid ni," &c., Mat. viii. 17. A dywedir y gwyddai "fyned rhinwedd allan o hono," Luc viii. 46.

Adn. 34: *Ac a ddywedodd, Pa le y dodasoch chwi ef?* Y mae y cwestiwn hwn yn un hynod, am ei fod yr unig le yn yr Efengyl lle y mae yr Iesu yn siarad fel yn ceisio hysbysrwydd. Ceir awgrym cyffelyb yn adn. 17: "a'i *cafodd.*" Arwynebol iawn yw dyweyd y *gwyddai* yr hyn yr oedd yn ei ofyn, ac mai cymeryd arno fod heb wybod yr ydoedd; neu ddyweyd, yn yr hen ddull, y gwyddai fel Duw, ac na wyddai fel dyn—ac felly rhanu y Person yn ddau. Nid yw y Bibl yn rhoddi sail i'r naill na'r llall. Beth bynag a wnelai, yr oedd yn *wirioneddol;* ac *un Person* oedd yn gwneyd y cwbl, nid dau, ac nid rhan o hono. Rhaid cofio y gwirionedd pwysig—mai rhan fawr o ymddarostyngiad Mab Duw oedd fod gweithrediad y perffeithiau Dwyfol, yn gystal a'r amlygiad o honynt, yn cael ei attal—ond ar achlysuron neilldiol, ac i ddybenion mawr ei anfoniad. A thrwy attal y gweithrediad yr oedd attal yr amlygiad. Dyma oedd un o demtasiynau y diafol—ceisio ganddo dori deddf yr ymddarostyngiad, trwy ddefnyddio ei hollalluawgrwydd i dori ei newyn. Na: "Efe a'i *gwaghaodd* ei hun." Yr ydoedd wedi profi gweithrediad grymus digofaint sanctaidd, ac yn awr, heb oedi, y mae yn casglu ei hun i waith. Gofyna yr hyn yr oedd yn anghenrheidiol iddo ei wybod yn gyntaf oll. *Hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, tyred a gwel.* "Hwy"—Mair a Martha, dybygid; iddynt hwy, gellid meddwl, y cyfeiriwyd y cwestiwn. Adsain hynod o i. 46. Dat. vi. 1, 5, 7.

Adn. 35: *Yr Iesu a wylodd.* Dyma yr unig le yr arferir y gair *δακρύειν* yn y Testament Newydd — *dacruein.* Mor debyg i'r gair Cymraeg *dagrau!* Yr ystyr yw—"a ymddeicrodd"—"a dywalltodd ddagrau;" wylo dystaw, ar y ffordd at y bedd, gyda'r rhai oedd yn wylo. Nid wylofain uchel, angerddol. Gair arall sydd am hwnw—*κλαίειν*; dyma y gair sydd am wylo dros Jerusalem, Luc xix. 41. Marw cenedl, eglwys, oedd yno; ond yma cyfaill. Dywed un o'r prif ymosodwyr ar wirionedd yr Efengylau (Baur) nas gallasai dagrau ar ol dyn marw, gan un yn myned at ei fedd ac yn gwybod yn sicr y byddai yn fuan wedi ei adgyfodi, fod yn ddagrau o deimlad dynol, gwirioneddol. Nid ydym yn cofio i ni erioed weled sylw mwy arwynebol, mwy annghywir i natur. Yr hyn a ddygai efe yn eu herbyn—dyna yn hollol a'u gwnelai mor ddynol, mor wirioneddol. Nid yw *teimlad* gwirioneddol yn myned i ymresymu, nac yn edrych ymlaen. Yn y presennol y mae yn byw. Yr oedd ei gyfaill anwyl yn gorwedd yn farw, yr oedd y chwiorydd, anwyl gan y marw a chanddo yntau, yn wylo: mor syml, mor naturiol, er mor ryfedd, yw y geiriau sydd yn canlyn—

"A'r *Iesu* a wylodd!"

Dyma ddagrau o gydymdeimlad dynol pur, gwirioneddol. Crybwylla Ioan amryw o nodau gwir a pherffaith ddynoliaeth y Gwaredwr: syched, iv. 7; xix. 28; blinder, iv. 6; cariad, neu hoffder cyfaill at gyfaill, xx. 2, &c.

Adn. 36, 37. Yn y ddwy adnod hyn, gwelir dau fath o deimlad ymysg yr Iuddewon. Dywedai y rhai a dueddent i fod yn ffafriol i'r Iesu, "Wele, fel yr oedd yn ei garu ef!" 'Rhaid ei fod yn ei garu yn fawr pan oedd yn fyw, gan ei fod yn wylo fel hyn am ei farw?' Ond troai y dosbarth maleisus ei ddagrau yn brawf, nid o'i gariad yn unig, ond hefyd o'i *anallu* i'w adferu o'i glefyd. 'Os gallodd iachâu y dall, paham nad allasai iachâu hwn hefyd?' Taflent ammheuaeth dystaw ar wirionedd y wyrth o adferu y dall. Tybient iddo glywed am ei glefyd yn brydlon, a'i fod wedi oedi dyfod i Bethania am nas gallai ei iachâu. Yr un pryd, gallasai y cwestiwn fod wedi ei ofyn yn gywir, mewn anwybodaeth.

Adn. 38: *Yna yr Iesu drachefn a riddfanodd ynddo ei hunan.* Ymdrechfa fewnol eto, yn cael ei hachosi gan y ddwy olygfa oedd o'i flaen, o alar ar un llaw, ac anghrediniaeth ar y llaw arall; a chan ei olwg ghr ar sylweddau marwolaeth. Yr oedd yma lai o ddangosiad allanol o'i deimladau na'r tro o'r blaen. *Ac ogof oedd, a maen oedd wedi ei ddodi arno.* Yr oedd y beddau o ddau fath: rhai yn ogofau yn rhedeg *twag i lawr*, a grisiau i ddisgyn; yr oedd careg *ar* yr agorfa i'r rhai hyn. Y lleill oeddynt ogofau yn *rhedeg i mewn* i'r graig (fel y *level* yn y chwarel); yr oedd y maen yn cael ei

osod yn erbyn yr agorfa i'r rhai hyn, fel drws. Gallai y geiriau "wedi ei ddodi *arno*" awgrymu y math cyntaf; ond, fel y sylwa Meyer, gall y geiriau olygu yr ystyr arall hefyd, "wedi ei ddodi wrtho, ar ei gyfer." Nis gellir penderfynu. Awgryma y desgrifiad o'r bedd fod Lazarus a'i chwïorydd mewn amgylchiadau cysurus.

Adn. 39: Yr oedd Mair yn ddystaw, ar ol dadgan ei gobaith olaf (adn. 32). Yn wyneb gorchymyn Crist i godi ymaith y maen, dychrynai calon dyner a lleddnais y *chwaer* ("Martha, *chwaer* yr hwn a fuasai farw") rhag fod corff ei hanwyl frawd yn myned i gael ei ddadguddio i ŵydd y dyrfa, pan yr oedd goruchwyliaeth llygredigaeth wedi dechreu arno. Yn ol y traddodiad Iuddewig, ar y trydydd dydd yr oedd galar yn cyrhaedd ei fan uchaf. Crwydrai yr ysbryd o gylch y bedd am dri diwrnod, yn y gobaith o gael dychwelyd i'r corff. Ond ar ol gweled ffurf neu wedd y wynebpryd wedi ei newid (ar y pedwerydd dydd) y mae yn ymadael. Credent fod y cyfnewidiad hwn yn y wynebpryd yn cymeryd lle ar ol tri diwrnod.

Adn. 40: Cerydd tyner, yn cyfeirio at yr addewid yn adn. 23, &c. Yr oedd y "gogoniant" yn adn. 4 i'w amlygu yn awr trwy yr "adgyfodiad" a addawsid, adn. 23. Etyb Crist awgrymiad Martha o *lygredigaeth* trwy y gair *gogoniant*.

Adn. 41, 42. Yr oedd y weddi wedi ei gweddïo o'r blaen, ac yr oedd ein Hiachawdwr wedi cael sicrwydd o atebiad, adn. 4. Diolch y mae yn awr, nid gofyn. Ac yr oedd hyn yn gyhoeddiad o'i gymundeb â Duw, ac felly yn brawf o'i ddwyfol anfoniad: "er mwyn y bobl," &c. Yr oedd ewyllys y Mab yn berffaith un â'r eiddo y Tad—yr oedd yma gydymdeimlad perffaith mewn meddwl a gweithred; am hyny y "gwyddai fod y Tad yn ei wrando bob amser." Y mae gweddi y dyn duwiol yn agoshau fwy fwy at hyn: nid gosod ei ewyllys ei hunan i fyny, ond cymeryd iddo ei hunan yr ewyllys ddwyfol, yr hon sydd yn cyfateb i'w ddaioni penaf.

Adn. 43: *Lazarus, tyred allan.* "Llefain â llef uchel" oedd y cyfrwng trwy yr hwn y parai i'w allu gwyrthiol weithredu. "Tyred allan"—gorchymyn yn golygu awdurdod ar angeu. Yr oedd yn ffurf fwy naturiol i alw un oedd yn y bedd, na "Ôyfod" fel gyda merch Jairus, a mab y weddw o Nain.

Adn. 44. Ni raid dyfalu pa fodd y daeth allan. Gallasai yr aelodau fod wedi eu rhwymo ar wahân, yn ol y dull Aiphtaidd. "Gollyngwch ef yn rhydd, a gadewch iddo fyned ymaith:" yr oedd y peth mawr wedi ei wneyd, ac yr oedd pob cynhyrfiad pellach i'w ochelyd.

Adn. 45, 46. Effeithiodd y wyrth ar yr Iuddewon mewn dwy ffordd. Credodd rhai, adn. 45; aeth y lleill i achwyn wrth yr awdurdodau, neu o leiaf i'w hysbysu. Nis gellir bod yn sier gyda pha ddyben. Gallai mai mewn dyryswch. Sylwa Westcott nad oes yma un arwydd o falais (os nad yw adn. 37) nac ychwaith o ffydd. Diffyg cydymdeimlad, meddai, a wnaeth y cenadon hyn yn offerynau i ddwyn y diwedd oddiamgylch.

Adn. 47—53. *Penderfyniad y Sanhedrin.* Gwelai yr archoffeiriaid nas gallasai y fath weithred a hon lai na chreu cynhwrf mawr, ac argyfwng pwysig, yn mysg y bobl, yn yr ŵyl oedd gerllaw. Am hyny, y maent yn "casglu cynghor," yn galw cyfarfod o'r Sanhedrin. Sylwa Westcott mai ychydig iawn o grybwylliad sydd am y Phariseaid yn yr Efengylau yn erlid Crist, nac yn llyfr yr Actau yn erlid y Cristionogion. Yr archoffeiriaid a'r Saduceaid, y rhai oeddent o'r un blaid, oeddynt elynion marwol yr Iesu. "Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur?" adn. 47. 'Beth yw y cwrs yr ydym ni yn ei gymeryd? Rhaid gweithredu yn benderfynol a dioed.' "Canys y mae y dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion:" nid ydynt yn sylwi dim ar ei wyrthiau fel yr oeddynt yn brawf o'i ddwyfol anfoniad, ond yn unig fel yr oeddynt yn debyg o effeithio ar eu safle a'u dylanwad hwy. Ofnent yr äi y bobl ar ei ol, ac yna y cymerai y Rhufeiniaid eu gallu oddiarnynt am eu bod yn analluog i roddi i lawr gynhyrfiadau gwrthryfelgar: adn. 48. Dywedodd Caiaphas wrthynt nad oeddynt yn deall un o reolau symlaf gwladlywiaeth—gwneyd un yn aberth er arbed lluaws. Dywedodd eiriau a gynnwysent hanfod yr Efengyl—"un yn marw dros bawb"—ond yn anfwriadol ac anymwybodol. Trwy yr archoffeiriad yr amlygid meddwl Duw ar gwestiynau ammheus, Num. xxvii. 21. Yr oedd y gwir offeiriad yn brophwyd. Yma, mynegai Caiaphas ddyben a chanlyniadau marwolaeth y Gwaredwr, heb yn wybod iddo ei hun; ac mewn ystyr hollol groes i'r hyn a dybiai efe. Cytunent â dyfarniad yr archoffeiriad: ac yna cynllunient pa fodd i ddal yr Iesu. Ymneilldnodd yntau a'i ddysgyblion i'r wlad, i'r gogledd-orllewin o Jerusalem. Ymholent (adn. 56) o gywreinrwydd, heb gariad na chas, gellid meddwl, "paham na ddaethai efe i'r ŵyl?" Anfonwyd ymofyniad cyhoeddus allan am hysbysrwydd am dano, "fel y gallent ei ddal ef:" adn. 57.

Ni adroddir hon, y fwyaf rhyfeddol

mewn un ystyr o'r gwyrthiau, gan y tri Efengylwr cyntaf. Y rheswm oedd, medd Meyer, am nad oedd y cyfwng hwn, arosiad yr Iesu yn Bethania, a'i ymneillduad i Ephraim, yn dyfod o fewn cylch eu hanes. Elai eu hanes hwy ymlaen o Jericho ar unwaith i Jerusalem. Rheswm a roddir gan rai yw, am fod Lazarus yn fyw yn adeg cyhoeddiad y tair Efengyl cyntaf.

Yn y wyrth hon y cyrhaeddodd gallu gwyrthiol yr Iesu ei uchafbwynt. Cyfaddefodd Spinoza, pe gallasai efe berswadio ei hun o wirionedd hanes adgyfodiad Lazarus, y buasai efe yn tori ei holl gyfundraeth yn ddarnau, ac yn derbyn Cristionogaeth yn y fan.

SABBOTH, GORPHENAF 14EG—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 2IL *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

Rhoddi golwg i ddau ddyn dall yn agos i Jericho.

ADN. 29: *Ac a hwy yn myned allan o Jericho.* Fel y sylwyd o'r blaen, cysyllta y tri Efengylwr cyntaf y mynediad o Jericho â'r mynediad buddugol i Jerusalem, gan adael y cyfwng yn yr hanes o fewn yr hwn y cymerodd adgyfodiad Lazarus le. Adrodda Luc yr arosiad yn Jericho, a mynediad Crist i dŷ Zaccheus, xix. 1, a dammeg y punnoedd. Ystyr *Jericho* medd rhai, yw "y ddinas beraroglaidd," ac eraill "ddinas y lleuad." Safai yn agos i'r Iorddonen, tua thaith dwy awr o Jerusalem, ac anialwch rhyngddynt, yn llwyth Benjamin, ar derfynau Ephraim. Yr ydoedd yn llanerch ffrwythlawn, ddyfradwy, yn nghanol anialwch diffrwyth, tywodlyd.

ADN. 30: *Ac wele, dau ddeillion yn eistedd ar fin y ffordd.* Dyma un o brif annghysonderau ymddangosiadol yr Efengylau. Yn ol Matthew, iachaodd yr Iesu ddau ddyn dall wrth fyned allan o'r ddinas; yn ol Marc, un dall wrth fyned allan; yn ol Luc, un dall wrth fyned i mewn i'r ddinas. Tybiai yr hen Gysonwyr fod yma ddwy wyrth—fod un dall wedi ei iachâu ar ddyfodiad Crist i'r ddinas, a dau ar ei fynediad allan; a bod Marc wedi rhoddi arbenigrwydd i Bartimeus, fel y mwyaf adnabyddus o'r ddau. Tybia Ebrard ac eraill fod Matthew wedi uno adroddiad Marc a Luc, a'u rhoddi yn yr ymadawiad o'r ddinas. Awgryma Lange yr eglurhâd a ganlyn. Nid trwy borth yr Iorddonen yr aethai Crist i mewn i Jericho, ond o Ephraim; tybir iddo ymadael trwy yr un porth. Llefodd y dall ar yr Iesu, ond attaliwyd ef; llefodd yn fwy, ac yna iachaodd yr Iesu ef. Ond gallai fod y Gwaredwr wedi ei gadw i ddysgwyl hyd ei ddychweliad, er mwyn ei brofi; a bod un o'r Efengylwyr yn cysylltu yr amgylchiad â'i ddyfodiad i'r dref, a'r llall â'i fynediad allan. Ac nid yw yn anhawdd tybied y gallasai un dall arall fod wedi ymuno âg ef yn y cyfamser; a bod y ddau yn cefnogi eu gilydd yn y "llefain fwy-fwy."

ADN. 31: *A'r dyrfa a'u ceryddodd hwynt, fel y tawent.* Sylwa rhai esbonwyr fod y nodiad hwn yn dwyn delw gwirionedd, ac nad allasai gael ei ddyfeisio. Teimlad gorymdaith fawr yr ŵyl, yn ystyried gwaeddi y deillion truenus yma, ar y fath adeg, yn tori ar y llawenydd mewn modd annymunol; fel y buasai gwŷr y llys yn gwneyd pe buasai rhywun yn taflu elfen annghydnaws i mewn i wledd freninol. *Hwythau a lefasant fwy-fwy.* Dyma wir ysbryd ffydd, a'r ysbryd sydd yn sicrhau llwyddiant o bob math—rhwystrau, yn lle digaloni, yn symbylu i ymdrechion mwy. *Arglwydd, fab Dafydd.* Dyma ddangos fod argyfwng mawr bywyd yr Iesu wedi dyfod. Y mae yn awr yn goddef iddynt apêlio ato yn gyhoeddus fel y Messïah, yn ngwydd yr holl bobl, y hyn ni wnaethai erioed o'r blaen: cymh. pen. ix. 27.

SABBOTH, GORPHENAF 21AIN—*(Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 2IL *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

ADN. 32: *A'r Iesu a safodd, ac a'u galwodd hwynt, ac a ddywedodd, Pa beth a ewyllysiwch ei wneuthur o honof i chwi?* Newidiodd hyn dôn y bobl: dywedent yn awr, yn ol Marc, "Cymer galon, cyfod; y mae efe yn dy alw di." Y mae Efe, yn nghanol trwst yr orymdaith, yn clywed yn y fan waedd y truan am drugaredd. Fel y sylwyd yn fynych, safodd haul a lleuad "wrth lef dyn" gynt; ond wele yma eu Creawdwr yn sefyll wrth lef y trueiniaid hyn.

ADN. 33: *Dywedasant wrtho, Arglwydd, agoryd ein llygaid ni.* Y deisyfiad cyffredinol "trugarhâ wrthym," yn cael ei agor i'r cais neillduol.

ADN. 34: *A'r Iesu a dosturiodd wrthynt, ac a gyffyrddodd â'u llygaid.* Gwahaniaethir yma oddiwrth Marc a Luc, y rhai na chrybwyllant ond am *air* yn unig. Hwy a'u *canlynasant ef.* Tebygol iddynt ddyfod yn ganlynwyr parhaus iddo o hyn allan, Marc x. 52.

SABBOTH, GORPHENAF 28AIN—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 9FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

Melldithio y Ffigysbren Ddiffrwyth.

ADN. 17: *Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth allan o'r ddinas i Bethania, ac a lettŷodd yno.* Tua dwy filldir o Jerusalem, hoff gyrchfan yr Iesu i lettŷa.

ADN. 18: *A'r bore, fel yr oedd efe yn dychwelyd i'r ddinas, yr oedd arno chwant bwyd.* Boreu Llun oedd hyn, medd Lange. Nid oedd wedi bod yn treulio y nos allan y tro hwn,—"efe a lettŷodd yno." Ond, cymaint oedd ei awyddfryd am fyned i'r deml, fel yr aeth allan i'w daith i Jerusalem cyn boreufwyd.

ADN. 19: *A phan welodd efe ffigysbren ar y ffordd, efe a ddaeth ato.* Am fod yma gyflawnder o ddail, dysgwyliai yr Iesu ffrwyth; canys ymddangosai ffrwyth y ffigysbren cyn i'r dail gael eu ffurfio. Ond *ni chafodd ddim arno, ond dail yn unig.* Addewidion siomedig oedd y dail. Chwanega Marc: *canys nid oedd amser ffigys.* Hyny yw, amser casglu ffigys. Pe buasai yn gynhauaf ffigys, gallasai y pren hwn fod wedi cynnyrchu ffrwyth lawer, ond eu bod erbyn hyn wedi eu casglu. Felly, nid oedd yn rhy gynnar nac yn rhy ddiweddar i ddysgwyl ffrwyth. Am fod yma ddail, nid oedd yn rhy gynnar; am nad oedd yn gynhauaf, nid oedd yn rhy ddiweddar. *Ac efe a ddywedodd wrtho, Na thyfed ffrwyth arnat byth mwyach. Ac yn ebrwydd y crinodd y ffigysbren.* Yr oedd y pren yn afiach, am fod ei fywyd gau yn gorlifo, ac yn treulio ei hun mewn llawnder dail. Ond yr oedd gair y felldith yn wyrthiol, ac yn gysgod o waith barnol Crist yn y byd a'r eglwys—yn difa y drwg a'r gau. Yr oedd y ffigysbren hwn yn gysgod neillduol o'r genedl Iuddewig, ei hoffeiriaid a'i hathrawon crefyddol. Daeth y farn i wywo y pren diffrwyth hwn. Dyma yr unig wyrth o ddinystr a gyflawnodd ein Hiachawdwr; ac ar bren yr ydoedd, nid ar ddynion.

SABBOTH, AWST 4YDD—*(Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 9FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

ADN. 20: *A phan welodd y disgyblion, hwy a ryfeddasant, gan ddywedyd, Mor ddisymwth y crinodd y ffigysbren.* Boreu Mawrth oedd hyn, wrth ddychwelyd eto o Bethania i Jerusalem. Nis gallent lai na rhyfeddu wrth weled fod geiriau yr Iesu eisoes wedi cymeryd effaith, wedi peri i'r "ffigysbren grino o'r gwraidd;" yn ol Marc. Yr oeddynt yn eiriau o allu, a hwnw yn oruwchnaturiol.

ADN. 21, 22: Nid yw yn ateb eu geiriau yn adn. 20, a'u meddyliau, trwy egluro iddynt pa fodd yr oedd efe wedi cyflawni y weithred hon. Ond dengys iddynt pa fodd y gallent *hwy* gyflawni gweithredoedd *mwy* na hon: "ni wnewch yn unig hyn a wnaethum i'r ffigysbren." Trwy ffydd gallent fwrw y mynydd i'r môr. Dywed rhai mai mynydd yr Eglwys Iuddewig oedd hwn, neu y Ddwyflywiaeth; mynydd y deml, at yr hwn y cyfeiriai ein Harglwydd â'i law, y mae'n debyg, gan ei fod o flaen eu llygaid. Yr oedd yn rhaid taflu y mynydd hwn, yn allegawl, i fôr y Cenedloedd, yn ninystr Jerusalem, i'r Eglwys ddyfod i gyflwr o ryddid a pherffeithrwydd. Yr oedd yr egwyddor o gymhwysiad cyffredinol: "A pha beth bynag a ofynwch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch."

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, GORPHENAF 7FED—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* TACHWEDD 18FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 29).

"*Myfi yw drws y defaid.*"

CEIR hanes yn niwedd y bennod flaenorol am y dall a adferwyd yn cael ei fwrw allan o'r Synagog—o'r *hen* gymdeithas grefyddol. Rhydd hyn achlysur i'n Harglwydd i egluro trwy gymhariaethau cynnefin natur y gymdeithas *newydd*—Eglwys Crist.

ADN. 1: Darlunir yn yr adnod hon yr hwn sydd yn myned i mewn i gorlan y defaid, heb fyned trwy y drws, ond yn dringo ffordd arall—heb ddyfod o'r porfëydd nac o dŷ y bugail, yn meddwl am dano ei hun yn unig, yn cymeryd ei ffordd ei hun, ar draws pob attalfa—*lleidr* ydyw yn ceisio gochel cael ei ddal, ac *ysbeiliwr* yn arfer trais gyhoeddus i gyrhaedd ei amcanion.

ADN. 2: *Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws, bugail y defaid ydyw.* Y mae y weithred yn dangos ei natur. Byddai amryw ddeadellau gynt yn yr un gorlan; yn y boreu elai pob bugail i mewn i ddwyn allan ei braidd ei hun. Felly y mae defaid y Bugail Da mewn amryw gorlanau: adn. 16.

ADN. 3: *I hwn y mae y drysor yn agoryd, ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef.* Y gwyliwr y rhoddid y gorlan yn ei ofal; yn agoryd pan y daw y bugail i gymeryd ei ddefaid allan i'r borfa, Marc xiii. 34. Amrywia yr esboniad yn ol yr ystyr a roddir i'r defaid ac i'r bugail. Nid yr Ysbryd Glân, na'r Tad, na Moses, nac Ioan Fedyddiwr, ond yr Ysbryd yn

gweithio trwy ei weinidogion ei hun yn mhob achos. *Ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan.* Y mae y defaid oll sydd yn yr un gorlan yn gwrandaw ar ei lais ef, megys ar lais bugail, er iddynt beidio bod ei ddefaid ef ei hun. Ond y mae bugail pob deadell yn "galw ei ddefaid ei hun." Adnabyddiaeth bersonol, ac yna cyflawni gwaith penodol y swydd.

Adn. 4: *Ac wedi iddo yru allan ei ddefaid ei hun.* "Rhoddi" allan, neu "yru allan"—gorfodaeth dyner cariad, i'w gwahanu. Yr oedd yr amser i'w gwahanu o hen gorlan Israel yn ymyl. "Ei *holl* ddefaid ei hun" yw y darllenlad cywir: (felly y mae y Cyf. Diwyg.)—"ALL *his own.*"

Adn. 5: *Ond y dyeithr nis canlynant, eithr ffoant oddiwrtho; oblegid nad adwaenant lais dyeithriaid.* "Dyeithriaid" fel dosbarth, yn gyferbyniol i feibion Duw; "estroniaid," Heb. xi. 34. Nid y "lladron a'r ysbeilwyr" o anghenrheidrwydd, ond pawb heblaw y bugail.

Adn. 6: *Y ddammeg hon a ddywedodd yr Iesu wrthynt.* Meddwl y gair gwreiddiol am ddammeg, a gyfieithir weithiau "diareb," yw dywediad tywyll, llawn o ystyr, ac nid cymhariaeth syml. *Ond hwy*—y dynion deddfol, hunan-gyfiawn a ddarlunid—*ni wybuant pa bethau ydoedd y rhai yr oedd efe yn eu llefaru wrthynt.* Yr oedd y syniadau ysbrydol am y gorlan, y drws a'r bugail, i gyd yn ddyeithr iddynt.

Sabboth, Gorphenaf 14eg—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Tachwedd 18fed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 29).

Adn. 7: *Am hyny*—am nad oeddynt wedi deall, ac er mwyn dwyn allan y prif bwyntiau o addysg yn y ddammeg—*yr Iesu a ddywedodd wrthynt drachefn, Myfi yw drws y defaid.* Eglura yr hyn a ddywedasai o'r blaen. Yr oedd ysbaid wedi bod, mewn meddwl os nad mewn amser. Efe yw y drws i'r Eglwys, i'r gorlan. Ond nid drws y gorlan a ddywedir yma, ond "drws y defaid." Cysylltir y syniad â bywyd Cristionogaeth yn hytrach nag â'i threfniadau. Efe yw y drws i'r bugeiliaid; ond efe hefyd yw y drws i'r defaid. Y mae y bugeiliaid yma eu hunain yn ddefaid; a thrwyddo Ef y maent yn myned i mewn fel defaid ac fel bugeiliaid—fel saint ac fel swyddogion. Nid yn unig y drws *at* y defaid, ond drws y defaid: unir adn. 1 a 9.

Adn. 8: *Cynifer oll ag a ddaethant o'm blaen I, lladron ac ysbeilwyr ŷnt.* Ceir agoriad i'r ystyr yn y gair "a ddaethant." Dyma y gair a gysylltir o hyd â'r Messïah: "yr hwn a *ddaeth.*" Felly y rhai "a ddaethant" o'i flaen Ef (o ran amser) oeddynt y gau-Gristiau, rhai yn proffesu bod yn Fessïah, i lanw dysgwyliadau y genedl. *Hunan* oedd yn eu cynhyrfu; felly "lladron ac ysbeilwyr" oeddynt, yn ceisio ac yn cymeryd yr hyn nad oedd eiddynt; nid fel Ioan Fedyddiwr, yr hwn a ddywedai yn ddiamwys mai nid efe oedd yr hwn oedd yn dyfod, i. 30.

Adn. 9: *Myfi yw y drws: os ä neb i mewn trwof fi, efe a fydd cadwediq: ac efe a ä i mewn ac allan, ac a gaiff borfa.* Llawnder y bywyd Cristionogol yn ei dair elfen o ddyogelwch, rhyddid a chynnaliaeth.

Adn. 10: *Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladrata, ac i ladd, ac i ddystrywio: myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach.* Y mae yr hunangeisiol yn lladrata, ac wrth wneyd hyny y mae yn lladd ac yn dystrywio. Wrth gyrchu at ddybenion hunanol y mae yn dyfetha bywyd a chynnaliaeth bywyd, er heb wybod. Os nad ydym yn aberthu ein bywyd ein hunain, yr ydym yn dystrywio bywyd eraill a'r eiddom ein hunain. Dyma y ddeddf. Nid oes le canol rhwng cariad a hunan—rhwng colli a chadw bywyd, a chadw a cholli bywyd. *Myfi a ddaethum*—yr *un* ffaith ddigyffelyb. *Fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach*, neu "y caent *helaethrwydd.*" Dwy ddawn gyferbyniol i waith y prophwyd hunanol—dawn bywyd, a dawn helaethrwydd. Bywyd, a'r oll sydd eisieu i'w gynnal, i gryfhau a helaethu ei weithrediad.

Sabboth, Gorphenaf 21ain—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Tachwedd 25ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 29).

"*Myfi yw y Bugail da.*"

Adn. 11: *Myfi yw y bugail da.* Y ffurf sydd ar y geiriau yn fanwl yw—"Myfi yw y bugail, y da." Golyga ddau beth: Efe yw y *gwir* fugail, yn gyferbyniol i'r gau. Efe sydd yn sylweddoli y syniad o fugail. Ond y mae y gair yn cynnwys yr elfen o brydferthwch yn gystal a gwirionedd. Efe sydd yn sylweddoli y syniad o fugail yn ei brydferthwch. Yr hyn sydd yn dda dufewnol (*ἀγαθός*), a'r hyn sydd yn dda mewn amlygiad (*καλός*).

Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid. "Yn rhoddi ei einioes i lawr," ymadrodd neillduol i Ioan yn y Testament Newydd yw hwn. Cyfeiria rhoddi y bywyd i lawr, fe allai, at roddi y pris i lawr a ofynir am beth wrth ei brynu. Ond y mae dull Ioan yn golygu

yn hytrach y syniad o roddi a diosg gwisg. Gwedd arall ar "roddi" sydd yn vi. 51. *Dros*—yn achos, er mwyn. I ddangos y berthynas dufewnol rhwng y bugail a'i braidd.

Adn. 12, 13. Gwna y gwas cyflog ei waith nid o galon, ond er mwyn y tâl. Ffoa yn wyneb perygl, am mai hunan-lês sydd yn ei gymhell. Rhaid gadael allan y rhan gyntaf o adn. 13, yn ol rhai o'r prif ysgrifau.

Adn. 14, 15: Y mae y ddwy adnod hyn yn ddibynol ar eu gilydd, ac ni ddylai diweddnod fod ar ol adn. 14, ond rhagwahanod, na'r gair *felly* yn adn. 15 (yn ol yr awdurdodau hynaf)—"Myfi yw y bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi, fel yr edwyn y Tad fyfi, ac yr adwaen innau y Tad." Y mae perthynas Crist â'i bobl yn cyfateb i berthynas Crist â'i Dad. Nid cymhariaeth yn unig, ond y mae y naill berthynas yn fesur o'r llall.

Adn. 16: *A defaid eraill sy genyf, y rhai nid ŷnt o'r gorlan hon.* Yr oedd golwg ar y groes yn eangu y terfyngylch ysbrydol: "Minnau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun," xii. 32. Nid oedd praidd Crist yn gyfyngedig i'r rhai oedd o fewn y gorlan Iuddewig; hyd yn nod cyn ei farw yr oedd ganddo "ddefaid eraill." *Y rhai hyny hefyd sy raid i mi eu cyrchu.* Nid oedd y rhai hyn yn ddeadell, nid oedd ganddynt undeb gweledig fel yr Iuddewon; gwasgaredig oeddynt eto, ond caent eu "cyrchu." *A'm llais I a wrandawant; a bydd un gorlan ac un bugail.* Ufuddod yw y nod ein bod yn eiddo Crist, adn. 4, 27. Bydd yr hen brophwydoliaeth yn cael ei chyflawni, Ezec. xxxiv. 23. Yr hyn *sydd* yn nghynghor Duw a *fydd* yn hanes dyn. Un "praidd" neu ddeadell, nid un "gorlan," yw y cyfieithiad cywir yma. Perthynas ysbrydol sydd o dan yr Efengyl, nid undeb allanol fel yr hòna yr Eglwys Babaidd.

Adn. 17, 18. Y mae perffaith gariad y Mab yn galw allan gariad y Tad. Y mae dau wirionedd cyferbyniol ar hyn: (1) Y mae y Tad yn caru *y Mab* mor fawr, nes caru pechaduriaid yn y Mab. (2) Y mae y Tad yn caru *pechaduriaid* mor fawr, nes y mae yn caru ei Fab am ei fod yn rhoddi ei einioes drostynt. "Nid *oes* neb yn ei dwyn:" y darlleniad gorphenol, mae'n debyg, yw yr un cywir: "Nid *oedd* neb." Cipolwg i'r cynghor trâgywyddol. Yr oedd holl waith Crist, mewn ystyr, *wedi* ei wneyd yno erioed. Gwnaeth y cwbl o'i wirfodd. Yr oedd ganddo nid yn unig feddiant *gallu* ar ei fywyd, ond meddiant *awdurdod*—hawl gyfiawn.

Sabboth, Awst 4ydd—(*Y rhan gyntaf o'r Wers am* Rhagfyr 2ail *yn y* Gwersleyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 29).

Amryw dyb am dano.

Adn 19, 20. Ofnai y rhai a ddywedent fod ganddo gythraul, rhag effaith ei addysg ar y bobl. Seilient y dybiaeth ei fod yn "ynfydu" ar ei honiadau am dano ei hunan, ei berthynas â'r Tad, awgrymiadau o'i Dduwdod.

Barddoniaeth.

Y PLENTYN IESU.

(Cyfieithiad o Hen Awdwr.)

Yn *Blentyn* oedd—heb allu siarad gair,
Yr Hwn â'i Air o'r blaen a wnaethai 'r byd:
Yn mreichiau 'i fam y 'i dygid—mor wan oedd,
Yr Hwn âg un llaw all'sai ysgwyd cylch y Nef:
Mor fach yw 'r lle gymerai 'r baban-Arglwydd hwn,
Yr Hwn nad all'sai 'r hollfyd mawr mo 'i ddal:
Pwy draetha 'i oes? Pwy draetha 'i flwyddi Ef?
Pa *Hen* mor ieuanc! Pa *Blentyn* fu mor hen!

G.

PENNILLION COFFADWRIAETHOL

I'r diweddar Mr. William Williams, *Llandudno.*

(buddugol.)

Hiraeth, parch, edmygedd hefyd,
Lanwant fy ngofidus fron,
Wrth fyfyrio ac adgofio
Gwrthddrych yr alargan hon;
Hiraeth mawr ar ol ei golli,
Parch i'w goffadwriaeth ef,
Ac edmygedd o'i ffyddlondeb
Yn ngwasanaeth Duw y Nef.

Hen gymeriad gwreiddiol ydoedd,
Heb ei debyg yn ein mysg;
Perlyn mawr heb ei gaboli,
Gan gywreinrwydd dynol ddysg;
Ond ni theimlid dim gerwindeb
Yn ei ddigelfyddyd foes;
Gras a'i gwnaeth yn wir foneddwr,
Ac yn addurn mawr ei oes.

Plentyn natur oedd yn hollol,
Rhoes ei delw arno 'n llawn;
Gwisgodd ei gynneddfau cryfion
Gyda symledd prydferth iawn;
Synwyr cryf a chof gafaelgar,
Calon fawr,—egwyddor gref,
A gydunent oll i roddi
Mawredd ar ei nodwedd ef.

Cymro calon-gynhes ydoedd,
Llawn o gariad at ei wlad,
Ac yn wrol amddiffynai
Iaith ei fam rhag pob sarhad

Gwrthwynebai 'n hyf bob tuedd
Yn ei phlant i wadu hon;
Son am gladdu iaith y Brython
Glwyfai ei wladgarol fron.

Pryd nad ydoedd ond bachgenyn
Nwyfus iawn, a glân ei bryd,
Dygwyd ef at y Gwaredwr,
Cyn ei lygru gan y byd;
Crefydd foreu a'i haddurnodd,
A holl ffrwythau gwerthfawr ffydd,
Ac a'i gwnaeth yn dra defnyddiol,
Nes machludo haul ei ddydd.

Gwasanaethodd swydd diacon,
Mewn ffyddlondeb dymmor maith;
Medrus oedd i gynnorthwyo
'R pererinion ar eu taith;
Trwm yw meddwl na chawn weled
Mwy ei wyneb yn ein plith,
A gadawodd ni yn nghanol
Dagrau rif y boreu wlith.

Gwleddai beunydd mewn myfyrdod
Dwys ar ryfeddodau gras,
Ac adroddai ambell adnod
Gyda rhyw ryfeddol ras;
Darllenai 'n fynych Salmau Dafydd,
A phrophwydi sanctaidd Duw;
Ond efengyl Ddwyfol Ioan
Oedd y fan yr hoffai fyw.

Pan weddïai 'r "Esgob" weithiau,
Codai 'r ddaear dan ei draed—
Plygai 'r nef yn isel atom,
Pan ddadleuai werth y gwaed;
Ei daerineb a agorai
Ddorau aur y nefoedd wen,
A gollyngai hon fendithion
Yn gawodydd ar ein pen.

Addfwyn, siriol, a dirodres,
Serchog iawn a thrwyadl oedd;
Ond yn wyneb annuwioldeb
Y dyrchafai rymus floedd;
Bywyd pur ein brawd feithrinai
Rinwedd beunydd yn y dref;
Pob symudiad er daioni
Gafodd ei gefnogaeth ef.

Cymwynasgar oedd bob amser,
Fel cymydog cywir fryd;
Cynghor doeth mewn pethau dyrys
Yn fwyn roddodd lawer pryd:
Ei ddylanwad pur ymdaenai
Tros y lle fel dystaw dòn;
Codwyd ef uwchlaw un anmharch
Yn serchiadau 'r ardal hon.

Ni roed iddo gyfoeth lawer,
Nac esmwythdra bydol chwaith,
Ond trwy lu o orthrymderau,
Y cyrhaeddodd ben ei daith;
Ceisiwr trysor oedd er hyny—
Cafodd berl yn ngharlad Duw—
Iawn digonol dros bechadur—
Cyfoeth byth na dderfydd yw.

Gallu cryf attyniad cariad
Iesu Grist a'i tynodd ef,
O fyd llawn o orthrymderau,
Mewn gorfoledd mawr i'r nef;
Yno mae yn seren lachar,
Ac yn ffurfio 'n hardd pryd hyn,
Ran o ddosbarth yr Haul hwnw
A fachludodd ar y bryn.

JOHN OWEN.

Llandudno.

CARIAD CRIST.

CYMERODD ein camwri—ei gariad
Agorai i dosturi;
Tu draw i'r llen y bu 'n llenwi,
Fe geulai i fôr ar Galfari.

DEINIOL DERFEL.

CALFARIA.

Gan Mrs. DAVIES, *Liverpool.**

CALFARIA, Calfaria, O! enw bendigaid,
Fe genir dy foliant, fe gofir dy ddydd;
Y llanerch anwylaf gan f' enaid eiddilaf
Lle prynwyd fy mywyd, lle 'm cafwyd yn rhydd:
Fan yma dilëwyd yr hen 'sgrifeniadau,
Fe 'u hoeliwyd ar groesbren gan Dduwdod mewn hedd;
Er poethder y frwydr, fy Iesu orchfygodd,
Trwy farw diddymodd farwolaeth a'r bedd.

Mi welaf y ddeddf yn cyfeirio ei chamrau
Ar gyfer y mynydd, ar fore ei dydd,
Gan waeddi yn groch am gael *Iawn* dros yr euog,
"Dim iawn—dim maddeuant! na gollwng yn rhydd."
Mae 'r ddaear yn crynu gan sibrwd ei melldith,
A'r Nef hithau 'n syllu yn fud ar ei braw;
Holl gread mewn cyni, yr euog ar drengu,
Pob gobaith yn colli, dialydd gerllaw.

Mi welaf yr Iesu a'i wedd yn ofidus,
Ei gefn yn ffinedig wrth gario ei groes,
Ei ben yn friwedig gan ddrain melldigedig—
Ei enw 'n ddirmygus, a'i enaid mewn loes;
Mae purdeb dihalog ei natur yn gruddfan
Wrth ddisgyn i erchyll drueni y byd,
Sancteiddrwydd y Duwdod a melldith yr euog
Yn cwrdd yn ei fynwes derfysglyd ynghyd!

Holl allu 'r tywyllwch sydd wedi ymgasglu,
A dyfais a meldith holl feibion y fall;
Ac yno 'n ymarllwys rhaiadrau digofaint
Ar ben fy Ngwaredwr a'm Prynwr heb ball:
Gwaghawyd Gehenna o'i lluoedd uffernol,
Ymdröant o'i amgylch mewn cynghrair gytûn,
Am ddiffodd y fflamau angerddol a losgai
Yn mynwes yr Iesu o gariad at ddyn.

O'r cariad tragwyddol oedd wedi ymgroni
Yn mynwes yr Iesu at wael ddynoliryw!
Pan rodiai y ddaear diangai dyferion—
Y dall gaddd ei olwg, a'r marw gaddd glyw:
Ond ar ben Calfaria agorodd y dorau,
Fe lifodd rhaiadrau o'i gariad mor fawr,
Nes hollol ddiwallu holl wagder ac anghen
Mil fyrdd o druciniaid colledig y llawr.

Yn llwyr ac o'i wirfodd ei hun darostyngodd,
Ei ddwyfol ewyllys gyflwynai i'w Dad;
Ar hon y crogassi holl dynghed y nefoedd,
Y ddaear ac uffern bob awr am barhâd:
Fe 'i hunan aberthodd—fe 'i hunan gyflwynodd,
Ei hunan bu 'n hongian rhwng daear a nen—
Ffynnonell goleuni yn nh'w'llwch marwolaeth,
A hanfod pob bywyd yn marw ar bren.

Yr Hwn oedd â'i Air yn creu bydoedd afrifed—
A'i anadl y chwythai 'r planedau i fod—
Sydd heddyw yn fud, "nid agorai ei enau,"
Yn ŵr dirmygedig a'i enw 'n ddinôd;
Rhyfeddod pob rhyfedd—beth wnaeth iddo 'ngharu,
Ei elyn, heb degwch na hedd o unrhyw?
With yfed holl gynnwys y cwpan a haeddais,
Fe drengodd ei hunan, gwnaeth finnau yn fyw!

Diosgodd hardd wisg ei ogoniant ei hunan
Wrth ddisgyn i erchyll drueni y brad,
Ac yno gosododd am berson y lleidr
Ogoniant, nes esgyn i fynwes ei Dad;
Y Duwddyn yn disgyn, yr euog yn esgyn,—
O! 'r fath gyfnewidiad na welodd ein byd;
Na' r Duwdod i hunan er maith dragwyddoldeb—
Am eiddil mor euog roi taliad mor ddrud!

---

* Bydd yn ddyddorol i'n darllenwyr wybod mai Mrs. Davies yw priod *Councillor* J. Davies, Belvidere Road, Liverpool, a merch i'r pregethwr enwog, y diweddar Barch. John Jones, Talsarn.

Disgynodd îs, îs, i waelodion yr eigion,
Pwys dirfawr fy meiau a'i llethai yn llawn ;
Ond gwelaf yn codi o ymchwydd y tònau
Hen greigiau tragwyddol Cyfammod ac Iawn ;
Fan yma y gorphwys fy enaid lluddedig,
Er gwaethaf pob 'stormydd yn nghanol y môr ;
Fy nghadarn ddiangfa sy 'n nghlwyfau fy Iesu,
A'i sylfaen safadwy yn Hanfod yr Ior.

O ! f' enaid, saf, edrych ar eithaf digofaint—
Fe ladd dy elynion eth, try 'r gareg yn llyn ;
Mewn dedwydd orfoledd a sanctaidd orchwyledd,
Mae 'n dwyn rhyw dangnefedd i'n mynwes yn hyn ;
Tywysog y bywyd mewn gofid yn marw,
Creawdydd, cynnalydd y Nef a'i llu 'n llawn—
A welaf tan hoelion a'i waed yn dylifo
Yn ffrydiau o gariad o foroedd o Iawn.

O ! cyffwrdd â'm calon, bur waed fy Ngwaredwr,
I dynu ei sothach a'i golchi yn lân ;
Mae gallu anfeidrol yn d' aberth, O Iesu !
Rhydd fywyd mewn angeu, try 'm galar yn gân :
Tydi, a Thi 'n uniz all buro fy natur,
Tydi, a Thi 'n unig a all fy nglanhau ;
Mae gronyn o'th rinwedd wrth orsedd y nefoedd,
Fil filoedd o weithiau yn drymach na 'm bai.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn yr Wyddgrug, Mai 27 a'r 28ain, rhoddwyd adroddiad calonogol am gynnydd yr achos yn yr Wyddgrug. Yr oedd y cynnydd yn rhif yr aelodau yn y dref a'r canghenau, er y fl. 1870, yn 180; ac yn rhif y gwrandawyr yn 610. Galwyd sylw hefyd at y got-golofn hardd sydd wedi ei gosod i fyny yn ffrynt y capel, er coffadwriaeth am y diweddar Barch. Roger Edwards, yr hwn a wasanaethodd yr achos mor ffyddlawn ac effeithiol yn y dref am y tymmor maith o tua hanner can' mlynedd. Rhoddwyd llythyr cyflwyniad i'r Parch. John Pugh, B.A., i Gyfarfod Misol Liverpool, ar ei symudiad i fyw i Seaforth. Dygid y dystiolaeth uchaf i gymeriad a gwasanaeth Mr. Pugh, ac amlygid gofid dwys am y golled i'r achos trwy y sir yn ei ymadawiad. Rhoddwyd hefyd lythyr cyflwyniad i'r Parch. O. E. Williams, ar ei symudiad i Lanfairmuallt, a dadganwyd gofid y frawdoliaeth am ei symudiad yntau mor fuan o gylch y Cyfarfod Misol.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynhaliwyd Mai yr 28ain, gwnaed coffad parchus am y diweddar Mr. John Roberts, Pendleton. Dygwyd tystiolaeth uchel iawn i'r lliaws rhagoriaethau a hynodent gymeriad Mr. Roberts fel dyn, Cristion, a swyddog eglwysig. Dywedid fod marwolaeth Mr. Roberts yn un o'r colledion trymaf a gafodd Eglwys Pendleton erioed.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Frycheiniog, a gynnaliwyd yn Pontfaen, Mai 23 a'r 24ain, pasiwyd fod llythyr yn cael ei anfon at berthynasau y ddiweddar Mrs. Prosser, Talgarth, i ddadgan cydymdeimlad y Cyfarfod Misol â hwy yn eu galar ar ol un o rai rhagorol y ddaear. Rhoddasai y foneddiges hon, ychydig ddyddiau cyn ei hymadawiad, gan' punt at leihau y ddyled ar y capel.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Llanfachreth, Mehefin 3 a'r 4ydd, hysbyswyd fod y pwyllgor a benodasid i chwilio i'r achos, wedi cael pedair o ysgolion yn euog o droseddu rheolau yr Arholiad Sirol. Penderfynwyd fod enwau yr oll o ymgeiswyr yn yr ysgolion hyn i'w gadael allan o'r rhestr am eleni; a rhoddwyd rhybudd os ceid ysgolion yn euog eto o droseddu y rheolau hyn, y cyhoeddid yr enwau, ynghyd ag enwau y gofalwyr. Pasiwyd penderfyniadau cryfion o berthynas i Addysg Uwchraddol yn Nghymru.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Pontcymer, Mai 28 a'r 29ain, darllenwyd llythyr o Gyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, yn cyflwyno Mr. Abraham Oliver, gynt o Taliesin, i undeb y Cyfarfod Misol hwn; ac hefyd o Sir Gaerfyrddin, yn cyflwyno y Parch. William S. Powell. Rhoddwyd i'r ddau frawd dderbyniad serchog a chalonog. Gwnaed sylwadau hynod effeithiol am y diweddar Barch. Samuel Price, gynt o'r Gower; dygwyd tystiolaeth uchel i'w gymeriad crefyddol ac i'w ymroddiad i'w waith.

CYFARFODYDD PREGETHU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Bethania, Ammanford, Mai 14 a'r 15fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. John Williams, Brynsiencyn, a W. Jones, Treforris.

Cynnaliwyd Cyfarfodydd ail-agoriadol y capel yn Hwlffordd, ar y Sabbothau Mai 12 a'r 19eg, a Llun a Mawrth, yr 20 a'r 21ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Stephen Jenkins, Saundersfoot; W. Powell, Penfro; Principal Edwards, M.A., D.D., Aberystwyth; W. Evans, M.A., Pembroke Dock; George Williams, Llysyfran; W. Mendus, Wiston; a John Puleston Jones, B.A., Bangor. Casglwyd yn y gwahanol gyfarfodydd £104 13s. 9c.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Pen-

ycae, Aberafon, Mehefin 2 a'r 3ydd. Y gweinidogion a bregethent oeddynt y Parchn. W. Jenkins, M.A., Tyddewi; Griffith Davies, Aberteifi; Abraham Oliver, Pontardulais; a W. D. Morris, Cwmaman.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Tywyn, ger Llandudno, ar ddydd Iau Dyrchafael. Gweinyddwyd gan y Parchn. Griffith Ellis, M.A., Bootle, a T. J. Wheldon, B.A., Ffestiniog.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Ystrad Mynach, Mai 29 a'r 30ain. Pregethwyd gan y Parchn. D. Charles Davies, M.A., Trefecca; T. H. Jones, Llansamlet; a W. Lewis, Pontypridd.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y Graig, Merthyr, Mai 19 a'r 20fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. S. Jones, Trefecca; T. Rees, Cefn; T. J. Jones, Troedyrhiw, a T. J. Edwards, Penrhiwceiber.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Libanus, Brynmawr, Mehefin 17 a'r 18fed. Y pregethwyr oeddynt y Parchn. Richard Howells, Llansamlet; D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam; a H. Barrow Williams, Wrexham.

Cynnaliwyd Cyfarfod ail-agoriad capel Penuwch, Swydd Aberteifi, Mehefin 5 a'r 6ed. Pregethwyd gan y Parchn. J. Wyndham Lewis, Caerfyrddin; William Prydderch, Goppa; a W. Lodwig Lewis, Skewen.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol capel Horeb, Pentyrch, Mehefin 10 a'r 11eg. Pregethwyd gan y Parchn. T. Jones Davies; D. H. Williams, Casnewydd; a H. Barrow Williams, Wrexham.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Aberthyn, ger Pontfaen, Mehefin 18 a'r 19eg, pryd y gweinyddwyd gan y Parchn. Dr. Cynddylan Jones, Caerdydd, a D. M. Phillips, Caerdydd. Casglwyd dros £20.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Penclawdd, Mehefin 16 a'r 17eg. Gweinyddwyd gan y Parchn. William Jenkins, M.A., Tyddewi; Robert Jones, Cwmbwrla; ac E. Rowlands, Burry Green.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Penygroes, Arfon, nos Sadwrn a'r Sabboth, Mehefin 15 a'r 16eg. Gweinyddwyd gan y Parchn. Griffith Ellis, M.A., Bootle; a Griffith Parry, D.D., Aberystwyth.

LIVERPOOL.

Cynnaliwyd Cymanfa flynyddol y Sulgwyn eleni fel arferol yn Liverpool, nos Wener, nos Sadwrn, y Sabboth a dydd Llun. Pregethwyd gan y Parchn. W. Williams, Abertawe; J. Hughes, D.D., Caernarfon; D. Saunders, D.D., Abertawe; G. Parry, D.D., Aberystwyth; Evan Phillips, Castellnewydd; Evan Jones, Caernarfon; J. Wyndham Lewis, Caerfyrddin; Ellis Edwards, M.A., Bala; J. Hughes, M.A., Machynlleth; William Evans, M.A., Pembroke Dock; Thomas Roberts, Bethesda; J. Pryce Davies, M.A., Caer; Griffith Roberts, Carneddi; W. R. Jones, Caergybi; William Jones, Treforris; John Williams, Brynsiencyn; R. H. Morgan, M.A., Menai Bridge; David Lewis, Llanstephan; J. J. Roberts, Portmadoc; John Roberts, Tabernacl, Môn. Cynnaliwyd y Cyfarfod Eglwysig cyffredinol yn Hengler's Circus, dan lywyddiaeth y Parch. Dr. Thomas. Darllenwyd yr Adroddiad gan yr Ysgrifenydd, Mr. J. Griffith, Seacombe. Gwnaed sylwadau ar yr ystadegau gan y Parch. Evan Jones, Caernarfon. Y testyn oedd: "Prif nodweddion yr hen Fethodistiaid, a'r perygl o'u colli o'n mysg yn y dyddiau hyn." Caed cyfarfod tra llewyrchus, ac ynddo lawer o ysbryd y tadau a'r amseroedd yr ymddyddenid yn eu cylch.

Nodiadau Misol.

PROFESSOR DODS.

Etholwyd Dr. Marcus Dods yn Broffeswr Esboniadaeth y Testament Newydd yn y *New College*, Edinburgh, trwy fwyafrif o 103 dros ei ddau gydymgeisydd ynghyd. Diau fod ei alluoedd a'i gyrhaeddiadau uchel, fel y mae ei weithiau yn profi, yn ei gymhwyso mewn modd arbenig i'r gadair bwysig hon. Teimlem ein calon yn cynhesu ato wrth weled tystiolaeth un o'r rhai sydd yn ei adnabod oreu, ei fod nid yn unig yn berchen meddwl cryf a threiddgar, wedi ei gyfoethogi i raddau annghyffredin â dysgeidiaeth Feiblaidd, ond ei fod hefyd yn berchen *calon* fawr, eang. Er mor uchel yw ei hawliau, y mae yr olaf o bawb i'w cymhell i sylw, y parotaf o bawb i gilio o'r neilldu, y cyflymaf o bawb i ganfod rhagoriaeth mewn eraill, ac i'w wneuthur yn hysbys. Nis gwyddom am un math o fawredd mwy haeddol o edmygedd na'r mawrfrydigrwydd hwn—*ysbryd* mawr. Ac oni raid ychwanegu—nas gwyddom am ddim mwy prin? Clywsom sylw yn ddiweddar, nad oes un dosbarth o ddynion mor eiddigus o'u gilydd a

gweinidogion yr Efengyl. Os yw hyny yn bod, cywilyddiwn! Ac os yw yn bod, pa fodd y cydsaif y fath ysbryd â'r Efengyl yr ydym yn weinidogion o honi, hanfod yr hon yw hunanymwadiad? Nid oes ond un o ddau ateb: rhaid nad yw yr Efengyl yn wir, neu nad ydym ni yn ei chredu. Gellir dysgwyl i Athrofa sydd yn meddu y fath athrawon a Dr. A. B. Davidson a Dr. Marcus Dods droi allan efrydwyr cadarn yn yr Ysgrythyrau.

Y GENADAETH YN NGORLLEWIN LLUNDAIN.

Ymddengys fod gwaith pwysig yn cael ei ddwyn ymlaen gan y Genadaeth hon, a'i fod yn cael ei ddilyn â mesur helaeth o lwyddiant. Dywedai y Parch. Hugh Price Hughes yn ddiweddar, eu bod nid yn unig yn talu eu ffordd, ond fod ganddynt £150 mewn llaw, a dysgwyliai y byddant cyn diwedd y flwyddyn yn hunan-gynnaliol. Dywedai y byddai ganddynt yn fuan, gyda bendith Duw, o leiaf fil o aelodau.

CYFLOGAU GWEINIDOGION.

Hysbysir fod eglwys y *Trinity*, Glasgow, wedi penderfynu codi cyflog ei gweinidog, y Parch. John Hunter, i *Fil* o bunnau yn y flwyddyn. Dywedir mai dyma y cyflog uchaf a roddir i unrhyw weinidog Ymneilldaol yn Scotland, gyda'r eithriad o Dr. Whyte, Edinburgh.

CYFLOGAU CENADON.

Cyhuddwyd Cenadon, yn yr ymosodiad diweddar a fu arnynt, o dderbyn cyflogau rhy fawr, ac o fyw yn foethus. Credwn na bu erioed gyhuddiad mwy disail. A phan gofiwn fod hyn yn cael ei ddyweyd gan rai yn proffesu bod yn Gristionogion, ond yn gwario ar uchder a moethau, iddynt eu hunain a'u teuluoedd, swm blynyddol nad yw cyflog y Cenadwr druan ond megys dim yn ei ymyl, y mae y cyhuddiad yn un hynod o ddigywilydd. Ysgrifenodd un Cenadwr yn dyweyd fod dynion sengl yn cael £125, a gŵr piod £230, heblaw ychydig ar gyfer y plant. Dywedir fod treuliadau cadw ac addysgu y plant yn Lloegr yn llyncu rhan fawr o gyflog Cenadon, a bod brodyr gartref ar £160 neu £170 yn dda allan mewn cymhariaeth i Genadon; a bod rhai sydd yn derbyn £220 neu £250 yn gyfoethog y tu hwnt i gymhariaeth yn eu hymyl.

Y GYMDEITHAS I GYFRANU WRTH REOL.

The Proportionate-giving Union yw enw y Gymdeithas hon. Nid ydym yn hoffi yr enw, am ei fod yn rhy hir ac anhylithr. Ond y mae amcan yr Undeb yn dda. Ffurfiwyd ef yn mis Medi, 1887. Ei amcan yw uno y rhai sydd yn credu mewn cyfranu at achosion crefyddol a dyngarol wrth reol, ac nid dan gymhelliad oddiallan, neu wrth fympwy neu deimlad. Ni phenderfynir y rheol, gadewir hyny i bob un yn ol ei farn a'i gydwybod—pa un ai y ddegfed ran, neu yr ugeinfed, neu y ddeugeinfed o'i dderbyniadau, neu ei incwm blynyddol. Deallwn fod traethodyn Saesoneg rhagorol a rhadlawn ar y pwnc hwn o gyfranu yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan y Parch. William Jones, Treforris; a hysbysir ni hefyd fod Mr. William Jones, City View, Bangor, wedi cytuno â gŵr i fyned i werthu y llyfryn bychan hwnw ar hyd a lled y wlad, mor fuan ag y daw allan o'r wasg. Gwna Mr. Jones hyn oddiar zel dros wneuthur daioni yn mhob ffurf; nid yw yn cymeryd dim elw iddo ei hun oddiwrth yr anturiaeth.

Byrnodion Amrywiaethol.

Mr. G. F. Walker, Coleg y Drindod, Caergrawnt, oedd y *Senior Wrangler* y flwyddyn hon—yr anrhydedd uchaf mewn *Mathematics*. Dywedir ei fod yn teimlo dyddordeb mawr yn y gwaith Cenadol, a bod yn eithaf posibl y bydd yn ei gynnyg ei hunan rywbryd i'r Genadaeth Wesleyaidd. Os daw hyny i ben, bydd efe yr ail *Senior Wrangler* a aeth yn Genadwr. Y cyntaf oedd Henry Martyn. Gynifer o feibion gweinidogion a llëygwyr Ymneilldaol sydd wedi cyrhaedd yr anrhydedd uchaf hwn, er pan agorwyd y drws i Ymneilldawyr!

Gwaria yr India tuag ugain miliwn o bunnau yn flynyddol am ddiodydd meddwol, gyda phoblogaeth o ddau can' miliwn; Prydain Fawr yn agos i gant a thri ar hugain o filiynau, gyda phoblogaeth o bymtheng miliwn ar hugain; a'r Unol Daleithiau gant a deugain o filiynau gyda phoblogaeth o hanner can' miliwn.

Y mae y Jesuitiaid, o dan nawdd llywodraeth Hisbaen, yn helaethu eu sefydliad cenadol gydag yni mawr yn Fernando Po.

Hysbysir fod Dr. Cuyler, New York, a'i briod, ar dalu ymweliad â Lloegr. Dywed newyddiadur Americanaidd nad oes ond un Dr. Cuyler, ei fod yn bregethwr *grand*,

yr ysgrifenwr defosiynol goreu yn y byd, ac nad oes neb wedi gwneyd mwy o ddaioni yn ei ddydd a'i genedlaeth. Wedi ysgrifenu hyn, gwelsom ei fod yn pregethu yn nghapel y Parch. Newman Hall, nos Sabboth, y 23ain o Mehefin.

Professor MacMuller fydd yn cynnrychioli Prifysgol Rhydychain, er nad yn swyddogol, yn y Gynghorfa Gyd-genedlaethol o ysgoleigion dwyreiniol, sydd i gyfarfod yn Stockholm, Sweden. Cafodd wahoddiad arbenig oddiwrth y Brenin, yr hwn sydd ei hunan yn ieithwr ac ysgolhaig rhagorol; a chydag ef y bydd yn lletŷa. Tybiwn y bydd Prifysgol Aberystwyth yn cael ei chynnrychioli gan un o ysgolheigion dwyreiniol enwocaf y deyrnas, Dr. Ethe. Y mae un o'r dosbarth hwn o ddysgedigion, ag yr oedd ei enwogrwydd yn Ewropëaidd, newydd farw—y Professor Wright o Gaergrawnt, yr hwn a lanwai y gadair Arabaeg yn y Brifysgol. Llanwyd y gadair gan Professor Robertson Smith.

Y mae y Canon Evans, Professor Groeg yn Mhrifysgol Durham, hefyd wedi ymadael â'r fuchedd hon. Enillodd y *Ponson Prize* yn 1838. Gradd gyffredin a gymerodd heb *honours*. Ond synodd bawb â'i ysgolheigdod ar ol hyny. Bu yn athraw cynnorthwyol yn Rugby, lle yr oedd ei ddysg yn syndod i'r dosbarth uchaf, a'i ddiniweidrwydd yn hyfrydwch i'r bechgyn chwareus. Gwelir fod Principal Edwards, yn ei Arweiniad i'w Esboniad, yn siarad yn uchel am ei Esboniad ar yr Epistol cyntaf at y Corinthiaid, er byred yw, ac y mae pawb sydd wedi ei ddarllen yn cytuno i'w alw yn *brilliant*. Ei brif waith oedd cyfieithu "Œnone" Arglwydd Tennyson i *hexameters* Lladin.

Gellir gyru aur i'r fath deneurwydd fel y gwna un gronyn *(grain)* orchuddio 52 o fodfeddi ysgwâr, a bydd 1500 o weithiau yn deneuach na phapyr ysgrifenu.

Dywedir fod papyr wedi ei ddyfeisio yn yr Almaen na wna tân na dwfr effeithio arno.

Dywed meddygon fod cwsg naturiol yn dyfnhâu o hyd am yr awr a hanner cyntaf, ar ol hyny y mae yn ysgafnhau yn raddol. Ni ddylai y pen fod yn uwch na'r corff pan yn cysgu, o fwy na chwe' modfedd.

Y mae mwy o gwsg yn anghenrheidiol yn y gauaf na'r haf. Nid oes breuddwydio pan y mae cwsg yn berffaith.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA LLANGADOG,

Mai 21, 22, a'r 23ain, 1889.

Llywydd:—Y Parch. G. Phillips, Pontnewynydd.

Dydd Llun, Mai 20fed.

Pwyllgor Ad-drefniad Athrofa Trefecca, am 7 o'r gloch.

Dydd Mawrth, Mai 21ain.

Pwyllgor Ad-drefniad Athrofa Trefecca (parhâd), am 9 o'r gloch.

Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa, am 3 o'r gloch.

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. W. Jones, Treforris.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Cenadwriaethau o'r Cyfarfodydd Misol.

1. *Deddf Cau y Tafarndai.*—Yn unol â chenadwri o Orllewin Morganwg, penderfynwyd,—Ein bod yn anfon cenadwri ar frys at yr holl Gyfarfodydd Misol i ddymuno arnynt enwi nifer o bersonau cymhwys ar unwaith i'w cynnrychioli o flaen y Ddirprwyaeth Freiniol sydd i wneyd ymchwiliad i ddylanwad Deddf Cau y Tafarndai ar y Sabboth yn Nghymru; ac i'w hannog i gasglu yr holl ffeithiau mewn cysylltiad â gweithiad allan y ddeddf, a'u cyflwyno yn glir a chyflawn ger bron y Dirprwywyr, ereu hargyhoeddi fod y ddeddf, er gwaethaf y camddefnydd a wneir o ranau o honi, wedi profi yn fendith annhraethol i'r Dywysogaeth.

2. *Capel Bristol.*—Sylwyd ar genadwri o Ddwyrain Morganwg o berthynas i'r treuliad ynglŷn â'r ymgais i werthu capel Bristol, a phenderfynwyd,—Ein bod yn awdurdodi Mr. D. R. Lewis, Dowlais, i godi arian i dalu yr arian dyledus i'r arwerthwyr—Mri. Alexander Daniel & Co., a'i fod i dd'od âg adroddiad i mewn i Gymdeithasfa Awst nesaf.

3. *Derbyniad y Parch. D. G. Evans.*—Eglurodd brodyr o Sir Fynwy o barthed i'r Parch. D. G. Evans, ei fod yn llafurio yn eu plith gyda chryn gymeradwyaeth er yr amser y dygwyd yr achos i Gymdeithasfa Crug-glas yn Hydref, 1886, a'i fod yn weinidog ordeiniedig ymhlith yr Annibynwyr, ac wedi bod yn cyflawni holl wasanaeth y swydd am flynyddoedd fel gweinidog da a defnyddiol. Penderfynwyd,—Ein bod yn derbyn y Parch. D. G. Evans, ac yn ei gydnabod fel gweinidog yn ein plith. Yna cyflwynwyd Mr. Evans i'r Gymdeithasfa, a hysbyswyd ei fod wedi ei dderbyn.

4. *Llythyr Cyflwyniad y Parch. M. Powell.*—Yn ngwyneb hysbysrwydd a chais a ddaeth o Gyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, penderfynwyd,—Ein bod yn rhoddi llythyr i'r Parch. Morgan Powell, i'w gyflwyno fel gweinidog rheolaidd yn ein Cyfundeb yn Nghymru i'n Cyfundeb yn Unol Dalaethau America.

III. *Adroddiad Trysorfa y Gweinidogion.*—Cyflwynwyd yr Adroddiad canlynol o

weithrediadau Cyfeisteddfod Gweithiol Trysorfa y Gweinidogion gan yr Ysgrifenydd, y Parch. W. Evans, M.A.

Gan fod yr Adroddiad am 1888 wedi ei argraffu a'i ledaenu er's deufis, gallwn ystyried fod manylion y cyfrif am y flwyddyn ddiweddaf eisoes yn hysbys i holl aelodau y Gymdeithasfa. Dichon y bydd y dafien ganlynol yn dderbyniol, ar ben ugain mlynedd wedi yr ad-drefniad a wnaed ar Reolau y Drysorfa, a hyny yn yr un lle ag yr ydym yn awr yn gynnulledig ynddo :—

	1888.			1868.		
Nifer yr Aelodau	214			230		
	£	s.	c.	£	s.	c.
Taliadau yr Aelodau	359	10	0	153	5	3
Llogau	576	1	6	83	9	4
Rhoddion a Thanysgrifiadau.....	28	14	0	89	10	8½
Cyfanswm y Derbyniadau	964	5	6	356	5	3½
Talwyd allan	839	4	9	362	4	2
Gwerth y Gronfa	12620	0	0	2565	3	4
	Dechreu 1889.			Dechreu 1869.		
Yn llaw y Trysorydd	95	14	10	14	0	7½

Dylid egluro: Cyn y cyfnewidiad yn 1870, yr oedd gan bregethwyr anordeiniedig hawl i fod yn aelodau o'r Drysorfa; eithr yn awr, gweinidogion yn unig sydd yn perthyn iddi; ac o ganlyniad y mae lleihad yn nifer yr aelodau. Ond y mae eto tua 90 o weinidogion o fewn cylch y Gymdeithasfa nad ydynt yn aelodau o'r Drysorfa.

Y mae yr adeg wedi dyfod unwaith eto i wneuthur yr adolygiad pum'-mlwyddol ar y Rheolau. Bwriada y Pwyllgor gychwyn gyda hyn yn fuan, fel ag i orphen y gorchwyl yn drwyadl erbyn Cymdeithasfa Gwanwyn 1890. Fe dderbynir pob awgrym oddiwrth yr aelodau neu y Cyfarfodydd Misol a'r Gymdeithasfa yn ddiolchgar, a rhoddir ystyriaeth briodol iddo.—WILLIAM EVANS, *Ysgrifenydd.*

Datganwyd boddhad wrth dderbyn yr Adroddiad uchod, a chyflwynwyd diolchgarwch y Gymdeithasfa i'r Parch. W. Evans, M.A., am ei ffyddlondeb parhaus fel Ysgrifenydd y Drysorfa.

Cymeradwywyd y penderfyniadau canlynol.—1. Fod y Gymdeithasfa yn diolch yn gynhes i holl swyddogion y Drysorfa am eu gofal ffyddlawn a llwyddiannus dros yr achos hwn y flwyddyn a aeth heibio.—2. Fod y Pwyllgor Gweithiol yn cael ei ail ddewis am y flwyddyn ddyfodol, sef y Parchn. Dr. Parry, T. Levi, Dr. Edwards, J. Bowen, E. P. Jones, B.D., a Ll. Edwards, M.A.; gyda Mri. R. J. Davies, U.H., James James, U.H., Evan Evans, D. C. Roberts, D. Lloyd, a R. Richards, B.A.—3. Fod y Gymdeithasfa yn llawenhau y galluogwyd y Pwyllgor i wneuthur ychwanegiad sylweddol at y gronfa y flwyddyn ddiweddaf, ac yn taer annog ein heglwysi cryfion, a'r cyfryw bersonau unigol ag y mae Rhagluniaeth wedi eu bendithio yn helaeth, i gofio am y Drysorfa, a chyfranu casgliadau a thanysgrifiadau at ei chyllid.—5. Dymunir gwasgu ar holl aelodau y Drysorfa y pwys iddynt dalu i fewn eu harian blynyddol i'r Drysorfa yn ddiffael cyn diwedd Mehefin, ac argymhellir i'w sylw yn galonog awgrym yr Adroddiad Blynyddol, ar fod pob un o honynt yn ceisio tanysgrifiad at y Drysorfa, yr hyn fyddai yn gyfnerthiad gwerthfawr i'w chyllid, ac yn gymhorth i ychwanegu yn flynyddol at y gronfa.

IV. Penodwyd un o bob Cyfarfod Misol yn bwyllgor i enwi nifer o frodyr i'w cyflwyno i Gyfarfod y Cynnrychiolwyr, i ethol o honynt rai at yr amcanion canynol :—1. I draddodi y Cynghor yn ngwasanaeth yr ordeinio yn Nghymdeithasfa Awst nesaf. 2. I draethu ar Natur Eglwys. 3. I fod yn Arholydd Cymdeithasfaol am ddwy flynedd.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod o'r Cynnrychiolwyr a'r Cyn-lywyddion i wneuthur yr Etholiadau.

Am 7 o'r gloch, Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa—(parhad).

V. Hysbyswyd fod (1) y Parch. D. C. Davies, M.A., wedi ei ethol i draddodi y Cynghor yn Nghymdeithasfa Awst nesaf; (2) y Parch. T. E. Thomas, Llanymddyfri, i draethu ar Natur Eglwys; a'r (3) Parch. W. James, M.A., Nantymoel, i fod yn Arholydd Cymdeithasfaol am ddwy flynedd.

VI. Daeth cais o Sir Gaerfyrddin am ordeinio Mr. T. R. Saunders, er nad oedd wedi pasio yr Arholiad Cymdeithasfaol. Rhoddwyd eglurhad ei bod yn anmhosibl iddo wneyd hyny, gan fod ei olygon ac anhwylder yn ei law yn ei analluogi i ysgrifenu. Penderfynwyd,—Fod y Gymdeithasfa, o dau yr amgylchiadau a nodwyd, yn ei dderbyn, ac yn ei gyflwyno i'w ordeinio.

VII. *Goruchwyliwr yr Ysgol Sabbothol.*—Penderfynwyd fod y cynnygiad am Oruchwyliwr Cyffredinol yn cael ei adael ar hyn o bryd. Ond rhoddwyd annogaethau cryfion gan y Parchn. T. Rees, D. Saunders, D.D., D. Williams, Trecastell; L. Jones, Pentre, ac eraill, i wneyd pob ymdrech i ddyrchafu yr Ysgol Sabbothol, a phenderfynwyd,—Ein bod yn anfon cenadwri gynhes at ein holl Gyfarfodydd Misol i gymeryd i fyny y llafur a nodir allan gan Bwyllgor y Gymanfa Gyffredinol, ac i annog yr Ysgolion i sefyll yr arholiadau blynyddol, ac i benodi y personau mwyaf cymhwys yn eu plith eu hunain i ofalu mewn modd arbenig am y sefydliad rhagorol hwn.—Ynglŷn â hyn hysbysodd y Parch. A. Davies am y Testament dwyieithawg, Cymraeg a Saesoneg, sydd yn cael ei gyhoeddi am 6c. gan y Fibl Gymdeithas, a rhoddwyd caniatad iddo i ddwyn y Testament hwn i sylw yn Nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa. Gwnaed hyny yn y cyfarfod un o'r gloch dydd Mercher.

DYDD MERCHER, YR 22AIN.

Am 9 o'r gloch, Cyfarfod y Blaenoriaid.

Am 10 o'r gloch, Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa—(parhad.)

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. John Owen, Bury Port.

Cyflwynwyd y Parch. T. C. Phillips, Plymouth, America, i'r Gymdeithasfa, gan

y Parch. T. E. Edwards, a gwnaed sylwadau croesawol pellach iddo gan y Parchn. T. Job, a D. Saunders, D.D., a rhoddwyd derbyniad cynhes iddo.

Yn benaf, er mwyn derbyn Adroddiad Pwyllgor Ad-drefniad Athrofa Trefecca, penderfynwyd yn unfrydol,—Fod yr eisteddiad presennol yn cael ei droi yn Gyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.

VIII. *Adroddiad yr Arholiad Cymdeithasfaol.*—Darllenwyd yr Adroddiad o'r Arholiad Cymdeithasfaol am 1888. [Ymddangosodd yr Adroddiad yn y Drysorfa am Ionawr, tu dal. 32.] Derbyniwyd yr Adroddiad, a chyflwynwyd diolchgarwch i'r Parch. G. Parry, D.D., yr hwn sydd yn myned allan o'i swydd, ac i gyfeillion Abertawe, am eu caredigrwydd yn croesawu yr Arholiad, ac am eu caredigrwydd dibrin i'r Ymgeiswyr a'r Arholwyr.

IX. *Adroddiad Pwyllgor Ad-drefniad Athrofa Trefecca.*—Cyfarfu y Pwyllgor hwn yn nghapel y Methodistiaid yn Llangadog, prydnawn dydd Llun a boreu Mawrth, Mai 20fed a'r 21ain, 1889. Etholwyd yn Gadeirydd Llywydd y Gymdeithasfa, ac Ysgrifenydd y Gymdeithasfa yn Ysgrifenydd y Pwyllgor. Galwyd enwau Cynnrychiolwyr o'r Cyfarfodydd Misol.

1. Darllenwyd llythyr oddiwrth Drysorydd yr Athrofa yn dadgan ei anallu i fod yn bresennol, ac yn gosod allan yn fanwl sefyllfa arianol y Cyllid, a'r hyn a ellid ddysgwyl oddiwrth y Gronfa fel cyllidau parhaus.

2. Darllenwyd yr Adroddiad canlynol o weithrediadau y Pwyllgor Neilldiol mewn cysylltiad âg Athrofa Trefecca, a derbyniwyd ef.

Report of the Trevecca College Committee, held at Swansea, on Friday, November 16th, 1888.—In deference to the wish of the late Rev. W. Howells, Principal of the College, the Committee was summoned to meet at the above place and date, and by the time the Committee met the melancholy news was received that the rev. gentleman had died that morning.—Mr. T. Phillips, J.P., was called upon to preside.—1. On the motion of the Chairman, it was unanimously passed that we express the sense of the great loss sustained by the Connexion in South Wales through the death of the Rev. W. Howells, and that we condole with his sons and relations in their bereavement. [This resolution was forwarded to the sons and an acknowledgment from them was received in due course.] 2. That the Rev. D. Charles Davies, M.A., Bangor, be invited to accept the Principalship of Trevecca College, which was unanimously and heartily passed. A Deputation, consisting of the Revs. E. Matthews, D. Saunders, D.D., G. Williams, W. Williams, T. Rees, D. Edwards, and T. Phillips, Esq., was appointed to meet Mr. Davies on Wednesday, November 21st, at Trevecca.—Thomas Phillips, *Chairman*; David Evans, *Secretary*. —The Deputation met Mr. Davies as appointed, and he kindly promised to undertake the duties of the position until the close of the present session, but postponed any further promise until the Spring Association.—David Evans, *Sec.*

Penderfynwyd, — Fod y Cyfeisteddfod hwn yn mawr gymeradwyo gwaith y Pwyllgor uchod a gyfarfu yn Abertawe, yn gwahodd y Parch. D. C. Davies, M.A., i ymgymeryd â Llywyddiaeth Athrofa Trefecca, a'n bod hefyd yn dadgan ein llawenydd dwfn fod Mr. Davies wedi ymgymeryd â'r gwaith dros y flwyddyn bresennol, yr hyn sydd wedi rhoddi boddlonrwydd cyffredinol i'r holl Gyfundeb yn y Deheudir.

4. Ein bod yn dymuno sicrhâu i Mr. Davies nad oes ond un farn ac un teimlad, a hwnw yn deimlad angerddol, gyda golwg ar y dymunoldeb ar iddo barhâu yn Llywydd yr Athrofa, a'n bod yn deisyf arno yn y modd mwyaf difrifol i gysegru ei oes i wasanaethu y Cyfundeb yn y swydd hon ag y mae wedi derbyn cyfaddasder neilldu-ol iddi.

5. Gohiriodd y Parch. D. C. Davies roddi ei atebiad nes cael gweled pa drefniadau pellach, gyda golwg ar yr Athrofa, a wnelid gan y Pwyllgor a chan y Gymdeithasfa.

6. Penderfynwyd,—Fod cwrs yr addysg yn Nhrefecca rhagllaw i gynnwys yr un materion ag yn y gorphenol, ond fod Duwinyddiaeth i gael lle mor arbenig ag y byddo modd yn ein Hathrofa.

7. Fod tri Athraw i fod yn Athrofa Trefecca yn y dyfodol.

8. Fod cyflog yr ail Athraw i fod yn £150 a'i dŷ, a chyflog y trydydd Athraw i fod yn £120 yn flynyddol.

9. Fod y Parch. E. Williams, M.A., i fod yn ail Athraw.

10. Yna cafwyd atebiad y Parch. D. C. Davies, M.A., i gais y Pwyllgor. Dywedai ei fod wedi dyfod i Drefecca, er fod cryn bryder yn ei feddwl o barthed i ddoethineb y symudiad, ond ar ol y prawf ydoedd wedi gael yno, ei fod ar y cyfan yn credu ei fod wedi gwneyd yr hyn oedd iawn; ac ar ol y trefniadau a wnaed eisoes gan y Pwyllgor, ei fod yn derbyn y gwahoddiad o ddyfod yn Llywydd yr Athrofa, os byddai y Gymdeithasfa yn eu cymeradwyo, ac yn ei dderbyn ef yn rheolaidd.

11. Penderfynwyd gyda brwdfrydedd,—Ein bod yn dadgan ein llawenydd digymysg oblegid fod y Parch. D. C. Davies, M.A., wedi cydsynio â chais y Cyfeisteddfod, ac yn addaw parhâu yn Llywydd yr Athrofa am y dyfodol, a'n bod yn dymuno iddo ef ac i'r sefydliad sydd dan ei ofal, nawdd a bendith y Duw ag sydd wedi llwyddo ein Cyfundeb mor fawr hyd yn hyn.

12. *Darpariadau i ddewis y Trydydd Athraw:* — (1.) Penderfynwyd,— Fod Is-Bwyllgor i gael ei ethol i weithredu mewn cysylltiad â'r Athrawon (*a*) i dynu allan gyfres o'r materion ddysgwylir i'r trydydd Athraw eu dysgu, fel y byddo yn cael ei chyhoeddi yn y Cylchlythyr; (*b*) i dderbyn appeliadau am y swydd; ac (*c*) os gwelant hyny yn ddoeth, i enwi person neu bersonau a ystyriant hwy eu hunain yn addas i'r swydd; ac (*d*) i wneyd ymchwiliad i gymhwysderau yr ymgeiswyr; ac (*e*) i ddethol person neu bersonau i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa.—(2.) Fod y personau canlynol i gyfansoddi y pwyllgor:—Mri. T.

Phillips, U.H., Abertawe; T. Harris, U.H., Llechryd; J. Protheroe, U.H., Aberhonddu; y Parchn. D. C. Davies, M.A, E. Williams, M.A., T. James, M.A., D. Saunders, D.D., G. Phillips, E. Matthews, D. Edwards, T. Rees, Cefn; T. Levi, D. Evans, B.A., Whitchurch; T. M. Green, W. James, Aberdâr. Yr olaf i fod yn gynnullydd.—(3.) Fod y Pwyllgor i gyflwyno Adroddiad i Gymdeithasfa Awst nesaf, a bod yr ymgeiswyr a enwir gan y Pwyllgor i ymddangos ger bron y Gymdeithasfa hono.

X. *Derbyn a chadarnhâu Adroddiad y Pwyllgor:*—Ar ol cryn ymddyddan, penderfynwyd yn unfrydol, fod Adroddiad y Pwyllgor yn cael ei dderbyn a'i gadarnhâu.

XI. *Hysbysiad.*—Dymunir hysbysu mai y materion y gofynir i'r Trydydd Athraw eu dysgu ydynt, *English, Mathematics and Classics*, a bod y cynnygion am y swydd i'w hanfon i Gynnullydd y Pwyllgor ar neu cyn y dydd diweddaf o fis Gorphenaf nesaf. Cyfeirier,—Rev. W. James, Clifton Villa, Aberdare.

XII. *Darllen a chadarnhâu holl benderfyniadau y Cyfeisteddfod.*—Bu cryn ymddyddan ar y penderfyniad i ordeinio brawd nad oedd wedi pasio yr Arholiad Cymdeithasfaol, ond yn y diwedd cydsyniwyd i'w gymeradwyo, a phenderfynwyd,—Ein bod yn derbyn ac yn cadarnhâu holl benderfyniadau Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa.

Galwodd y Parch. T. Davies, Abertawe, sylw at y priodoldeb o ddeisebu y Senedd o blaid y Mesur sydd yn awr o flaen Tŷ y Cyffredin yn cynnyg Cau y Tafarndai ar Ddydd yr Arglwydd yn Lloegr, a phenderfynwyd,—Fod y Parchn. T. Davies a T. M. Green i dynu allan ddeiseb ar hyn i'w chyflwyno yn y cyfarfod un o'r gloch.

Diweddwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Am 1 o'r gloch, Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa (parhâd).

Dechreuwyd yn y drefn arferol gan y Parch. L. Jones, Pentre.

XIII. *Adroddiad Cyfarfod y Blaenoriaid.*—Darllenwyd yr Adroddiad canlynol o Gyfarfod y Blaenoriaid, a phenderfynwyd ei dderbyn a'i gymeradwyo.

1. *Y Brodyr i'w Hordeinio.*—Penderfynwyd,—Fod y brodyr canlynol, 22 mewn nifer, sydd wedi myned trwy yr Arholiad Cymdeithasfaol yn llwyddiannus, yn cael eu cymeradwyo i'w hordeinio yn Nghymdeithasfa Awst nesaf. Gogledd Aberteifi:—Mr. Abraham Oliver. Dehau Aberteifi:—Mri. David Lloyd, Salem; John Thomas Evans, Llandyssul; a Thomas Evans, Tanygroes. Sir Benfro:—Mr. Peter Morse, Pendine. Sir Gaerfyrddin:—Mr. W. P. Jones, Llanddeusant; Mr. T. R. Saunders, trwy awdurdod y Gymdeithasfa. Gorllewin Morganwg:—Mri. Benjamin Morris, gynt o Landwr; Benjamin T. Jones, gynt o Briton Ferry; a John Morgan, Abercynffig. Dwyrain Morganwg:—Mri. Walter Daniel, Penmark; Lewis Lewis, Heolfach; David Morgan, Fochriw; ac Evan C. Evans, Treforest. Sir Fynwy; Mri. William Jones, Varteg; T. W. Jones, Cendl; Morgan Davies, Risca; a B. Ceitho Davies, Nazareth. Sir Frycheiniog:—Mr. D. Davies, Defynog. Henaduriaeth:—Mri. J. Jenkins, M. J. Mills, ac E. Rowlands.—2. Penderfynwyd,—"Fod Cyfarfod y Blaenoriaid yn dymuno dadgan eu tristwch o herwydd y golled i'n Cyfundeb trwy farwolaeth Mr. James Davies, U.H., Cwmafon, yn neillduol am ei fod yn Ysgrifenydd y Cyfarfod hwn pan y bu farw, yn Gadeirydd y Cyfarfod yn y Gymdeithasfa ddiweddaf ac ar adegau blaenorol, a'i fod yn ffyddlawn yn dilyn y Cymanfaoedd ac yn holl waith a symudiadau y Cyfundeb."—3. Cafwyd sylwadau cynnwysfawr gan y Cadeirydd (Mr. W. Griffiths) fel agoriad i'r pwnc ymddyddan y cytunwyd arno yn y Gymdeithasfa ddiweddaf, sef "Swydd Frenincl Crist." Dilynwyd hyn gan sylwadau rhagorol ar y mater gan amryw o frodyr, a chytunwyd fod yr un pwnc i fod dan sylw yn y Gymanfa nesaf.—4. Penderfynwyd,—"Fod Llyfr Cofnodion newydd i'r Cyfarfod i gael ei bwrcasu erbyn y Gymdeithasfa nesaf."—5. Penderfynwyd,—"Fod dymuniad ar i'r Ysgrifenydd am y tro barhau yn y swydd am y flwyddyn bresennol."—WILLIAM GRIFFITHS, *Cadeirydd;* WILLIAM JONES, *Ysgrifenydd.*

XIV. *Cau y Tafarndai ar y Sabboth.*—Mabwysiadwyd y penderfyniad canlynol a dynwyd allan gan y Parchn. W. Evans, M.A., a T. M. Green:—

At the Association of the Calvinistic Methodists of South Wales and Monmouthshire, held at Llangadog, in the County of Carmarthen, on the 21st—23rd of May, 1889, it was unanimously resolved that it is the strong conviction of this Association that the Welsh Sunday Closing Act has been a great blessing to the Principality, though its success has been interfered with, and no doubt much hindered, by the abuse of the *Bona Fide* Traveller Clause; and the Association is also convinced that the Congregations it represents in all parts of South Wales unanimously desire that the Act be continued and made more stringent. Moreover, this Association rejoices that a Royal Commission has been appointed to investigate into the operations of the Act, and fully believes the result will satisfy the Commissioners and the country that the Act is fully in accord with the sentiments of the Nation at large, and that every means should be used to make it completely successful.—G. PHILLIPS, *Chairman;* W. JAMES, *Secretary.*

XV. *Deiseb i'r Senedd.*—Penderfynwyd ein bod yn anfon y ddeiseb ganlynol i'r Senedd, ar gais y Gymdeithasfa, a dynwyd allan gan y Parchn. Cadben Davies a T. M. Green:—

To the Honourable the Members of the Commons House of Parliament assembled.

"The Petition of the Association of Welsh Calvinistic Methodists of South Wales, representing 528 Churches, and 118,482 Members and Adherents, assembled at Llangadock, May 21st, 22nd, 23rd, 1889, sheweth.

"That it is our strong conviction that the Welsh Sunday Closing Act has been a great boon to the Principality of Wales, but its efficiency has been considerably marred by the facilities afforded for obtaining intoxicating drinks on the borders between England and Wales, through the non-application of that Act to England.

"Your Petitioners would, therefore, respectfully but earnestly pray your Honourable House to pass the Bill now before Par-

liament for Closing Public Houses in England on Sundays.

"And your Petitioners will ever pray.

G. PHILLIPS, *Chairman.*
W. JAMES, *Secretary.*

Anfonwyd y penderfyniad a'r ddeiseb i'r Prif Weinidog, a'r ddeiseb yn unig i Mr. D. Pugh, A.S. Wele yn canlyn eu hatebion hwy. Anfonwyd copïau hefyd i'r Ysgrifenydd Cartrefol, Mr. W. E. Gladstone a'r Aelodau Cymreig:—

"27th May, 1889.

"Sir,—I am directed by the Marquis of Salisbury to acknowledge the receipt of your letter of the 25th inst., enclosing the copy of a Petition addressed to the House of Commons from the Calvinistic Methodist Association, at Llangadock, and also a Resolution which was passed at the same Meeting in favour of the Welsh Sunday Closing Bill. —I remain, faithfully yours,

SIDNEY GREVILE."

W. James, Esq.

"May 30th, 1889.

"Dear Sir,—I have received the Petition of the Calvinistic Methodist Association in South Wales in favour of the Sunday Closing of Public Houses in England, and I have presented it to the House of Commons, and its presentation is recorded in the *Times*.—

Yours very truly, D. PUGH.

Rev. W. James, Secretary.

XVI. Cafwyd hanes yr Achos yn y Sir gan y Parchn. T. Job, T. E. Thomas, a W. Richards.

Cafwyd sylwadau coffadwriaethol ar ol y Parch. W. Prytherch, gan y Parch. D. Williams, Caio. Gohiriwyd gwneyd sylwadau ar y brodyr eraill hyd drannoeth, o herwydd fod yr amser ar ben. Terfynwyd trwy weddi.

DYDD IAU, Y 23AIN.

Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa (parhad) am 8 o'r gloch.

Dechreuwyd gan y Parch. J. Bowen, Pontrhydfendigaid.

XVII. *Lle ac Amser y Gymdeithasfa nesaf.*—Penderfynwyd fod y Gymdeithasfa nesaf i'w chynnal yn yr Hall, Sir Benfro, Llun, Mawrth a Mercher, Mehefin 17eg, 18fed a'r 19eg. Y cyfarfod cyntaf i ddechreu am saith o'r gloch, nos Lun, yr 17eg. Bydd cerbydau i gludo y cynnrychiolwyr yn cyfarfod y *train* sydd i fod yn ngorsaf Hwlffordd am 3 51 o'r gloch prydnawn Llun.

XVIII. Penderfynwyd fod y Parchn. D. Edwards, Casnewydd; T. Davies, Abertawe; Mri. T. Phillips, U.H., Abertawe; R. J. Davies, U.H., Cwrtmawr, i'n cynnrychioli fel Cyfundeb, ac i roddi tystiolaeth drosom o flaen y Ddirprwyaeth Freiniol, ar Gau y Tafarnau ar y Sabboth, sydd i eistedd yn fuan.

XIX. *Cydymdeimlad á Brodyr Cystuddiol.*—Penderfynwyd, Fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyrau yn cyflwyno cofion a chydymdeimlad y Gymdeithasfa i'r brodyr canlynol mewn cystudd:—Y Parchn. E. Matthews; D. James, Llaneurwg; J. Powell, Brynmawr; D. Phillips, Pontardulais; E. Jones, Pentwyn; W. Morris, Llandudoch; a D. Morgan, Llandilo.

XX. *Coffád am Frodyr ymadawedig.*—Gwnaed sylwadau tra theimladwy ar ymadawiad y brodyr a fuont feirw er y Gymdeithasfa o'r blaen, a'r golled a gafodd y Cyfundeb yn eu marwolaeth, yn y drefn ganlynol:—Ar ol y Parch. J. Williams, Risca, gan y Parchn. T. C. Phillips, Abercarn, ac Alderman A. Davies, Rhymni; y Parch. W. Howells, diweddar Brifathraw Trefecca, gan y Parch. T. Rees, Cefn; y Parch. J. Thomas, Carno, gan y Parch. D. Saunders, D.D.; y Parch. W. H. Williams, Ystradgynlais, gan y Parch. L. Jones, Pentre; y Parch. W. E. Harries, Goppa, gan y Parch. D. M. Davies, Penclawdd; Mr. J. Davies, U.H., Cwmafon, gan y Parch. T. E. Edwards, Cwmafon. Gwnaed sylwadau y dydd blaenorol ar ol y Parch. W. Prytherch, gan y Parch. D. Williams, Caio. Penderfynwyd fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyrau yn cyfleu cydymdeimlad dyfnaf y Gymdeithasfa i berthynasau y brodyr ymadawedig.

XXI. Cafwyd anerchiad gan y Parch. T. C. Phillips, Plymouth, America, a therfynodd y cyfarfod trwy weddi.

W. JAMES, *Ysgrifenydd.*

Y GYMANFA GYFFREDINOL, LLANGOLLEN.

MAI 14, 15, a'r 16eg, 1889.

Llywydd:—Y Parchedig G. PARRY, D.D., Aberystwyth.

Ysgrifenyddion:—Y Parchn. JOHN DAVIES, Pandy, ac EVAN JONES, Caernarfon.

EISTEDDIAD CYNTAF Y GYMANFA.

Nos Fawrth, Mai 14eg, am 6 o'r Gloch.

I. Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parchedig George Williams, Llysyfran.

II. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr ac aelodau eraill y Gymanfa.

III. Penodwyd y Pwyllgorau canlynol:—Pwyllgor y Cenadwriaethau: Y Llywydd; y Cyn-Lywyddion; y ddau Ysgrifenydd; Meistri R. Jones, U.H., Pwllheli; E. Davies, Taibach; D. Roberts, Rhyd, Beaumaris; J. Parry, Bwlch; Peter Roberts, Llanelwy; James James, U.H., Ffynnonhywel.—Pwyllgor Arianol:—Meistri R. Rowland, U.H., Pwllheli; D. Evans, U.H., Bodringallt; J. Griffith, Egremont; D. Jenkin Davies, U.H., Aberystwyth; J. Herbert Lewis, U.H., Liverpool; W. Griffith, Rock; T. P. Lewis, A.S., Bangor; H. Evans, Caerfarchell; Richard Mills, Llanidloes; T. Morgan, U.H., Cydweli; R. Jones, Bethesda, Ffestiniog; a Thrysorydd y Gymanfa.—Pwyllgor y Dirprwyaethau:—Y Parchn. W. James, B.A., Manches-

ter; D. C. Edwards, M.A., Merthyr; D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam; W. James, Aberdar; T. J. Wheldon, B.A., Ffestiniog; George Williams, Llysyfran; Meistri E. P. Jones, Rhyl; T. Phillips, U.H., Abertawy; B. Williams, Tredegar; J. Jones, U.H., Llanfyllin; D. Jenkins, Trecastell; ac E. R. James, Trefaldwyn.

IV. Etholwyd y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor, yn Llywydd y Gymanfa am y flwyddyn ddyfodol.

V. Etholwyd y Parch. David Evans, B.A., Whitchurch, yn Ysgrifenydd am y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol.

VI. Trefnwyd fod y Gymanfa Gyffredinol nesaf i'w chynnal yn Liverpool, yr wythnos o flaen y Sulgwyn

VII. Wedi taflu y drysau yn agored i holl aelodau y Cyfundeb, traddodwyd anerchiad dyddorol a thra gwerthfawr gan y Cynlywydd, y Parch. Owen Thomas, D.D. Galwyd sylw at y nodweddion neilduol a berthynai i ni fel Cyfundeb o'r dechreu. Dywedai fod nifer fechan o Ymneilduwyr yn Nê a Gogledd Cymru cyn cyfodiad y Methodistiaid. Galwodd sylw at nifer ein capelau, aelodau ein Hysgolion Sabbothol, a'n Cymunwyr, yn ol yr Ystadegau diweddaf. Llawenhâi yn fawr yn ein llwyddiant yn Nghymru ac ar Fryniau Khasia. 1. Dangosai mai un o nodweddion arbenig yr hen Fethodistiaid "oedd dwysder a difrifwch dwfn ynghylch eu hachos tragywyddol eu hunain, ac ymgysegriad llwyr i wasanaeth eu Harglwydd. Yr oedd yr hen grefyddwyr wedi profi yr efengyl yn 'allu Duw' yn eu heneidiau. Yr oedd y gwirioneddau am y byd a ddaw, a'r farn a fydd, wedi cymeryd meddiant hollol o'u meddyliau." Ofnai golli y dwysder a'r difrifwch a'u meddiannai hwy. 2. Y gwerth a roddent ar foddion gras ac ordinhadau crefydd, a'r dyfalwch a ddangosent yn yr ymarferiad â hwy. 3. Bywiogrwydd a gwresogrwydd eu teimladau yn yr addoliad Dwyfol. Byddai yr hen bobl weithiau yn colli pob meddiant arnynt eu hunain o dan ddylanwad yr efengyl. 4. Ymosodiad penderfynol yn erbyn pechodau eu gwlad a llygredigaethau eu hoes. Ymwelent â ffeiriau a gwylmabsantau y wlad, a phregethent i'r bobl oedd ynghyd, a bu eu gweinidogaeth mewn llecedd o'r fath yn foddion i achub eneidiau lawer. Yn olaf, Yr oedd awydd angherddol am iachawdwriaeth eraill, ac awydd am ledaenu achos Mab Duw, yn un o nodweddion arbenig yr hen Fethodistiaid. Gobeithiai ein bod yn dal gafael yn y nodweddion a enwodd, a pha beth bynag a ennillwn, na chollwn yr hyn a nodweddai ein tadau.

VIII. Cyflwynodd y Cyn-Lywydd y Gadair i'w olynydd, y Parch. Griffith Parry, D.D.

IX. Penderfynwyd,—Fod diolchgarwch cynhes y Gymanfa yn cael ei roddi i'r Parch. Owen Thomas, D.D., am lywyddu mor fedrus y flwyddyn ddiweddaf, ac am ei anerchiad rhagorol, gyda dymuniad am iddo gael ei argraffu.

X. Penderfynwyd yn unfrydol,—Fod diolchgarwch gwresog y Gymanfa yn cael ei gyflwyno i'r Parch. W. R. Jones, Caergybi, am ei ddeheurwydd a'i ffyddlondeb yn cyflawni ei swydd fel Ysgrifenydd am y flwyddyn ddiweddaf.

Terfynwyd yr Eisteddiad trwy weddi gan y Parch. John Williams, Rhyl.

Ail Eisteddiad y Gymanfa.

Am 9 o'r gloch, dydd Mercher, Mai 15fed.

XI. Ar ddechreu yr eisteddiad hwn gweinyddwyd yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.

Dechreuwyd trwy ddarlleu a gweddïo gan y Parch. D. Saunders, D.D., Abertawe; arweiniwyd yn y gwasanaeth dylynol gan y Parch. Owen Thomas, D.D.; rhanwyd yr elfenau gan y Parchn. Griffith Parry, D.D., Principal T. C. Edwards, D.D., John Williams, Rhyl; a W. James, B.A., Manchester; a therfynwyd y gwasanaeth trwy weddi gan y Parch. John Hughes, D.D., Caernarfon.

XII. Darllenwyd Cofnodau Eisteddiad cyntaf y Gymanfa, a chadarnhäwyd hwynt.

XIII. Achosion y Genadaeth Dramor.

Cyflwynwyd i'r Gymanfa Adroddiad y Cyfeisteddfod Gweithiol o Weithrediadau y Gymdeithas Genadol Dramor gan yr Ysgrifenydd, y Parch. Josiah Thomas, M.A.

Dangosai yr Adroddiad fod llwyddiant sydd yn dra chalonogol wedi bod ar y gwaith yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, yn enwedig yn Khasia a Jaintia. Mae y brodyr sydd yn ein cynnrychioli yn Llydaw, sef y Parch. W. Jenkyn Jones, Mr. E. Jones, a La Groignec, yn llafurio yn gyson ac yn gydwybodol, ac yn gwneyd hyny yn ol dull y penderfynwyd arno gan y Cyfarwyddwyr a'r Gymanfa pan yn ail sefydlu y Genadaeth yno, sef 1, trwy ofalu fod eu llafur, nid yn unig yn llafur gweinidogaethol ymysg Protestaniaid proffesedig, ond yn llafur cenadol ymysg y Llydawiaid; 2, trwy gynnal cyfarfodydd mewn pentrefi yn y wlad, ac nid yn y trefi mawrion lle y mae y Ffrancaeg yn cael ei harfer yn benaf. Mae y Cenadon eu hunain yn dra hyderus am lwyddiant, a chyfeiriant at rai arwyddion—dau yn Douarnenez wedi ymuno â Phrotestaniaeth, dau neu dri yn Pont l'Abbe ar fin gwneyd hyny; gwragedd yn rhoddi eu presennoldeb yn y cyfarfodydd crefyddol, y bobl yn fwy astud yn y cyfarfodydd—Ysgol Sabbothol wedi ei sefydlu yn Pen ar Bont—Protestaniaid Quimper yn cymeryd rhan o gyfrifoldeb y gwaith.

Yn India yr oedd y llwyddiant yn amlwg. Wedi rhoddi rhestr o enwau y cenadon a'r pregethwyr, dangosid fod nifer y lleoedd pregethu yn Khasia a Jaintia yn 136, yr hyn sydd yn fwy o 17 nag oedd y nifer ddiweddaf y flwyddyn flaenorol. Nifer y cymunwyr yn 1595; cynnydd o 266. Bedyddiwyd 567 y flwyddyn ddiweddaf, 261 o honynt mewn oed. Derbyniwyd 854 i'r eglwys ar brawf; derbyniwyd 294 yn gyflawn aelodau; bu farw 103; gwrthgiliodd 78; diarddelwyd 102. Mae nifer yr oll sydd yn yr eglwys, a chyfrif cymunwyr, ymgeiswyr, a phlant, yn bum mil, cant a phedwar ar ddeg ar hugain (5134), cynnydd o saith cant a thri ar ddeg ar hugain (733). Fe welir fod tri chant naw deg ac un o athrawon ac athrawesau yn yr Ysgolion Sabbothol, cynnydd o 7. Mae y nifer sydd yn yr Ysgolion Sabbothol yn saith mil, dau gant, naw deg a phedwar (7294), cynnydd yn ystod y flwyddyn

o un fil, tri chant, naw deg a phump (1395). Mae y gwrandawyr yn rhifo wyth mil a phedwar ugain (8080), cynnydd o 1581. Nifer yr ysgolheigion dyddiol yw pedair mil, cant, naw deg a saith (4197), cynnydd o 364. Mae cyfanswm y casgliadau yn yr India yn £769 11s. 9c.; cynnwysa y swm hwn gyfraniadau y Cristionogion yn Cherra tuag at helaethu eu capel, a chyfraniadau y Cristionogion yn Jaintia tuag at yr Ysbytty yn Jiwai. Mae 33 yn yr Adran Athrawol o'r Ysgol Normalaidd; llwyddodd 18 i ennill *Government Teachership Certificates* y flwyddyn ddiweddaf. Yr oedd chwech o efrydwyr yn y Sefydliad Duwinyddol, a dangosai adroddiad yr Arholwyr, sef y Parchn. Daniel Rowlands, M.A., Bangor, a William Evans, M.A., Pembroke Dock, fod pedwar o honynt wedi cyrhaedd safle anrhydeddus yn yr Arholiad. Yr oedd yn ymddangos fod y Genadaeth Feddygol yn Mawphlang a'r un a sefydlwyd yn ddiweddar yn Jiwai yn myned rhagddynt yn dra boddhaol. Bu 1743 o gleifion, 643 o honynt yn baganiaid, yn ymweled â'r *Dispensary* yn Mawphlang; a'r rhai hyny o 93 o wahanol bentrefi, a 34 o'r pentrefi heb ysgolion ynddynt; gwnaeth y cleifion hyn 6596 o ymweliadau â'r *Dispensary*. Gwnaed 4889 o ymweliadau gan gleifion â'r Cenadwr meddygol yn Jiwai, a gwnaeth yntau 1941 o ymweliadau. Yr oedd y brodorion yn Jaintia wedi dangos eu gwerthfawrogiad o'r Genadaeth Feddygol trwy gyfranu 2000 *rupees* tuag at yr Ysbytty newydd yn Jiwai. Yn ychwanegol, mae yn Sylhet 25 yn yr eglwys, 70 yn yr Ysgol Sabbothol, 70 o wrandawyr, a 32 o enethod yn yr Ysgol Ddyddiol.

Hysbysai y Cyfeisteddfod Gweithiol fod y cyfeillion yn Patagonia yn parhau i erfyn am frawd i fyned yno fel gweinidog, ac fod y gwladfäwyr erbyn hyn yn teimlo yn fwy galluog i gyfranu tuag at ei gynnaliaeth.

(I'w barhau.)

Lloffion.

GWYNEBAU.

Y MAE rhai gwynebau, hyd yn nod yn adfeiliad henaint, yn gallu edrych yn brydferth gan lawenydd, ac yn sicrhâd i'r byd fod eu perchenogion wedi byw bywyd ardderchog, a'u bod o hyd yn cadw purdeb calon. Ar wely cystudd y mae gwên y sant yn fwyaf prydferth, ac edrychiad y pechadur anedifeiriol galetaf.

LLE HUNAN-GARIAD MEWN CREFYDD.

Y MAE y rhan fwyaf o grefydd dynolryw yn dechreu yn yr hyn y gellir edrych arno fel hunan-les, ac wedi hyny trawsffurfir ef i gariad. Y mae bywyd yn dechreu mewn chwant bwyd ac anghenion ereill. Swp o anghenion awdurdodol a pharhaus yw y baban. Nid yw yn caru neb, nis gall garu. A all rhywbeth fod yn fwy hunangar na chri y plentyn sydd yn llefain am faeth a chysur, heb ofalu dim o ba le y deuant? Ond a all dim fod yn fwy an-hunangar na'r cariad sydd o'r diwedd yn cyfodi yn yr enaid? Y cariad sydd yn gwneyd enw mam yr enw melusaf ac anwylaf ar y ddaear, cariad a hwylia dros foroedd, nas gall pellder ei oeri, ac a deimla nad yw unrhyw ddagrau yn ormod i'w tywallt ar y bedd lle y gorphwys hi mewn heddwch. Nis gallwn ddechreu ein bywyd crefyddol yn y pwynt uwchaf, na chyda'r cymhelliadau uwchaf, mwy na'n bywyd naturiol—MELLOR.

GEIRIAU Y DOETHION.

PRYDFERTHWCH yw rhinwedd yn blodeuo. Dyn yw y planigyn ardderchog hwnw, sydd yn tyfu, fel y palmwydd, oddifewn tuag allan.

Y mae Duw yn hoffi ein neilluoli bob dydd, a chuddio oddiwrthym yr amser a aeth heibio a'r amser a ddaw.

Yr hwn a'm twylla unwaith, cywilydd iddo ef; yr hwn a'm twylla ddwywaith, cywilydd i mi.

Y mae yn bosibl prynu aur yn rhy ddrud.

Yr un nad yw yn gwybod dim, nid yw yn ammheu dim.

Cronicl Cenadol.

Llydaw.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. W. JENKYN JONES.

10, Rue de la Halle, Quimper,
Mehefin 10fed, 1889.

DIAU mai hyfryd iawn fydd gan ein darllenwyr weled yr hanes a roddir gan Mr. Jenkyn Jones am y cyfarfodydd a gynnaliwyd yn Quimper. Maent yn wahanol i ddim a gafwyd o'r blaen yn hanes ein Cenadaeth yn y wlad hono.

PENTECOST.

"Meddyliaf nas gallaf wneyd dim yn well heddyw na chyfyngu fy llythyr at yr hyn a welsom ac a deimlasom yma yn Quimper Sul y Pentecost. Bu y Sabbath i ni yn un o'r dyddiau hapusaf yn ein hoes, ac yn sicr rhydd adroddiad byr lawenydd i galonau llawer yn Nghymru.

Dechreuai y cyfarfod yn y capel am un ar ddeg. Yr oedd uwchlaw hanner cant yn bresennol. Ni welais erioed o'r blaen gynnulleidfa mor fawr *yn y capel*, oddieithr mewn angladdau. Yr oedd y meinciau wedi eu rhwydd lenwi, ac nid oedd ond ychydig o le gwag wedi ei adael. Yr oedd yno gyfeillion o Pont l'Abbé a Douarnenez, ac eraill o Concarneau. Ni chawsom ein gadael ychwaith heb wyneb ein Harglwydd gyda ni, a thystiai y dagrau ar ruddiau amryw fod Ysbryd Duw yn llefaru tangnefedd i'w heneidiau. Pregethwyd oddiar y geiriau, "A chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glân . . . ac a fyddwch dystion i mi," &c. (Actau i. 8); a chredaf fod yno lawer yn ocheneidio tuag i fyny am dy-

walltiad helaeth o'r Ysbryd ar yr eglwys ac ar Lydaw.

Gweinyddwyd y Sacrament ar ddiwedd y gwasanaeth. Amgylchynwyd y bwrdd gan oddeutu tri dwsin o frodyr a chwïorydd, ac yr oedd amryw o Babyddion yn edrych arnom yn cofio angeu y groes, ac yn gwledda wrth ganu emyn nas gallai lai na thoddi ein calonau. Yr oedd wrth y bwrdd amryw a ddaethant drosodd at Brotestaniaeth er ys amryw flynyddoedd; dau bysgotwr o Douarnenez ymunodd â hi y llynedd, un ferch ieuanc o Quimper, a'r Biblgludydd o Pont l'Abbé ddaethant drosodd hefyd y llynedd; a dau o Pont l'Abbé oeddynt yn uno â ni wrth y bwrdd am y tro cyntaf erioed, ac a dystient ar ddiwedd y cyfarfod mai dyma un o'r dyddiau hapusaf yn eu hoes. Diweddwyd y cyfarfod trwy weddi gan un o'r Biblgludwyr.

Yn y prydnawn, am dri, cawsom gyfarfod yn yr ystafell lle y cynnelir ein cyfarfodydd *poblogaidd*. Dyma y cyfarfod cyntaf o'r fath i ni ei gael erioed yma, a chredaf y buasai llawer o'n cyfeillion yn Nghymru yn cynhesu pe buasent yn ein plith. Ar ol darllen rhan o'r ddegfed bennod o Ioan, a gweddïo am bresennoldeb yr Ysbryd yn ein plith, rhoddwyd gwahoddiad i unrhyw un a deimlai awydd i ddyweyd ei deimlad yn rhydd. Ar ol i un ddechre, nid oedd unrhyw anhawsder i gael gan y brodyr i siarad, ac ni fu y chwïorydd ychwaith yn fud; amlygent oll y llawenydd oedd crefydd Iesu Grist yn ei roddi iddynt. Dywedai un pysgotwr am yr anhawsderau oeddynt yn eu cyfarfod yn wastad, ac am y gwawd a deflid ar y rhuban glas oeddynt yn ei wisgo; ac eto ei deimlad ydoedd mai "mwy llawenydd a roddaist yn fy nghalon na'r amser yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt." Ychwanegai fod y gwrthwynebiad yn lleihau: "Pan y dechreuais y tymmor pysgota diweddaf yr oedd yr holl ddwylaw, oddeutu wyth o honynt, yn fy erbyn i, ond cyn terfyn y tymmor yr oeddynt oll yn gorfod cyfaddef mai fi oedd yn yr iawn." Amlygai yr henafgwr o Pont l'Abbé, oedd wedi cymuno gyda ni am y tro cyntaf y boreu hwnw, ei deimlad o hapusrwydd yn ein mysg, a'i ofid na buasai wedi dyfod yn gynt i fwynhau rhyddid gogoneddus plant Duw. Gofidiai yr hen wraig o Pont l'Abbé hithau hefyd ei bod wedi myned mor hen cyn dechre ar yr yrfa ysbrydol. Yna rhoddodd brawd y cwestiwn, "Ai tybed y byddwn ni yn adnabod ein gilydd yn y nefoedd?" Yr oedd cymundeb y saint yma yn rhoddi awydd arnynt i wybod rhywbeth am y cymundeb yr ochr draw. Ar ol canu emyn am y nefoedd, gweddïwyd en ddwys gan ddyn ieuanc, nad agorasai ei enau yn gyhoeddus erioed o'r blaen, a dilynwyd ef mewn gweddi gan un o'r Biblgludwyr. Ail ddechreuwyd yr ymddyddan gan un o'r pysgotwyr, a amlygai ei ofid na buasai wedi cael cyfleusdra i adnabod y gwirioneddau ugain mlynedd yn ol, cyn dwyn y plant i fyny; ond "erbyn hyn," meddai, "y mae rhai o honynt yn rhieni plant eu hunain;" a chyda gwên ychwanegai, "Nid wyf yn anobeithio gweled y wraig acw a'r teulu oll yn cofleidio yr efengyl." Aeth yr ymddyddan ymlaen. Sylwai Mr. Groignec yn neillduol ar y gair "tystion" yn nhestun y bregeth y boreu hwnw; ychwanegwyd ychydig eiriau ar yr anghenrheidrwydd i wylio ar ein hysbrydoedd, a pheidio anghofio cynghor yr Apostol Paul, "Bydded eich hymadrodd bob amser yn rasol, wedi ei dymheru â halen, fel y gwypoch pa fodd y mae yn rhaid i chwi ateb i bob dyn." Chwi welwch mai ysbryd cenadol sydd yn meddiannu y bobl yma wedi cael gafael ar y gwirionedd, a'u bod fel y wraig o Samaria yn awyddu dwyn eraill at yr Iesu; a theimlent oll ar derfyn y cyfarfod fod yr ysbryd yna wedi cryfhau ynddynt.

Teimlwn ni yma yn hapus; y mae Duw yn dechre gwenu arnom, a gallwn fod yn hyderus wrth edrych i'r dyfodol. Nid ydym er ys troion yn cael agosâu at fwrdd y cymun na bydd rhywun o'r newydd yn dymuno cael y fraint o ymuno â ni. Pa bryd y gwelwyd yn hanes y Genadaeth yn y wlad hon y fath arwyddion am lwyddiant? Y mae yma Lydawiaid bellach sydd yn ocheneidio am lwyddiant, ac yn llafurio hefyd dros Grist. Fechgyn a merched ieuainc Cymru, ïe, a phawb o bob oedran sydd yn caru yr Iesu, gweddïwch am i ni gael y nerth oddiuchod.

Yr hwyr, am wyth o'r gloch, yr oedd genym gyfarfod drachefn yn yr un ystafell, ac yr oedd yno gynnulleidfa o driugain neu ragor. Siaradwyd yn fyr gan y Biblgludydd sydd yma. Y mae ef o wasanaeth mawr i mi, ac y mae bellach er ys rhai misoedd yn arfer cymeryd rhan yn ein cyfarfodydd. Y mae ei eiriau gonest yn cario argyhoeddiad i feddwl y gwrandawyr ei fod ef yn credu â'i holl galon yn efengyl Mab Duw. Ar ei ol siaredais innau ar ymddyddan yr Iesu â'r wraig o Samaria. Er fod llawer o bethau eraill yn gwahodd y bobl yn ystod misoedd yr haf, y mae ein cynnulleidfaoedd yma yn dal i fyny yn llawer gwell na'n dysgwyliad hyd yn hyn. Dywedai un wrth ddychwelyd o'r cyfarfod ei fod yn gwybod mwy am ysbryd ac amcan Cristionogaeth drwy fod mewn un o'r cyfarfodydd nag oedd wedi ei ddysgu yn ystod ei oes wrth wrando ar yr offeiriaid."

Brythau Khasia.

DOSBARTH SHELLA.

TAITH I MARAM.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. J. CEREDIG EVANS.

Cherrapoonjee, Mai 1af, 1889.

RHYW bythefnos yn ol aethum am daith gyda Mr. W. Williams i Maram, gwlad eang yn gorwedd i gyfeiriad machlud haul oddiyma. Fel y gwyddoch, nid oes ond ychydig

er pan ddechreuwyd gwaith Cenadol yn y rhanbarth hono, ac yr oedd yn dda genyf gael cyfleusdra i ymweled am unwaith â'r wlad. Felly ar yr 17eg cynfisol cychwynasom ein dau oddiyma; cyrhaeddasom Mawphlang tua saith o'r gloch yn yr hwyr. Ymddangosai Dr. a Mrs. Hughes yn gysurus iawn yn eu cartref newydd yn Mawphlang. Boreu dydd Iau cychwynasom oddiyno, gan deithio y dydd hwnw mor bell â Nongspung, pentref mewn congl o ddosbarth Khadsawphra. Wedi cyrhaedd y pentref, aethom ar ein hunion i dŷ y brenin, yr hwn sydd Gristion. Nid oedd efe gartref, ond cawsom bob croesaw gan ei berthynasau oeddynt yn gofalu am y tŷ. Dyn ieuanc dibriod ydyw y brenin hwn, oad y mae ar fin priodi â merch ieuanc sydd yn athrawes yn un o ysgolion y Genadaeth. Y mae ganddo dŷ da iawn—un o'r rhai goreu ydwyf wedi weled yn y wlad, hyny yw, ymhlith tai y brodorion; felly cawsom le cysurus iawn i aros dros y nos. Y mae yn y pentref hwn amryw ffwrneisi haiarn. Ymwelsom âg un o honynt yr hwyr hwnw, er cael gweled dull y Khasi o wneyd haiarn. Dull syml a *primitive* iawn sydd ganddo, ac y mae yn engraifft deg iawn o fel y mae tylwythau anwaraidd y ddaear yn llwyddo i ddyfeisio yr hyn sydd anghenrheidiol er eu galluogi i gyfarfod âg anghenion beunyddiol bywyd yn eu plith. Y mae yr achos crefyddol yn y pentref hwn, gallem feddwl, mewn sefyllfa lled ddigalon. Nid oes ond rhyw bedwar neu bump o deuluoedd yn Gristionogion, a dywedent wrthym na bydd neb, oddigerth y Cristionogion, yn dyfod i'r moddion ar y Sabbath, na neb, oddigerth plant y Cristionogion, yn dyfod i'r ysgol ddyddiol. Methasom a chael cyfarfod o un math y noson hono. Yr oedd yr athraw, y brenin, ac un arall o'r Cristionogion, yn dygwydd bod yn absennol o'r pentref. Buom yn siarad â rhai o'r bobl, ond ymddangosent yn eithriadol o galed. Yr oedd rhyw olwg *defiant* megys ar rai o honynt, ac ofer oedd pob cymhell arnynt i ddyfod at eu gilydd i ni gael tipyn o gyfarfod. Un hen fachgen, pan y cymhellai Mr. Williams ef i ddyfod i'r cwrdd, a atebai, "Na, ddo i ddim. Pwy ydych chi yn feddwl wnai o'alu am roi bwyd i'r plant a'r ŵyrion, y moch a'r ieir, pe byddwn yn d'od?" Boreu drannoeth, pa fodd bynag, cynnaliasom dipyn o gyfarfod o flaen tŷ y brenin. Yr oedd rhyw ychydig o bobl wedi ymgasglu o gwmpas yno, ac anerchwyd hwynt gan yr hen efengylwr, U Kypa U Philip, o Nongwar, yr hwn oedd yn gydymaith i ni ar y daith hon. Wedi brecwesta cychwynasom am Nongsynrih, pentref yn Maram. Nid oedd neb o honom yn gwybod y ffordd, er hyny llwyddasom i gyrhaedd yno cyn nos. Nid oes ond ychydig fisoedd er pan y cychwynwyd ysgol yn y pentref hwn, ond y mae pethau yn ymddangos yn bur addawol yno. Y mae yr athrawes sydd yn dysgu yno yn un a hoffir yn fawr lle bynag y bydd. Y noswaith hono ymgasglodd nifer o blant a rhai mewn oed ynghyd, a chafwyd hwyl hyfryd ar ganu emynau, siarad â'r plant, &c. Yr oedd yn syn clywed y plant hyn yn canu mor dda, ac yr oeddent wedi dysgu llawer o emynau ar eu cof. Y mae yr athrawes hon yn sicr o fod yn un lafurus iawn.

Boreu drannoeth cawsom gyfarfod i bregethu ac i weinyddu yr ordinhad o fedydd. Daeth y Cristionogion ac amryw o'r pentrefwyr ynghyd, fel y cafwyd cynnulleidfa led dda. Wedi i mi bregethu tipyn, a dyweyd ychydig am natur yr ordinhad, bedyddiwyd 23, yn blant a phobl mewn oed. Yn eu plith yr oedd U Don, yr offeiriad dychweledig, yr hwn sydd yn ymddangos yn Gristion brwdfrydig a zelog iawn. Y mae wedi amlygu ei awydd i roddi darn o dir yn rhad at wasanaeth y Genadaeth. Gwedd gysurlawn a chalonogol iawn oedd ar bethau yn y pentref hwn.

Wedi canu yn iach i'r cyfeillion, cychwynasom ychydig cyn hanner dydd am Rangthong. Daeth U Don gyda ni i fod yn arweinydd ac yn gydymaith. Cyrhaeddasom Rangthong rhwng 5 a 6 o'r gloch nos Sadwrn. Ar ein ffordd yr oeddem yn pasio drwy ddarnau o wlad hyfryd iawn—rhanau amaethyddol a chryn lawer o dir da iawn. Gwelem luoedd o wartheg yn pori mewn meusydd breision yma a thraw. Gallem dybied fod y bobl hyn yn gallu byw yn gysurus ar gynnyrch y tir. Tybiwn fod yn y rhan hono o'r wlad leoedd cyfleus i Genadwr fyw, a chyflawnder o waith iddo i'w wneyd. Yr oeddwn yn teimlo ei bod yn drueni na ellid sefydlu gorsaf Genadol yn Maram, a gosod Cenadwr i fyw yno. Y mae yno wlad braf, hinsawdd hyfryd, a llawer o bentrefi o fewn cyrhaedd hawdd. Y mae y llwybrau yno yn gyfryw hefyd fel y gellir myned â cheffyl o'r naill fan i'r llall heb fawr o drafferth, ac nid peth bychan ydyw hyn pan y bydd anghen teithio llawer.

Wrth edrych ar gymaint o esgyrn gên gwartheg oedd yn grogedig yma a thraw mewn manau neilltuol, nis gallai un beidio meddwl y fath fantais dymmorol, heb son am ysbrydol, fyddai i'r bobl hyn gael eu dychwelyd at Gristionogaeth. Pan y bydd marw un mewn teulu, byddys yn lladd nifer o wartheg, rhai 15, rhai 20, rhai 30, yn ol eu gallu; ac yna crogir esgyrn gên y rhai hyn yn rhes uwch ben y fan lle y llosgwyd corff y marw. Amcan hyn ydyw darparu ymborth i'r ymadawedig. Dyna fel yr hysbysid ni gan U Don, yr offeiriad.

Wedi i ni gyrhaedd Rangthong, a chael tipyn o ymborth, aethom i'r cyfarfod gweddi a gynnelid yn yr ysgoldŷ. Nid ydwyf yn cofio i mi fwynhau cyfarfod gweddi yn fwy na hwn er pan ydwyf yn y wlad, nac yn gymaint yn wir. Yr oedd rhyw wyleidd-dra a symledd hyfryd o gwmpas y rhai oedd yn cymeryd rhan yn y cyfarfod ag oedd yn ei wneyd yn beth hawdd i gydweddio â hwynt. Yr oedd y canu yno hefyd yn rhagorol o dda. Pan gofiem nad oes ond ychydig amser—nid wyf yn cofio yn iawn a oes ychydig fwy na blwyddyn neu peidio—er pan ddechreuwyd gweithio yn y lle hwn, nis gallem lai na rhyfeddu a theimlo yn ddiolchgar. Y mae y cyfeillion yn y lle hwn wedi adeiladu capel dymunol iawn—y capel cyntaf yn nheyrnas Maram; a thrannoeth, sef y Sabbath, cynnaliwyd cyfarfod agoriadol y

capel newydd. Pregethodd Mr. Williams a minnau yn oedfa y boreu; ac yn y prydnawn pregethodd U Kypa U Philip. Y mae yr hen frawd hwn yn ddigon ei hun mewn un cyfarfod, fel nad oes anghen am neb i bregethu ar ei ol nac o'i flaen. Hen bregethwr rhagorol ydyw yr hen frawd hwn. Credaf mai efe ydyw y galluocaf a'r mwyaf athrylithgar o holl bregethwyr y wlad, ac yr wyf yn tybied fod ei wybodaeth o'r Bibl yn eangach ac yn fanylach na'r eiddo yr un o honynt Gweinyddwyd yr ordinhad o fedydd yn y cyfarfod hwn ar blentyn un o'r Cristionogion. Tua phedwar o'r gloch cafwyd cyfarfod arall i ganu ac i holi y plant. Holwyd hwynt yn hanes Iesu Grist, ac atebent yn hynod o dda. Eglur oedd fod yr athraw sydd yno wedi cymeryd trafferth nid bychan i'w haddysgu. Pleser mawr i ni oedd clywed y plant a'r bobl ieuainc hyn yn dangos cymaint o gynnefindra â hanes y Gwaredwr, a hyny mewn pentref oedd mor ddiweddar mor hollol baganaidd; a diau fod clywed neu ddarllen am bethau fel hyn yn rhoddi boddhad mawr i garedigion yr Iesu yn Nghymru. Y mae yn peri iddynt deimlo mai nid gwaith ofer ydyw cyfranu tipyn at yr achos Cenadol. Y mae un o'r Cristionogion yn y lle hwn hefyd wedi rhoddi darn lled helaeth o dir at wasanaeth y Genadaeth. Ar y tir hwn y mae y capel wedi ei godi, ac y mae dau neu dri o dai eraill wedi eu codi yn barod gan y Cristionogion arno. Y mae y dyn ieuanc sydd yn frenin yma wedi dyfod yn Gristion, ac ymddengys yn un pur zelog a ffyddlawn.

Boreu Llun ymadawsom â Rangthong, wedi treulio amser hapus iawn yno. Cyfeiriasom ein camrau oddiyno tua Jakrem, lle y mae brenin arall Maram yn byw. Yn y deyrnas hon y mae dau yn cyd-deyrnasu, ac yn rhanu y cyllid rhyngddynt. Ni lwyddasom i gael cyfarfod yn y lle hwn, gan fod y bobl wrthi yn brysur yn y meusydd. Daeth yno amryw bobl i dŷ mam yn nghyfraith y brenin, lle yr oeddem yn cysgu y noson hono, a buwyd wrthi yn hau yr had drwy ymddyddan â hwy am bethau yr efengyl. Trannoeth cychwynasom ben boreu, a chyrhaeddasom Mawphlang ychydig cyn y nos, wedi bod ar y ffordd tuag un awr ar ddeg.

Llythyr oddiwrth Weddw y diweddar U Borsing Sim.

Ychydig fisoedd yn ol, fel y cofia llawer o'n darllenwyr, bu farw U Borsing, yr hwn y mae ei enw yn adnabyddus fel un a wrthododdi freiniaeth ddaearol yn hytrach na gwadu ei broffes Gristionogol.* Ar derbyniad yr hysbysrwydd am ei farwolaeth, anfonwyd llythyr, ar ran Cyfarwyddwyr y Genadaeth, yn dadgan cydymdeimlad â'i briod a'i blant yn eu galar. Mewn atebiad cafwyd llythyr oddiwrth ei weddw yn cydnabod y penderfyniad o gydymdeimlad â hwy. Diau mai da fydd gan lawer ddarllen ychydig linellau o'r llythyr, yr hwn a gyfieithwyd gan y Parch. John Roberts.

Nongsawlia, Cherrapoonjee.

Fy Anwyl Dadau a Mamau a Brodyr yn Iesu Grist ein Harglwydd,—

Gydag awyddfryd mawr yr wyf yn ysgrifenu y llythyr hwn atoch i ddangos fy niolchgarwch i chwi a'm derbyniad croesawgar o'ch cydymdeimlad ysbrydol â mi a'm plant yn yr holl brofedigaethau a ddaeth arnom. Y mae yr holl brofedigaethau a ddaeth ar fy nhŷ yn rhoddi i mi resymau i afael yn dynach nag erioed yn ffydd Iesu Grist. A diolch i Dduw ei fod yn ein dal yn ei gariad hyd yn hyn.

Ond pan ddechreuwyf feddwl am fy sefyllfa flaenorol, mae fy meddwl yn sur ac yn ofidus hyd nes y mae fy nagrau yn disgyn; a hyd nes teimlo na ddylwn ddilyn Iesu Grist mwy. Pan feddyliwyf drachefn nad yw heddwch fy mywyd i, a'm plant oll, yn y bywyd hwn, ac nad yw yr hyn sydd wedi dygwydd i ni wedi dyfod o ewyllys dyn, ond fod pob peth o Dduw, byddaf yn cael modd i ymfoddloni, a bydd fy nghalon yn llawn cysur.

Y mae ymadawiad U Borsing Sim wedi fy ngadael yn unig iawn, ac y mae i mi a'm plant ofid calon mawr iawn. Yr wyf fi a'm plant yn penderfynu cael ffydd gref fel yr eiddo Borsing Sim, a'r dianwadalwch a ddangosodd efe tra y bu byw, trwy gymhorth Duw. Ac y mae hyn yn peri i mi weithio fy ngoreu ymhlith fy nghydbentrefwyr, a'm teulu sydd yn aros mewn tywyllwch, fel y byddo iddynt hwythau hefyd gael cydweled goleuni Gair Duw a gwerthfawr waed Iesu Grist.

Flynyddoedd yn ol, ar adeg yr Henadduriaeth yn Nongsawlia, byddwn yn gallu llettŷa 40 neu 50, ond yn awr, trwy ymdrech fawr yr wyf yn gallu llettŷa 5. Ond pa beth a ddywedaf pan y mae fy Arglwydd yn ewyllysio rhoddi profedigaeth i mi a'm plant? yr wyf yn teimlo mai fy nyledswydd ydyw bod yn ddiolchgar i'm Harglwydd. Tra y gwel efe yn dda fy nghynnal a'm harwain, mi a ymddiriedaf ynddo ac a'i caraf. Yn yr Arglwydd Iesu Grist yn unig y mae i mi ddigonolrwydd.

Yn wyf yn gobeithio yn fawr y bydd i chwi fy nghynnorthwyo trwy eich gweddïau fel y byddo i mi allu sefyll yn gadarn, fel y byddo i waith Duw lwyddo o flwyddyn i flwyddyn yn y pentref hwn ac yn Khasia.

---

* Fel hyn yr ysgrifenai C. A. Elliott, Ysw., C.B., Prif Lywodraethwr Assam, ychydig amser yn ol, at Dr. Graham, Edinburgh:—"A glywsoch chwi erioed am y Khasi Cristionogol, U Borsing? Mae yn gymeriad tra dyddorol. Efe ydyw yr unig ddyn, mae yn debyg, sydd yn awr yn fyw yn y byd, a wrthododdd deyrnas er mwyn Crist. Efe ydoedd yr etifedd i Freiniaeth *(Seimship)* Cherra,—y fwyaf bwysig o'r tywysogaethau hanner annibynol yn Khasia,—ond yr oedd yn Gristion, wedi ei ddyrchwelyd trwy y Cenadon Cymreig ar y bryniau hyny. Dywedodd y bobl wrtho, 'Ymwrthodwch â Christionogwaeth, a derbyniwn chwi fel ein Seim;' ond naeaodd, a daeth ei gefnder yn ei le."

Yr wyf yn anfon fy anerch mewn cariad at y cyfeillion yna oll, gan roddi fy ngweddi fer,—Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw y Tad, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll. Amen.

Ydwyf,

Ka Kymi Ka Meribon,
Gwraig U Borsing Sim.

Nid yw amgylchiadau teulu U Borsing yn caniatâu iddynt allu codi colofn i'w goffâu, ond diau y pery ei goffadwriaeth yn hir yn fendigedig yn Khasia ac yn Nghymru. Dywed y Parch. J. Roberts, "Pe cai rhywrai ar eu meddyliau i roddi ychydig tuag at osod beddfaen lled hardd ar fedd U Borsing, a *tablet* yn y capel yma ar ei ol, yr wyf yn meddwl y byddai yn weithred dda a phriodol." Diau fod yn werth cadw enw ac esiampl U Borsing yn uchel o flaen meddyliau ei gydwladwyr o genedlaeth i genedlaeth. Dymuna y Cyfeisteddfod Gweithiol hysbysu y derbynir yn ddiolchgar unrhyw symiau y gwel cyfeillion yn dda eu hanfon tuag at yr amcan a grybwyllir gan Mr. Roberts.

Bryniau Jaintia.

DOSBARTH SHANGPOONG.

Llythyr oddiwrth Dr. A. D. Hughes.

Ar y 30ain o Ebrill, ysgrifena Dr. Hughes fel y canlyn o Mawphlang. "Y mae y *cholera* ar hyn o bryd yn gwneyd galanastra mawr yn Jaintia, yn enwedig yn y parth deheuol. Ni bu ond tair o farwolaethau yn Jiwai, ond un o'r rhai yr ydym yn galaru ar ei ol ydyw U Katwar yr Efengylydd, un a fu yn hir ac yn ffyddlawn yn ngwasanaeth y Genadaeth. Galwyd ef ymaith yn mlodau ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, a gadawodd weddw a phedwar o blant bychain. Yn Iongushen a Twa-u-sydia cymerwyd nifer mawr ymaith gan y *cholera*, yn eu mysg U Kypa U Simon, prif ddiacon a chynnorthwywr yr eglwys yn Iongushen. Mae y pentrefwyr wedi gadael eu pentrefi a ffoi i'r *jungles*, gan feddwl diane rhag yr ymwelydd arswydus.

Clywsoch am y capel mawr a hardd a adeiladwyd gan y Cristionogion yn Sohka. Yr oedd newydd gael ei orphen, ac yr oedd yn wir yn adeilad prydferth,—y capel mwyaf fe allai ar y Bryniau hyn, y tu allan i'r gorsafoedd cenadol. Wythnos i'r Sabbath diweddaf tarawyd ef gan feilten a dinystriwyd ef yn llwyr. Mae y cyfeillion yno bron wedi tori eu calonau. Yr oeddynt wedi hunanymwadu ac aberthu llawer i adeiladu eu capel. Yn awr nid oes ganddynt un man i gyfarfod, nac arian i ail-adeiladu. Bydd iddynt hwy roddi eu hamser a'u llafur os rhydd rhyw gyfeillion caredig help i gael defnyddiau. Ac yr un adeg, cafodd capel newydd prydferth Wahiajer ei ddinystrio mewn rhan gan gorwynt, a dinystriwyd yr ysgoldy yn hollol. Mae yr un sylwadau yn gymhwysadwy at Wahiajer ag at Sohka. Mae yn amser o brawf ar Gristionogion Jaintia. Drwg genyf nad ydwyf yn eu plith i geisio eu cysuro."

Rhanau o Lythyrau oddiwrth y Parch. R. Evans.

Mewn llythyr dyddiedig Ebrill 16eg, rhydd Mr. Evans hanes "math o Henaduriaeth leol" a gynnaliwyd yn Mawkaiew. Yr oedd cynnrychiolwyr o 15 allan o'r 16 o bentrefi yn y Dosbarth yn y rhai y cynnelir cyfarfodydd crefyddol.

"Mae yn syndod y fath ddyddordeb y mae y bobl yn gymeryd yn y cyfarfodydd. Mae yr athrawon yn cael mantais i ymgydnabyddu â'u gilydd ac â Christionogion y gwahanol bentrefi. Cytunasom fod yr holl athrawon, ac eraill, os ewyllysient, i sefyll arholiad mewn maes penodol bob chwe' mis. Cynnygiwyd hyn gan yr athrawon eu hunain, wedi cael y drychfeddwl yn Cherra. Cytunwyd ar 1 Timotheus yn hanesyddol fel maes llafur, a fy mod innau i'w harholi ynddo. Gan fod gwahaniaeth mawr yn ngalluoedd yr athrawon, ac fel symbyliad i lafur, cynnygiais innau fod y goreu yn yr arholiad i fod yn arholwr y tro nesaf, a'r hyn y cytunodd pawb. Treuliwyd rhan fawr o un o'r cyfarfodydd i ddarllen cyfieithiad o'r llythyr a anfonwyd o Gynnadledd Canmlwyddiant Cenadaethau, a gynnaliwyd yn Llundain y flwyddyn ddiweddaf, a gwneyd sylwadau arno. Rhoddodd y darlleniad o hono siriol-deb mawr i'r holl frawdoliaeth.

Am saith o'r gloch bore Sabbath, cynnaliasom gyfarfod eglwysig, fel math o barotoad ar gyfer y cymundeb oedd i gael ei weinyddu am un o'r gloch; ac yr oedd yn gyfarfod gogoneddus. Nid oes llawer o deimlad yn y bobl yma fel rheol; ond yr oedd hwn yn gyfarfod gwlithog. Methai y rhai a adroddent eu profiadau fyned ymlaen gan deimlad, ac yr oedd y methiant yn fwy hyawdl na hyawdledd ei hun. Addefai nifer mai drwy anhawsder yr oeddynt yn gallu peidio gwaeddi allan; a theimlwn innau bron fy mod yn pechu wrth beidio rhoddi y gogoniant i Dduw drwy ei foliannu ar gyhoedd. Yr wyf bron yn sicr fod tywalltiad yr Ysbryd yn fwy agos atom y dyddiau hyn nag y bu er sefydliad y Genadaeth. Cawsom rywbeth tebyg yn Tangrain ddau neu dri mis yn ol. Rhoddasom ddiwrnod i ofyn am dano yn nechre y flwyddyn; ac nid yw efe yn awr ond profi ein hamynedd a'n dyfalbarhad. Yr ydym yn ddiau wedi cael gwlith, ac nid wyf yn ammheu na bydd i ni yn fuan gael gwlaw hefyd. 'O deued ef i lawr.' Yr oedd holl gyfarfodydd y Sabboth yn cael eu nodweddu gan fwy o deimlad na'r cyffredin.

Boreu Llun daeth bron bawb â'r casgliad eglwysig am y chwarter i law; ac nis gallaswn lai na gweled yn hyn wellhâd mawr yn y Cristionogion mewn trefnusrwydd a phryd-londeb.

A fyddwch chwi mor garedig a chyhoeddi fy niolchgarwch diffuant i 'Un o Penmaenmawr' am ei rodd haelionus o *chwe' phunt*

i'w defnyddio tuag at ddwyn un o'r newydd i dderbyn yr efengyl. Yr wyf yn penderfynu ei defnyddio tuag at gynnal athraw yn mhentref Lapangàp, yn nheyrnas Shilliang Myntang. Dysgwyliaf y bydd i'r rhodd uchod fod yn foddion i ddwyn mwy nag un at Iesu Grist, ac erfyniaf ar i'r rhoddwr haelionus wneyd y pentref yn fater gweddi feunyddiol."

Mewn llythyr dyddiedig Ebrill y 26ain, rhydd Mr. Evans hanes taith a gymerasai i Mawkyndeng, Tangrain a Mynsaw. Yn y lle cyntaf bedyddiwyd dau ar bymtheg,—naw o honynt mewn oed, a chyfranogwyd o swper yr Arglwydd, y tro cyntaf i'r ordinhadau gael eu gweinyddu yn y pentref. "Maent yn weithgar. Mae zel rhai o honynt weithiau yn eu gyru ar gyfeiliorn. Daeth dau o'r aelodau yma heddyw yn un pwrpas i ofyn fy maddeuant am siarad yn lled galed wrth yr athraw. Yr oeddynt wedi gofyn maddeuant yr athraw, a'i gael. Dyma beth nad oes dim yn y wlad yma all ei wneyd ond crefydd yr Arglwydd Iesu. Ni wna bron neb ofyn maddeuant gan eu gilydd ond Cristionogion."

PATAGONIA.

Fel y gwelir wrth yr Adroddiad a ddygwyd i'r Gymanfa Gyffredinol gan y Cyfeisteddfod Gweithiol, y mae ein cydgenedl yn Patagonia yn parhau i ddymuno cael brawd i lafurio yn eu mysg. Teimlant erbyn hyn yn fwy hyderus i allu addaw swm i gyfarfod â'r hyn a roddid gan y Genadaeth. Bydd yn dda gan y Cyfeisteddfod Gweithiol dderbyn ceisiadau oddiwrth weinidogion fyddont yn teimlo awydd i ymgysegru i'r maes hwn. Gyda golwg ar y cymhwysderau anghenrheidiol, nis gellir gwneyd yn well na dyfynu ychydig eiriau o adroddiad y Parch. W. Roberts, Llanrwst, yr hwn a fu yn ymweled â Patagonia: "Yr hyn y rhoddent bwys mawr arno, ac y teimlent yn hyderus iawn yn ei gylch, oedd cael gŵr cymhwys i'r lle. Teimlid y byddai yn ddymunol, os gellid, cael dyn wedi cael peth profiad yn y gwaith; ond rhaid iddo feddu gallu naturiol, mesur helaeth o ddoethineb a thymher dda, cymeriad sanctaidd, ysbryd ymroddgar a gweinidogaeth rymus ac effeithiol." Byddai y Cyfeisteddfod yn barod i dalu rhyw swm, dyweder am dair blynedd, i gyfarfod â'r hyn a wneir gan y sefydlwyr, gan ddysgwyl y byddent ymhen yr amser hwnw yn alluog i ymgymeryd â'i gynaliaeth.

YR ADRODDIAD BLYNYDDOL.

Erbyn y bydd y llinellau hyn yn nwylaw ein darllenwyr, bydd yr Adroddiad Blynyddol wedi ei anfon yn Gymraeg a Saesoneg i bob sir, a thaer erfynir ar i'r swyddogion lleol ofalu ar fod i gopi gael ei roddi i bob tanysgrifiwr o 2s. 6c. neu ragor. Anfonir hefyd gyda'r sypynau nifer o ddalenau yn rhoddi byr adroddiad am sefyllfa bresennol y Genadaeth. Teimlir yn ddiolchgar os bydd iddynt gael eu lledaenu yn y cynulleidfaoedd neu yr Ysgolion Sabbothol.

CASGLIAD YCHWANEGOL EGLWYSI DYFFRYN CLWYD.

Yn nghyfarfod Cyfeisteddfod Gweithiol y Genadaeth a gynnaliwyd Mehefin 12fed, Dr. Gee, U.H., yn y gadair, pasiwyd penderfyniad cynhes o ddiolchgarwch i'r cyfeillion yn nghylch Cyfarfod Misol Dyffryn Clwyd am y casgliad ychwanegol o £138 2s. 4c. a wnaed ganddynt i gyfarfod â threuliadau cynnyddol y Genadaeth. Calonogid y Cyfeisteddfod yn fawr gan yr arwydd hwn o gydymdeimlad a chydweithrediad.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
O Chatham Street, Liverpool	38	0	0
O Anfield Road, Liverpool	19	11	4½
Garston	6	9	4
Oddiwrth Mr. Edward David, Nantmoel, i'w hanfon i'r Parch. J. Ceredig Evans, tuag at gapel newydd Mawsmai	2	0	0
Dienw tuag at y capel yr oedd y plant yn cario ceryg i'w adeiladu (Myllim)	0	5	0
"A. B." i'w hanfon i'r Parch. R. Evans, i'w defnyddio tuag at y gwaith	5	0	0
Cynnwys Blwch Cenadol G. O. Griffiths a Maggie Griffiths, Southport	0	5	0
Derbyniwyd am y llyfr "Ymweliad â Khasia"	2	2	0
Derbyniwyd trwy law y Parch. T. Hughes, Kenchester, tuag at Ysbytty Jiwai:—			
Mr. Edward Davies 0 10 0			
Mr. J. Protheroe 1 0 0			
Dan 2s. 6c. 0 2 0			
	1	12	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.